# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 7 CHWEFROR, 2023 am 9:30 y bore | | TUESDAY, 7 FEBRUARY, 2023 at 9:30 a.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

## R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2023.

**4** **ADRODDIAD BLYNYDDOL YNYS MÔN GAN GWE 2021/2022** (Tudalennau 9 - 144)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**5** **ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG** (Tudalennau 145 - 152)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 153 - 160)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 17 Ionawr 2023

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Non Dafydd, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, Derek Owen, Pip O'Neill, Margaret M Roberts, Ken Taylor.

**Aelodau Portffolio**

Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor); Cynghorydd Carwyn Jones (Is Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth); Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Ieuenctid); Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol); Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd); Cynghorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo); Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg).

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu) (AH) (eitem 4 yn unig),
Rheolwr Sgriwtini (AD),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Jeff Evans, John I Jones.

Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer).

Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Ms Sandra Thomas – Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 5).

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol ar gyfer eitem 4 – Diogelu Corfforaethol – Adroddiad Blynyddol (Tachwedd) 2021/2022 ac eitem 6 – Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 – 2022/2023 : Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd 23 Tachwedd, 2022 yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn**

Roedd yr Is-gadeirydd eisiau canfod a oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer camerâu CCTV symudol mewn cymunedau gwledig. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y mater wedi'i godi o fewn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn a dywedodd nad oedd cyllid ar gael ar hyn o bryd i ddarparu camerâu CCTV symudol. Fodd bynnag, mae Diogelwch Cymunedol wedi'i flaenoriaethu yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y llywodraeth, a chynhelir trafodaethau o fewn Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel yn fuan.

**4 DIOGELU CORFFORAETHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL - TACHWEDD 2021/2022**

Cyflwynwyd – yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol – Tachwedd 2021/2022.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn adroddiad ar ddiogelu trefniadau corfforaethol sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaed ac i ba raddau mae diogelu wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar wasanaethau, swyddogaethau a dyletswyddau'r cyngor. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi sefydlu Byrddau Diogelu Corfforaethol Gweithredol a Strategol sydd ag agenda cadarn ar waith sy'n cynnwys data pwysig a rennir gyda'r Byrddau. Dywedodd fod gan bob gwasanaeth Hyrwyddwr Diogelu sy'n cynnig cyngor ar bob mater diogelu ar gyfer staff eraill o fewn ei wasanaeth, a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu) fod y strwythurau llywodraethu ar waith i sicrhau bod yr holl ddyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, a bod agwedd yr Awdurdod tuag at ddiogelu yn foddhaol. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu, ac yn ymwybodol fod hyn yn cynnwys adroddiad ar bryderon yn ymwneud â'r plant ac oedolion maen nhw'n dod ar eu traws. Aeth ymlaen i ddweud fod y Panel *Prevent* a *Channel* wedi'i gynnwys o fewn Cyfansoddiad y Cyngor. Roedd rhestr o Swyddogion Statudol a Phriodol a oedd yn dangos pwy sy'n arwain *Prevent* a *Channel* hefyd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad. Dywedodd fod Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol Cymru wedi'u cynnwys yn strwythur y grwpiau, gan ddiffinio dyletswyddau sy'n gysylltiedig â rolau gweithwyr, rheolwyr

neu arweinwyr gwahanol. Mae cam allweddol wedi'i adlewyrchu yn y cynllun gweithredu, sef i fapio'r gweithlu gyda'r grwpiau gwahanol a llunio cynllun er mwyn darparu hyfforddiant. Dyma gyfle i fapio gofynion hyfforddi'r gweithlu o ran Atal a Chaethwasiaeth Fodern ar yr un pryd. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at y cymorth a'r ymyriadau effeithiol, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ar gyfer ymateb i bryderon diogelu mewn perthynas â'r rheiny sy'n gweithio, un ai am dâl neu'n wirfoddol, sy'n golygu eu bod mewn cysylltiad â phlant neu oedolion sydd mewn risg. Roedd rhestr o honiadau a wnaed yn erbyn gweithwyr/gwirfoddolwyr y cyngor, sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion gydag anghenion gofal a chymorth, wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at yr ymarfer effeithiol o fewn Cynghorau mewn perthynas â darpariaeth caffael wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi Hysbysiad Cyngor ar Ddiogelu, Caffael a Rheoli Contract sy'n helpu gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan bartneriaid yn ddiogel ac yn hyrwyddo diogelu. Mae pob gwasanaeth yn gyfrifol am ei drefniadau Caffael a Rheoli Contract ei hun, yn ogystal â phenderfyniad ynghylch sut i ddefnyddio'r Hysbysiad Cyngor.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a chodwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod ymarfer diogel ar waith wrth gomisiynu gwasanaethau, a bod yr holl ddarparwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu'n effeithiol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y trefniadau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith o ran sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu. Bu i'r Rheolwr Gwasanaeth hefyd ddweud fod yr Hysbysiad Cyngor ar Ddiogelu, Caffael a Rheoli Contract yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan bartneriaid yn ddiogel ac yn hyrwyddo diogelu. Wrth osod contractau, cwblheir prosesau monitro ac adolygu i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith;
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau mae tystiolaeth fod gweithdrefnau corfforaethol cadarn ar waith a'u bod yn cael eu gweithredu'n rheolaidd. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyhoeddus bod Cynllun Gweithredu ar waith yn atodiad yr adroddiad. Dywedodd pan fydd problemau'n codi a phan fydd adrannau angen cymorth gyda materion diogelu, gellir eu cyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol er mwyn cryfhau'r trefniadau corfforaethol ac i gefnogi staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion;
- Gofynnwyd a oes adnoddau ar waith ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Gwaith. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r gweithlu sy'n delio gyda materion diogelu yw'r unig adnodd. Dywedodd fod arbenigedd yn amrywio o adran i adran, ac mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Addysg fwy o arbenigedd diogelu oherwydd natur eu gwaith.
- Fodd bynnag, pwysleisiodd fod gan bob unigolyn o fewn y Cyngor gyfrifoldebau diogelu;
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y cynnydd a oedd yn cael ei wneud yn erbyn y cynllun gwaith. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cynllun Gwaith yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac mae'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar unrhyw faterion nad ydynt yn symud yn eu blaenau fel y disgwylir;

- Cyfeiriwyd at y rhestr o honiadau yn erbyn gweithwyr/gwirfoddolwyr y cyngor sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth fel y nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r honiadau hyn ac a ddysgwyd unrhyw wersi o ran y weithdrefn recriwtio. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth na thynnwyd sylw at unrhyw broblemau gyda'r broses recriwtio o ran yr honiadau a wnaed yn erbyn rhai unigolion o fewn yr adroddiad. Dywedodd fod angen hyfforddi a chefnogi unigolion o fewn eu rolau yn fwy cadarn, ac mae'r materion hyn yn cael eu hadroddiad i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Dywedodd y Pwyllgor fod hefyd angen cefnogi unigolion pan nad yw honiadau a wneir yn eu herbyn yn cael eu profi. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn tynnu sylw at archwiliadau gwahanol o ran diogelu plant ac oedolion mewn risg. Dywedodd ei fod yn gyfnod heriol i'r unigolion sydd â honiadau yn neu herbyn yn ogystal â'r bobl sydd wedi gwneud yr honiadau; mae'r broses archwilio angen ei dilyn cyn gynted â phosibl. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod gweithdrefnau clir ar waith a gall gweithwyr yr Awdurdod fanteisio ar y broses Gwnsela drwy MEDRA. Dywedodd fod angen adolygu a monitro pob achos penodol ac edrych ar yr achos o'r ddau safbwynt, a sut ellir cefnogi'r unigolion hynny.

  **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar Cynllun Gwaith ar gyfer trefniadau Diogelu Corfforaethol.**

  **GWEITHRED: Fel nodwyd uchod.**

## 5 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT – BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2023/2028

Cyflwynwyd – y Cynllun Llesiant Drafft – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer 2023/2028.

Dywedodd arweinydd y Cyngor mai dyma'r ail Gynllun Llesiant ar y Cyd, a bod y broses ymgynghori statudol wedi dechrau ar ddechrau'r flwyddyn tan 6 Mawrth, 2023. Yn dilyn hyn, bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn creu Cynllun Llesiant terfynol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu gwella llesiant trigolion yr ardal. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i wneud cyfraniad ystyrlon i'r tirlun partneriaeth heb ddyblygu gwaith partneriaethau eraill, ac felly mae'r Cynllun Llesiant ddrafft yn ceisio pennu a oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rôl o ran arwain neu ddarparu'r blaenoriaethau llesiant. Dywedodd fod y Ddeddf yn tynnu sylw at saith targed llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredinol i gyrff cyhoeddus. Wrth weithio mewn partneriaeth, mae'n bwysig cyflawni'r targedau hyn a gwneud gwahaniaeth i lesiant trigolion Gwynedd ac Ynys Môn.

Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn fod y Pwyllgor Sgriwtini hwn a'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yng Nghyngor Gwynedd yn ymgynghorai statudol ar gyfer y Cynllun Llesiant Drafft. Dywedodd mai'r cam cyntaf o ran creu Cynllun Llesiant oedd gwneud asesiad ar lesiant a gwneud ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am yr ardaloedd hynny. Bydd y cyfnod ymgynghori tri mis statudol yn dod i ben 6 Mawrth, ac mae'r Bwrdd yn ceisio ymestyn yr ystod o ymgynghorai ar gyfer y Cynllun Drafft, gan wahodd cynrychiolwyr o chweched dosbarth Ysgolion Uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn, a myfyrwyr o Goleg Menai i herio nodau ac amcanion y Bwrdd.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a chodwyd y pwyntiau pwysig canlynol:-

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch ym mha ffordd y gallai cymunedau helpu i ddarparu blaenoriaethau'r cynllun a'u datblygu ymhellach yn y dyfodol. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y cymunedau lleol wedi bod ynghlwm drwy Medrwn Môn, sydd â chynrychiolydd ar Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae cymunedau lleol wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori ac mae Medrwn Môn hefyd wedi bod yn rhan o'r sesiynau hynny o fewn y cymunedau. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a ymgynghorwyd â Chynghorau Tref a Chymunedol mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant. Ymatebodd Rheolwr y Rhaglen gan ddweud fod cynrychiolwyr o'r Bwrdd wedi cymryd rhan mewn Fforymau Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngwynedd ac ar Ynys Môn, ac maent hefyd wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned;
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a chredir y bydd yr amcanion a blaenoriaethau llesiant sydd wedi cael eu nodi er mwyn cyflawni targedau yn gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd y ddwy sir. Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisiau dyblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan sefydliadau eraill. Dywedodd ei bod yn bwysig fod cymunedau lleol yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'i fod wedi ychwanegu gwerth i'w cymunedau. Dywedodd y Prif Weithredwr fod trefniadau Llunio Lleoedd y Cyngor, sef ffordd o weithio gyda chymunedau, yn eu galluogi nhw i gyflawni eu blaenoriaethau penodol yn lleol;
- Cyfeiriwyd at amcanion llesiant mewn perthynas â chefnogi cymunedau i ddod yn garbon sero net. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a ellir rhoi sicrwydd na fydd gwaith yn cael ei ddyblygu pan fydd sefydliadau eraill megis y Gwasanaeth Tan ac Achub yn rhannu'r un amcan i fod yn garbon sero net erbyn 2030. Dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a byddant yn gallu cefnogi a rhannu arfer da gyda sefydliadau eraill o fewn y Bwrdd;
- Gofynnwyd a oes unrhyw flaenoriaethau ar goll, yn enwedig o ystyried canfyddiadau'r Asesiadau Llesiant ar ddechrau'r flwyddyn. Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad yw'r economi wedi'i ystyried yn benodol o fewn y blaenoriaethau gan fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cael ei sefydlu er mwyn canolbwyntio ar economi Gogledd Cymru;
- Gofynnwyd sut y rhennir gwybodaeth rhwng y sefydliadau partner o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sut mae gwaith y Bwrdd wedi elwa trigolion Gwynedd ac Ynys Môn dros y pum mlynedd ddiwethaf. Dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod trafodaethau wedi'u cynnal yn ystod y gweithdai a

gynhaliwyd y llynedd, a bydd y Bwrdd yn mesur ei lwyddiant a chasglu arfer da ledled Cymru. Dywedodd bod y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gwaith y Bwrdd a sefydliadau partner er mwyn hyrwyddo blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant.

**PENDERFYNWYD nodi y bydd y Cynllun Llesiant ddrafft yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai, 2023.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

**6 ADRODDIAD AR GYNNYDD CH2 - 2022/2023: BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adrodd Cynnydd Chwarter 2 - 2023/2023.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 2 yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth, ac mae'n darparu trosolwg o gynnydd prosiectau a'r Rhaglen Bargen Twf. Mae adroddiad Chwarter 2 yn dangos y prosiectau sy'n adrodd yn erbyn y proffil darparu portffolio diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2022. Mae tri phrosiect yn adrodd fel Coch yn yr adroddiad un ai oherwydd risg o gwmpas y prosiect, neu oediadau sylweddol yn amserlen y prosiect:-

- Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Prifysgol Bangor) – prosiect dan adolygiad oherwydd cais i newid rhagamcaniadau cyfalaf a refeniw. Mae'r Swyddog Rheoli Portffolio yn gweithio gyda noddwr y prosiect i edrych ar opsiynau er mwyn cyflymu darpariaeth.
- Hwb Economi Wledig Glynllifon – angen sicrhau caniatâd cynllunio a bwlch ariannu posibl oherwydd costau adeiladu cyfalaf cynyddol;
- Fferm Sero Net Llysfasi – prosiect bellach wedi cael ei ohirio, mae cyllid ar gael i'w adleoli a bydd y broses ar gyfer mynegi diddordeb ar gyfer prosiectau newydd yn cael ei pharatoi.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod rhai o'r Bargeinion Twf wedi cael eu gohirio oherwydd gwaith cynllunio manwl sydd ar waith yn ogystal â fforddiadwyedd oherwydd sefyllfa'r economi.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a chodwyd y pwyntiau pwysig canlynol:-

- Gofynnwyd ai'r cynnydd mewn costau sy'n golygu na fydd y Bargeinion Twf a restrwyd yn mynd y neu blaen. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Achos Busnes pob prosiect yn faith a chymhleth, ac mae perygl na fyddai'r prosiectau wedi bod yn gyraeddadwy. Dywedodd fod sefyllfa'r economi wedi newid dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae nifer o ranbarthau wedi cyflwyno cais i'r Llywodraeth daro ail olwg ar y Bargenion Twf gan fod rhai prosiectau'n wynebu heriau ariannol. Cyfeiriodd at brosiect Morlais, sydd wedi cael ei adolygu o ran gwneud y defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynnydd mewn chwyddiant wedi bod yn ffactor i brosiectau a hynny o ran cynyddu costau;

- Cyfeiriwyd at brosiect Egnïo Trawsfynydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Gofynnwyd a fydd y prosiect hwn yn rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru. Dywedodd y Prif Weithredwr fod prosiect Trawsfynydd yn rhan o'r Fargen Twf ac mae cyllid cyfalaf wedi'i gynnwys a'i neilltuo ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, mae'r cyllid tuag at brosiect Trawsfynydd wedi'i neilltuo ar gyfer adeg yn y dyfodol, ond mae'r datblygwr yn barod i ddatblygu'r safle nawr;
- Gwnaed sylwadau ynghylch y gofynion ar gyfer cyflwyno'r Adroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar sail chwarterol. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod Trefniadau Llywodraethu'n gofyn i gyflwyno Adroddiadau Chwarterol ar gyfer sgriwtini, ac i newid y gofyniad hwn, byddai angen trafodaeth ranbarthol gyda Llywodraeth y DU a Chymru. Dywedodd y Prif Weithredwr bod angen sicrwydd gan y ddwy lywodraeth bod proses sgriwtini ar waith i herio'r Fargen Twf, yn enwedig oherwydd trefniadau llywodraethu newydd y Cyngor Cyfiawnder Sifil.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 2 – 2022/2023;**
- **Fod y broses ar gyfer cyflwyno'r adroddiad chwarterol yn cael ei thrafod yng nghyfarfodydd Pwyllgor Sgriwtini y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 7 BLAEN RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn cyflwyno Blaen Rhaglen Waith fynegol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2022/23, i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Blaen Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yn hyn o ran gweithredu'r Blaen Rhaglen Waith.**

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaid ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **Chwefror 7fed, 2023** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol GwE 2021/22 ar gyfer Ynys Môn** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Craffu ar Adroddiad Blynyddol GwE** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Berw Hughes** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Marc Berw Hughes<br>07969324329<br>Marchughes@ynysmon.llyw.cym** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i holl Aelodau'r Cyngor** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** Gynnig sylwadau ar yr adroddiad blynyddol a chynnig awgrymiadau ar effeithiolrwydd y cynnig i ysgolion Ynys Môn.

**A2** Dod i farn am y trefniadau craffu mewn perthynas a'r Fframwaith Atebolrwydd newydd i'r dyfodol.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor.

Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau, a gyda phartneriaid er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lles yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun yw "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn", ac mae gwaith GwE yn cyfrannu at y nod hwn.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ofyn y cwestiynau:

- Sut ydym yn gwybod beth yw'r safonau yn ysgolion Ynys Môn?
- A yw gwaith GwE yn cael effaith ar safonau yn ysgolion Ynys Môn?
- Beth yw'r prif heriau i ysgolion Ynys Môn, y Gwasanaeth Dysgu a GwE?
- Yng nghyfnod ansicrwydd cyllidol, a yw GwE yn darparu gwerth am arian?
- Yn sgil y Fframwaith Atebolrwydd newydd, beth yw'r dulliau gorau o graffu ar addysg?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. Mae Awdurdod Lleol Ynys Môn yn gweithio mewn perthynas clos ac effeithiol â GwE. GwE yw consortiwm addysg rhanbarthol gogledd Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn o ran gwella ysgolion, rhannu arfer dda, gwybodaeth a sgiliau, cynyddu cryfderau lleol ac adeiladu capasiti.

2. Adroddodd Estyn, fel rhan o'i arolygiad o Wasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn 2022, bod y bartneriaeth yn gynhyrchiol a:

*'Fel partneriaid, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau i'r prosesau gwella ysgolion. Dros gyfnod estynedig, mae sefyllfa sefydlog o ran staff y rhanbarth sydd yn gweithio gyda'r awdurdod a'i ysgolion. Mae hyn yn cyfrannu at eu hadnabyddiaeth drylwyr o anghenion yr ysgolion. Mae ymdeimlad bod pob un yn cyfrannu i waith 'Tîm Môn' ac mae cydweithio bwriadus er mwyn sicrhau cefnogaeth werthfawr a her briodol i ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda'r rhanbarth i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwerthfawr i staff ysgolion ddatblygu eu medrau arwain. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n fuddiol mewn partneriaeth gyda GwE i gynnig gwasanaethau a hyfforddiant penodol i ymateb i anghenion ysgolion unigol a'u blaenoriaethau.'*

3. Er mwyn diweddaru aelodau'r Pwyllgor ar waith GwE, mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 ynghlwm ac yn cynnwys 6 atodiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys atodiadau ar:

- Raglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod y pandemig Covid-19
- Effaith y ffrydiau gwaith
- Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio - Tymor yr Hydref 2021
- Strategaeth Ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr
- Data Cynllun Busnes ar gyfer Ynys Môn
- Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

4. Yn yr adroddiad blynyddol, disgrifir:

- Sut mae GwE wedi cefnogi ysgolion Ynys Môn yn eu paratoadau tuag at y Daith Ddiwygio a Chwricwlwm i Gymru, ac wrth wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth?
- Sut mae'r gwasanaeth wedi'i ail-bwrpasu amryw o weithiau i fodloni gofynion diwygiedig rhanddeiliaid yn ystod ac ers y pandemig Covid-19?
- Y berthynas effeithiol a'r dull arwain rhanbarthol ar y cyd rhwng Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael.
- Datblygiad cydweithio rhwng ysgolion a dalgylchoedd Ynys Môn, yn cynnwys y rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefel ranbarthol a lleol.
- Y dulliau y mae Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE yn eu defnyddio i adnabod eu hysgolion yn dda iawn, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer.
- Y ddarpariaeth arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel sydd ar gael i ysgolion Ynys Môn, ac yn targedu cynhaliaeth i ysgolion yn ôl yr angen.
- Dulliau mae'r Awdurdod Lleol a GwE wedi'u gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu ac addysgu.
- Datblygiad yr iaith Gymraeg, yn cynnwys datblygu arferion a strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhwng ysgolion Ynys Môn, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill.
- Y ffocws digynsail ar ddiogelwch a lles plant a'r gweithlu ac ar gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol cyfnod y pandemig a thu hwnt.
- Blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2022-2023, yn cynnwys gweledigaeth gyffredinol GwE yn y Cynllun Busnes tair blynedd.

5. Yn ystod yr arolygiad diweddar, nododd Estyn ddau argymhelliad i'r Awdurdod Lleol eu gweithredu. Mae'r argymhellion hyn wedi'u trafod mewn cyfarfodydd craffu blaenorol ac mae cynllun wedi'i roi ar waith. Mae'r ddau argymhelliad hyn yn berthnasol iawn i'r adroddiadau a gyflwynwyd heddiw:

- Argymhelliad 1 - Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu
- Argymhelliad 2 - Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol

6. Mae gwaith y Gwasanaeth Dysgu (gan gynnwys gwaith GwE) yn cael ei graffu'n rheolaidd gan y Panel Craffu Addysg. Fodd bynnag, er mwyn cryfhau'r broses graffu, ac i ymateb i argymhellion Estyn, bydd gwaith y Gwasanaeth Dysgu a'i

bartneriaid yn cael ei graffu'n flynyddol yn gyhoeddus drwy'r Pwyllgor Partneriaid ac Adfywio.

7. Mae addysg yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol, gyda chwricwlwm newydd a'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ymysg newidiadau enfawr. Fel rhan o'r diwygiad hwn, mae'r broses atebolrwydd yn esblygu, yn cynnwys adrodd a chraffu ar addysg, gan gynnwys perfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion.

8. Ym Medi 2023, cyhoeddwyd canllaw newydd gan Lywodraeth Cymru, Canllawiau Gwella Ysgolion. Eleni mae'r canllaw yn cael ei weithredu ar sail anstatudol, a bydd yn statudol o fis Medi 2024. Bydd y canllaw yn cryfhau systemau atebolrwydd, gydag ysgolion yn cael eu dal yn uniongyrchol atebol am ansawdd darpariaeth a chynnydd dysgwyr gan eu cyrff llywodraethol ac Estyn. Yn ogystal â hyn, mae'r canllaw yn nodi'n glir bod pob partner yn rhan o'r broses, gydag atebolrwydd clir ar y gwasanaethau cefnogi megis y Gwasanaeth Dysgu a GwE. Bydd angen cydweithio agos rhwng Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE er mwyn darparu cymorth yn seiliedig ar flaenoriaethau gwella cynllun datblygu ysgol pob ysgol. Er bod elfen o weithio ar y cyd mewn rhai meysydd, bydd Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn yn cefnogi ysgolion gyda materion ymddygiad, lles emosiynol a meddyliol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, presenoldeb, adnoddau dynol, cyllid, datblygu'r Gymraeg, adeiladau, ac iechyd a diogelwch. Tra bydd GwE, ar ran y Gwasanaeth Dysgu, yn darparu cefnogaeth ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, cynllunio cwricwlwm a datblygu'r Gymraeg.

9. Fel rhan o'r gyfundrefn newydd, bydd angen i ysgolion gyhoeddi crynodeb o'u cynllun datblygu ysgol ar eu gwefannau yn nodi eu blaenoriaethau gwella lefel uchel, y camau arfaethedig i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, a'r cerrig milltir perthnasol. Bydd y crynodeb yn nodi'r cymorth sydd ar gael i'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol, GwE a phartneriaid allanol eraill er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau. Bydd disgwyliad i ysgol gyhoeddi adroddiad ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol, yn cynnwys effeithiolrwydd y gefnogaeth.

10. Oherwydd hyn, bydd craffu ar waith Gwasanaeth Dysgu'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys gwaith GwE, yn edrych yn wahanol iawn yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n gweithio gyda'r Panel Craffu Addysg a GwE i gynllunio sut y dylai hyn edrych, er mwyn cadw Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o safon ac effeithiolrwydd yr addysg y mae plant a phobl ifanc Ynys Môn yn ei derbyn.

11. Wrth i'r canllaw gwella newydd ddod i rym, bydd pwyllgorau mewn lle cryf i:

- Graffu ar waith y Cyngor i gefnogi ysgolion
- Craffu ar ba mor effeithiol yw'r cydweithio rhwng Awdurdod Lleol Ynys Môn a'r consortia
- Monitro a chraffu'r defnydd o bwerau statudol i gefnogi a gwella ysgolion sy'n achosi pryder
- Ystyried effaith penderfyniadau i foderneiddio ysgolion ar wella ysgolion.

| |
|---|
| 12. Yn sgil hyn oll, gofynnir i chi, fel y Pwyllgor Craffu, drafod a chyfrannu syniadau ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o graffu ar effeithiolrwydd gwaith y Gwasanaeth Dysgu, gan gynnwys GwE, yn wyneb y newid mewn diwylliant, ac wrth ymateb i'r canllawiau gwella ysgolion newydd. |
| |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| **Ddim yn berthnasol** |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| **Ddim yn berthnasol** |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ddim yn berthnasol |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Yng nghyfnod ansicrwydd cyllidol, gofynnir i chi ystyried a yw GwE yn darparu gwerth am arian? |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol GwE 2021/22<br>Atodiad 1 – Cefnogaeth GwE<br>Atodiad 2 – Effaith y gwaith<br>Atodiad 3 – Adroddiad cynnydd ar y daith ddiwygio<br>Atodiad 4 - Strategaeth Adnewyddu a Diwygio<br>Atodiad 5 – Data 2021/22 Ynys Môn<br>Atodiad 6 – Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Adroddiad Estyn ar Awdurdod Lleol Ynys Môn – Mehefin 2022<br><br>Llywodraeth Cymru - Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |

GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2021 - 2022



## CYNNWYS


1. Cefndir a chyd-destun
2. Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod y Pandemig: gwneud gwahaniaeth
3. Gwerthuso effaith ein gwaith
4. Cefnogi ysgolion gyda'u paratoadau at y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru
5. Cefnogi a gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth
6. Y Gymraeg
7. Llesiant
8. Ymgysylltu â Chymheiriaid
9. Materion busnes
10. Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023


## DOGFENNAU ATEGOL:

- **ATODIAD 1:** Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod Pandemig COVID
- **ATODIAD 2:** Effaith y ffrydiau gwaith
- **ATODIAD 3:** Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio - Tymor yr Hydref 2021
- **ATODIAD 4:** Strategaeth Ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr
- **ATODIAD 5:** Data Rhanbarthol Cynllun Busnes
- **ATODIAD 6:** Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Mae Adroddiad Blynyddol GwE am eleni yn amlinellu sut mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg, addasu, a chydweithio'n effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny ar draws sectorau yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad y sefydliad. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud un-rhyw benderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnog-aeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys trafod-aethau gweithredol ar agor ysgolion yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Yn yr adroddiad, disgrifir hefyd sut mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau tuag at y Daith Ddiwygio a Cwricwlwm i Gymru, ac wrth wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae adran 8 yn amlinellu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd GwE. Bydd y Bwrdd Rheoli yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethiant yn barhaus ac mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd a rhannwyd cyfres o adroddiadau â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn ysgolion, staff ac awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion rhanbarthol. Ym mhob adroddiad, disgrifir ansawdd y ddarpariaeth a nodir y meysydd i'w gwella er mwyn gyrru'r agenda dysgu yn ei blaen.

Noda'r adroddiad hefyd y blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2022-2023. Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blynyddol.

## 2. RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID: GWNEUD GWAHANIAETH

Amlinellir yn Atodiad 1 sut mae'r gwasanaeth cyfan wedi'i ail-bwrpasu amryw o weithiau i fodloni gofynion diwygiedig ein rhanddeiliaid yn ystod pandemig Covid. Dyma fu ein gwahanol rolau ers diwedd mis Mawrth 2020:

- Cefnogi llesiant a datblygiad arweinwyr
- Arwain o'r canol ac arweinyddiaeth ochrol
- Dysgu Proffesiynol ystyrlon
- Arweinyddiaeth Gydweithredol
- Modelu
- Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid

Bu pwyslais cryf ar fodelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt

rheolaidd iawn â Phenaethiaid i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Darparwyd rhagor o gefnogaeth ar gyfer llesiant uwch arweinwyr trwy gyfres o weithdai a gweminarau a oedd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cynhaliodd staff GwE ymweliadau bug-eiliol wyneb yn wyneb hefyd ar ran yr Awdurdodau Lleol ac hefyd wrth i ysgolion ail-agor yn Nhymor y Gwanwyn 2021 wedi'r ail gyfnod clo.

Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Gweithiodd GwE yn effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Bu'n gweithio'n gyson hefyd gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd hefyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe aw-durdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau ath-rawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu ffframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu-'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar y gwaith hefyd fu natur benodol a phwrpasol y cymorth i athrawon ac ysgolion. Rydym wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clys-tyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seil-iedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn eg-wyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.

Targedwyd cynhaliaeth glir i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminar-au, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arfer-ion rhyngwladol er mwyn dysgu am egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u sefydlu. Bu GwE yn darparu cymorth ymarferol i arweinwyr i'w galluogi i ystyried eu dull cynllunio ysgol gyfan o ddarparu dysgu o bell a dysgu cyfunol, mireinio a gwerthuso'u darpar-iaeth esblygol a chynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac/neu gartref yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael tros-olwg strategol gwell o'u darpariaeth.

Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau darpariaeth dysgu o

bell/dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydnabod y bu heriau gweithredol oedd yn newid o ddydd i ddydd, ble bu'n rhaid cynllunio ar gyfer llu o sefyllfaoedd gan gynnwys carfanau o ddysgwyr yn hunan ynysu neu unigolion/grwpiau bach o ddysgwyr a staff yn hunan ynysu. Ceir llawer o enghreifftiau o sut y llwyddodd ysgolion i reoli'r sefyllfaoedd dyrys hyn yn dda, gyda strategaethau ysgol gyfan pendant. Parhaodd GwE a'r Awdurdodau Lleol i gefnogi ysgolion, gan ddefnyddio clystyrau a rhwydweithiau o ysgolion i gefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau a strategaethau. Mae gan ysgolion yn rhanbarth GwE gasgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer pob grŵp oedran a gellir mynd at yr adnoddau hyn drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE: http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru

Mabwysiadodd GwE hefyd ddull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen oedd yn cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, gyda'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gym-orth acíwt.  Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Roedd y rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol.

## 3. GWERTHUSO EFFAITH EIN GWAITH

Mae'n bwysig bod ysgolion a'r holl bartneriaid yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Heb ddealltwriaeth o'r fath, mae'r system yn annhebygol o weithredu'n effeithlon nac yn effeithiol. Mae yna hefyd fwy o debygolrwydd o wrthdaro rhwng y gwahanol gyrff, gan dynnu egni a ffocws o'r nod sylfaenol o welliant parhaus er budd dysgwyr. Yn y pen draw, trwy weithio mewn partneriaethau, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, y bydd GwE, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid a staff ysgolion yn cael yr effaith fwyaf o ran gwella ysgolion yn barhaus.

Mae ymchwil y sefydliad sy'n dysgu yn dangos, er mwyn i wella ysgolion wneud gwahaniaeth, fod gan bawb o fewn y sefydliad ran i'w chwarae i sicrhau newid cadarnhaol mewn unigolion, sefydliadau a chynnydd dysgwyr. Ystyrir bod effaith i'w briodoli i ymyriad, darn o gefnogaeth, neu weithgaredd dysgu proffesiynol sy'n dylanwadu ar welliant ac yn gwneud gwahaniaeth pan fo'r amodau'n iawn. Gallai hyn gynnwys newidiadau yng ngwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad unigolion neu grwpiau. Gall y newidiadau hyn ddigwydd yn y tymor byr, canolig neu hir a dylent effeithio ar newid sefydliadol a chanlyniadau. Gellir diffinio effaith fel newidiadau sy'n digwydd i unigolion, i grwpiau diffiniedig e.e. arweinwyr, ymarferwyr a sefydliadau yn eu cyfanrwydd, yr effaith yn y pen draw fydd sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynnydd dysgwyr.

Mae GwE yn defnyddio amrywiaeth o fodelau ac arolygon i ystyried effaith, yn seiliedig ar ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol, e.e. model Kirkpatrick, ac ati, yn ogystal â gweithio ar y cyd â'n partneriaid strategol Addysg Bellach. Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) i sefydlu systemau mwy effeithiol i werthuso effaith ein gwaith.

Mae'r broses werthuso hon yn llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn galluogi GwE i ddatblygu a gwella'r cymorth presennol i ysgolion a chyflwyno rhaglenni dysgu proffesiynol ar draws y rhanbarth yn y dyfodol. Mae mesur effaith yn faes yr ydym yn ei gryfhau'n barhaus i wella ein prosesau gwerthuso a chynllunio

### GWNEUD GWAHANIAETH

Mae'r berthynas golegol effeithiol a'r dull arwain rhanbarthol ar y cyd rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE wedi sicrhau'r canlynol:

- Cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.

- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ysgolion ar lefel clwstwr/fforwm
- Dull gweithredol ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogaeth i les arweinwyr ysgolion trwy ddysgu proffesiynol, cyfathrebu clir a rheolaidd.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, h.y. ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.

Yng Ngogledd Cymru, ein diffiniad ni o effaith yw'r gwahaniaeth a wnawn i:
- Gyflawni ein gwerthoedd ac ymddygiad
- Datblygu diwylliant o gydweithio a rhannu
- Hyrwyddo system sy'n hunan wella
- Dylanwadu ar les a chyflawniad dysgwyr
- Datblygu gwytnwch a gwella lles Penaethiaid
- Grymuso ysgolion i gael mwy o berchnogaeth ar gyfeiriad eu taith
- Cynyddu dealltwriaeth ymarferol o ddylunio, cynllunio, asesu a chynnydd o ran y cwr-icwlwm
- Gwella dealltwriaeth ac ymwneud â'r 12 egwyddor addysgegol
- Datblygu mwy o allu i arloesi a chyflwyno arferion addysgu sy'n seiliedig ar dystiol-aeth
- Gwella sgiliau digidol o fewn y gweithlu i wella'r addysgeg

Amlinellir prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19 isod:
- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/fforwm wedi sic-rhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Dull gweithredu rhanbarthol a lleol clir ar waith ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgol-ion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.
- Mae ysgolion a lleoliadau wedi datblygu ar amryw o bwyntiau twf i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn gyffredinol, mae ganddynt:
    - broffesiwn addysgu sy'n fwy medrus ac yn gallu addasu;
    - mwy o ffocws a phwyslais ar les dysgwyr a staff;
    - gwell cymhwysedd digidol ymysg staff, disgyblion a rhieni;
    - dull dysgu ac addysgu mwy cyfunol;
    - partneriaethau gwell efo rhieni.

Dyma ddeilliannau eraill a'r effaith:
- Darparu cyfathrebu effeithiol drwy gyfrwng un pwynt cyswllt (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant) ar gyfer arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.
- Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes prinder staff.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen.  Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.
- Canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.

- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y rhanbarth.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theu-luoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.
- Defnydd mwy cadarn o TGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan ddigidol ar gyfer datblygiad proff-esiynol.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag AauLl a rhoi cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALl, sicrhau bod y broses o benodi ymgeiswyr am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALl yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir yn weithredol ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddiben-ion.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru i sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda CaBan i sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion.

Gellir gweld effaith ein ffrydiau gwaith yn Atodiad 2.

## 4. CEFNOGI YSGOLION GYDA'U PARATOADAU AT Y DAITH DDIWYGIO A'R CWRICWLWM I GYMRU

### Y DAITH DDIWYGIO

Mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau tuag at y Daith Ddiwygio a Cwr-icwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn bodloni amrywiol ang-henion ysgolion yn ystod y pandemig.

Mae Cymru wedi ymrwymo i agenda diwygio uchelgeisiol er mwyn gwireddu cwricwlwm sy'n gweddnewid. Mae'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru, sydd yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru (CiG) newydd, yn rhoi ffordd gadarnhaol i symud ymlaen wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau'r pandemig. Mae nifer o syniadau arweiniol wrth wraidd hyn:

- Dylai'r cwricwlwm a'r dysgu, yr addysgu a'r asesu sydd yn gysylltiedig lifo o'r pedwar diben clir a gytunwyd yn genedlaethol ac a ddilynir yn lleol.
- Dylai'r dibenion hynny alluogi ein plant ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn unigolion iach, hyderus.
- Dylai'r dysgu ddatblygu'n raddol tuag at y pedwar diben hynny yn ystod amser pobl ifanc mewn addysg yn yr ysgol.
- Dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o ryddid i gyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd sydd yn gallu bodloni

anghenion a nodweddion y bobl ifanc a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae rhai goblygiadau pwysig yn deillio o'r syniadau sylfaenol hyn:

- Dylai fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol sefydlu cysondeb yn genedlaethol o ran pwrpas a gweithredu, gan adael lle i wneud penderfyniadau yn lleol am agweddau allweddol ar ddysgu ac addysgu.
- Dylai'r cwricwlwm fod yn broses ble mae cydweithio rhwng athrawon, ysgolion a buddiannau ehangach.
- Ni ddylai atebolrwydd lesteirio ansawdd na chulhau cwmpas y dysgu. Ble bynnag bosibl, dylai wella ansawdd nid sicrhau ansawdd cul.
- Dylid barnu llwyddiant y rhaglen ddiwygio yn erbyn y graddau y mae'n arwain at ddysgu gwell a mwy perthnasol i bobl ifanc, ac i safonau cyflawniad uchel. Dylai an-sawdd y dysgu a natur safonau ymwneud â'r graddau y mae'r dibenion cytûn yn cael eu cyflawni yn ymarferol i'r holl bobl ifanc.

Yn naturiol, mae effaith y pandemig wedi dylanwadu ar sut y gall ysgolion a lleoliadau symud ymlaen â'r diwygio. Mae angen iddynt ail-sefydlu perthnasedd y pedwar diben arweiniol i bobl ifanc Cymru. Mewn amryw o ffyrdd, mae'r pandemig wedi golygu bod y pedwar diben hynny yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen wrth i ysgolion geisio meithrin hyder eu pobl ifanc ac ail danio eu hawydd i ddysgu. Bu'n rhaid i ysgolion feddwl yn ddwys am yr hyn sydd yn bwysig o ran dysgu mewn cyfnodau o darfu ar addysg, ac mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn ymdopi'n dda â'r prawf hwnnw. Gyda'r pandemig, bu'n rhaid newid natur y dysgu a'r addysgu, yn enwedig felly y ffyrdd y gall technoleg ddigidol gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu'n fwy annibynnol.

Mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill, Estyn a Llywodraeth Cymru i osod y disgwyliadau sydd ar ysgolion a lleoliadau o safbwynt diwygio wrth i ni symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn Cwricwlwm i Gymru: Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm. Yn y ddogfen hon, cydnabyddir hefyd yr her y mae Covid-19 yn parhau i'w rhoi i bob ysgol o fewn y strategaeth adnewyddu a diwygio.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi cyflwyno profiadau dysgu ac addysgu ystyrlon trwy ddull dysgu cyfunol creadigol.  Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol.

Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda adfywio a diwygio.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r adroddiad yn Atodiad 3 - 'Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio' yn amlinellu ble roedd ysgolion ac UCD arni yn ystod Tymor yr Hydref 2021 wrth iddynt roi sylw i'r agenda adnewyddu a diwygio ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio.  Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

Atodir ein 'Strategaeth Ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr' (Atodiad 4) sy'n gosod cyfeiriad strategol ein gwaith am y cyfnod nesaf. Trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob disgybl yng Ngogledd

Cymru yn elwa ar ddarpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n Hunedau Cyfeirio Disgyblion.

## Y CWRICWLWM I GYMRU (CiG) NEWYDD

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Mae GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen efo'u cynlluniau presennol i weithredu'r cwricwlwm newydd efo Blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn parhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Y tu hwnt i 2023, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru fesul blwyddyn a dyfernir y cymwysterau cyntaf sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn academaidd 2026-27, fel y bwriadwyd. Bydd diwygio cymwysterau yn chwarae rhan greiddiol yn llwyddiant y cwricwlwm a bydd GwE yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru dros y flwyddyn nesaf i helpu i siapio set o gymwysterau o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd ag athroniaeth y cwricwlwm newydd.

Yn rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol sydd yn cyfuno pob agwedd ar y diwygio ehangach, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bwriad y cynnig hwn ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, a chanolbwyntir yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd
- Datblygu gweledigaeth a rennir
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg
- Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol

Bwriadwyd i'r cynnig dysgu proffesiynol hwn ddechrau yn nhymor y Gwanwyn 2020, ond rhoddwyd saib arno oherwydd blaenoriaethau Covid-19 yn naturiol. Wrth drafod â Phenaeth-iaid ar draws GwE, ail-gydiwyd yn y dysgu proffesiynol yn rhithiol ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn ar Arwain Newid. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn rhai clwstwr ac yn gall-uogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y Cwricwlwm i Gym-ru ar draws y continwwm 3 i 16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o uwch arweinwyr yn y ses-iynau Arwain Newid hyn. Er mwyn cydnabod y ffaith bod ysgolion yn ail agor i bob dysgwr ym mis Mawrth a mis Ebrill, rhoddwyd saib ar y sesiynau Dysgu Proffesiynol unwaith eto ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn trafodaethau efo'r Cyfarwyddwyr Addysg drwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyf-res o weithdai ymgynghori ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar farn Penaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r ffordd orau i ail-gydio. Bu dros 300 o Benaeth-iaid yn rhan o'r ymgynghori.

Yn ôl y sylwadau:

- Mae penaethiaid cynradd ac uwchradd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gydweith-io ar draws y sectorau i

gefnogi'r continwwm 3 i 16;
- Mae'r holl arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal momentwm y dysgu proffes-iynol ond maent yn cydnabod her yr amseriad oherwydd y pwysau a'r heriau ar hyn o bryd;
- Arweinwyr yn awyddus i weithio gyda GwE er mwyn cael cyfraniad arbenigwyr all-anol lle bo'n briodol;
- Arweinwyr yn cydnabod bod hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â'r cynnig dysgu proffes-iynol yn allweddol er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol.

Er mwyn cefnogi'r ail-gydio â'r gwaith Cwricwlwm i Gymru, trefnwyd sesiwn cynllunio arweinyddiaeth arall ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i feithrin cynhwysedd clystyrau i gydweithio ar draws gofynion y daith ddiwygio yn ei chyfanrwydd a ffurfio cynllun gweithredu cytûn i bob clwstwr. Yn rhan o hyn, hwylusodd bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant sesiynau ble cafodd ysgolion mewn clwstwr gyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Bu mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a sensitif o ran amseriad y sesiynau hyn yn agwedd allweddol ar y trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Adnabuwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Defnyddio technoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau datblygu a gwefannau i sicrhau bod y ddeialog yn parhau a bod Uwch Arweinwyr yn gallu parhau â'r gwaith hwn, yn sgil trafodaethau yn ôl ar lefel ysgol unigol.

Mae cymorth pellach ar gael i ysgolion gan gynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' sydd wedi'u hysgrifennu gan dîm GwE, yn rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol efo'r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor.

Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cymorth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru . Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi, dylai pob ysgol fod wedi:
- cwblhau dylunio cwricwlwm lefel uchel i fodloni gofynion statudol
- datblygu dealltwriaeth a rennir o'r hyn sydd yn bwysig o ran cynnydd mewn sgiliau a gwybodaeth
- datblygu dealltwriaeth gyffredin ysgol gyfan o gynnydd ac asesu
- cael enghreifftiau o gynllunio er mwyn treialu, gan gynnwys asesu dysgwyr
- adnabod cyfleoedd cynyddol ar gyfer deialog proffesiynol ar draws y continwwm 3-16

Er mwyn galluogi ysgolion i gyrraedd disgwyliadau, bydd cynnig GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf yn cynnwys cefnogi pob ysgol i ddatblygu:
- dylunio cwricwlwm ysgol gyfan a datganiad cwricwlwm lefel uchel
- cynllunio MDaPh effeithiol
- polisi ac arferion asesu ysgol gyfan

Fel gwaith paratoi ar gyfer y cynnig dysgu proffesiynol, mae staff GwE wedi datblygu arweiniad a modelau enghreifftiol ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgol gyfan, cynllunio cwricwlwm ac asesu er mwyn helpu arweinwyr ac athrawon wrth iddynt baratoi at weithredu'r cwricwlwm.  Mae'r adnoddau, y modelau a'r deunyddiau enghreifftiol wedi'u cymeradwyo yn llawn gan yr Athro Graham Donaldson.

Bydd y Rhwydweithiau Cwricwlwm Rhanbarthol a Lleol yn defnyddio'r canllawiau a'r adnoddau wrth iddynt barhau i hyrwyddo ac annog gweithio mewn partneriaeth ar draws y gyfundrefn. Bydd hyn yn fodd i ysgolion gael mynediad at lyfrgell gyfoethog o adnoddau a chymorth wrth iddynt fynd ati i ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm lleol ac unigryw eu hunain.
Bydd mewnbwn parhaus gan staff GwE yn sail i waith y rhwydweithiau, gan sicrhau, felly, bod hyn yn fenter

wirioneddol gydweithredol.

Cynhaliwyd y gyfres gychwynnol o weithdai yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, i gefnogi ysgolion drwy'r broses o ddylunio'r cwricwlwm. Ffocws y gweithdai oedd creu datganiad cwricwlwm lefel uchel, gyda'r sail resymegol yn seiliedig ar gyd-destun lleol.

Mae'r gweithdai yn tywys arweinwyr ysgolion trwy wahanol fodelau dylunio ac yn darparu enghreifftiau amrywiol o ddatganiadau cwricwlwm. Bydd y rhwydweithiau dylunio cwricwlwm rhanbarthol a lleol yn datblygu'r modelau hyn ymhellach, gan ddarparu amrywiaeth eang o enghreifftiau i ysgolion eu hystyried wrth iddynt fynd ati i ddylunio cwricwlwm a llunio datganiadau. Unwaith bydd sail resymegol a datganiad ysgol mewn lle, bydd ysgol yn gallu dechrau ar y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd.

Pan fydd y gweithdai dylunio cwricwlwm wedi'u cynnal, gall ymarferwyr ar draws y rhanbarth gael mynediad at ddysgu proffesiynol ar gynllunio Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn effeithiol. Bydd y sesiynau hyn yn paratoi arweinwyr ac athrawon at addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf ym mis Medi. Bydd y cynnig yn parhau trwy gydol 2022/23, gan ddatblygu ar y dysgu a ddaw i'r amlwg wrth gyflwyno am y tro cyntaf.
Bydd y gweithdai yn rhoi trosolwg o egwyddorion cynllunio cyn gweithio trwy fodelau cynllunio amrywiol. Bydd y gweithdai yn edrych ar:

- Ddatganiadau seiliedig ar ymholi neu gwestiynau fel sail i'r cynllunio
- Ystyriaethau cynllunio i'r athro
- Syniadau am weithgareddau
- Camau cynnydd ac ystyriaethau asesu
- Modelau cynllunio gwahanol, hynny yw, modelau disgyblaethol, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol, integredig

Lluniwyd enghreifftiau amrywiol o fodelau cynllunio ar gyfer pob sector a phob un o'r chwe MDaPh. Bydd y modelau hyn yn cael eu rhannu ag ysgolion a'u defnyddio gan y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fel sail i sicrhau bod modelau ychwanegol yn cael eu creu. Bydd hyn yn creu rhagor o gapasiti yn y system.

Y trydydd maes cymorth a ddarperir dros y ddau dymor nesaf yw polisi ac arferion asesu ysgol gyfan. Mae cynnydd dysgwyr yn agwedd allweddol sydd yn gyffredin i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm newydd. Cynhelir cyfres o weithdai i roi trosolwg i ysgolion o'r canllawiau cenedlaethol ac edrych ar egwyddorion asesu a chynnydd dysgwyr. Yn rhan o'r sesiynau hyn, caiff ysgolion fynediad at fodelau ac enghreifftiau o asesu, gan gynnwys system olrhain cynnydd wedi'i dylunio a'i chreu gan staff GwE. Unwaith eto, bydd y Rhwydwaith Asesu Rhanbarthol a Lleol yn datblygu'r gwaith hwn ac yn cynnig llawer o bwyntiau cyfeirio i ysgolion eu harchwilio wrth ystyried polisïau ac arferion asesu.

Darperir matrics o gymorth GwE i bob ysgol, yn manylu ynghylch y cynnig dysgu proffesiynol sydd ar gael i'w cefnogi i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei wireddu yn eu hysgolion. Gall ysgolion ddewis pa feysydd cymorth sydd yn briodol iddynt, a chael mynediad i amrywiaeth eang o adnoddau, modelau ac enghreifftiau.

## RHWYDWEITHIAU CWRICWLWM I GYMRU

Mae GwE yn parhau i hwyluso rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefel ranbarthol a lleol. Gweithia'r Rhwydweithiau mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDaPh effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Ddiwygio.

Ym mis Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Cymru rhanbarthol i gyfrannu at raglen gymorth barhaus GwE i ysgolion yn y meysydd a ganlyn:

- Dylunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan
- Cynnydd ac Asesu
- Datgloi potensial un o'r MDaPh

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Y Celfyddydau Mynegiannol

Yn ystod tymor yr Haf 2021, mynegodd 300 o athrawon ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydweithiau. Ym mis Medi a mis Hydref 2021, gofynnodd lawer mwy o ysgolion am gael bod yn rhan o'r rhwydweithiau lleol. Bellach, mae mwy na 700 o ymarferwyr o leoliadau ysg-ol ar draws y rhanbarth wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r gwaith hwn.

Trwy'r rhwydweithiau, caiff ymarferwyr:

- gyfleoedd i rwydweithio gyda chyd-weithwyr ysgolion yn lleol ac yn rhanbarthol
- dyfnhau dealltwriaeth o broses dylunio'r cwricwlwm
- cyfleoedd i gyd-lunio a rhannu enghreifftiau o gynllunio'r cwricwlwm yn lleol
- datblygu a rhannu enghreifftiau o asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru

Mae'r holl ddeunyddiau a recordiadau o'r cyfarfodydd rhanbarthol ar gael i bob ysgol ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, ynghyd ag adnoddau ac enghreifftiau o'r gwaith dylunio a chynllunio. Ar ben hyn, bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt ar gael i gynnig cymorth unigryw ar lefel ysgol a chlwstwr/cynghrair.

## 5. CEFNOGI A GWELLA ANSAWDD YR ADDYSGU A'R ARWEINYDDIAETH

Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn adnabod eu hysgolion yn dda iawn, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strateg-aethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella ysgolion ac a ddeallir gan yr holl randdeiliaid. Mae gweithdrefnau grymus ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol i osod cyfeir-iad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol i gyfrif. Mae rôl benodol y gwasanaeth mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid.

Mae GwE yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio data a gwybodaeth ansoddol yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sic-rhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol.

### ARWEINYDDIAETH

Mae GwE yn darparu arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ac yn targedu cynhaliaeth i ysgolion yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae trefniadau cadarn ar waith ble mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi'r naill a'r llall mewn clys-tyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb cyn-yddol am daith welliant ei gilydd.

Yn ystod 2021, wrth ymateb i'r peilot cenedlaethol i gefnogi ysgolion sydd yn achosi pryder drwy'r model amlasiantaethol, adolygwyd y gweithdrefnau a'r strwythurau ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion. Y bwriad oedd sicrhau y gallai pob ysgol gael cymorth safonol yn amserol er mwyn symud ar hyd y llwybr 'dymunol' ar y cyflymdra gofynnol. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol yn cynnwys swyddogion o bob awdurdod, ynghyd ag ym-gynghorwyr GwE, i yrru'r gwaith.

Ar gyfer yr ysgolion hynny'n sy'n perfformio'n gyson gryf neu'n gryf yn gyffredinol, rhoddir sylw i welliannau drwy gydweithio â cymheiriaid, drwy Raglen Dysgu Proffesiynol generig yr ALl/GwE, camau gweithredu a rhaglenni dysgu proffesiynol a nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol a thrwy gyfrwng Cynlluniau Cefnogaeth unigryw GwE. Dyma sut y gweithredwyd gyd-a'r ysgolion uwchradd yn 2021-22. Er hynny, pan amlygir pryder gan weithdrefnau'r Awdur-dod/

GwE, targedir cynhaliaeth ddwysach drwy'r dull amlasiantaethol.

O fewn y strwythur diwygiedig, bydd grŵp amlasiantaethol o uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybod-aeth a thystiolaeth fel bod pryderon yn cael eu hadnabod yn fuan. Mabwysiadwyd trothwyon a sbardunau i sicrhau cysondeb wrth adnabod pryderon mewn perthynas â safonau, dysgu ac addysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiant neu faterion rheolaethol. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth gytûn a chysondeb gweithredu, trefnwyd hyfforddiant i bob swyddog ac ym-gynghorydd. Unwaith y gwelir bod ysgol yn achosi pryder, bydd y swyddog arweiniol, yr Ar-weinydd Craidd a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt yn gweithio gyda thîm arwein-yddiaeth yr ysgol i ddatblygu cynllun cefnogaeth holistaidd 360. Mae'r grŵp amlasiantaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun holistaidd a'r gwaith monitro yn digwydd yn effeithiol. Mae trefniadau ar waith i adolygu cynlluniau yn rheolaidd, a'u haddasu ble mae hynny'n briodol. Ble bydd pryderon yn codi am ddiffyg cynnydd neu gyflymdra cynnydd, gweithredir i uwch gyfeirio'r rhain i sylw'r Pennaeth Addysg drwy gyfarfodydd y Bwrdd Safonau Ansawdd fel y gwneir penderfyniad priodol i weithredu pwerau statudol neu beidio.

Wrth i wybodaeth lifo'n rheolaidd rhwng swyddogion ac ymgynghorwyr GwE, sicrhawyd gweithredu effeithiol o fewn y strwythurau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng adrannau ac asiantaethau perthnasol er mwyn ystyried unrhyw ysgolion eraill sy'n agos at y trothwy ac ystyried ymyrryd yn gynnar.

Mae gan GwE a'r Awdurdodau Lleol weithdrefn effeithiol i gefnogi ysgolion gyda'u gwaith hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Caiff ysgolion eu herio'n gadarn ar ansawdd eu prosesau hunan arfarnu, a thrwy eu hymweliadau bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cefnogi ysgolion yn effeithiol i gryfhau eu prosesau arfarnu, fel craffu ar waith, arsylwi gwersi a theithiau dysgu yn effeithiol. Mae bron pob ysgol wedi llwyddo i barhau i werthuso ansawdd eu darpariaeth drwy gydol y cyfnod Covid-19 gan ddefnyddio amrywiaeth o ffyn-onellau gwybodaeth a thystiolaeth, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion eraill a swyddog cyswllt GwE.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu barn rhanddeiliaid yn effeithiol drwy holiaduron i ddisgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgyrsiau ag unigolion. Ar sail y canfyddiadau hyn, mae'r rhan fwyaf wedi addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol.

Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE i gefnogi datblygiad arweinwyr ar draws y 'Llwybr Arweinyddiaeth'. Caiff gwybodaeth am eu cynnydd eu rhan-nu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Drwy'r cydweithio a'r cyfathrebu hwn, sicrheir y gall yr Awdurdodau Lleol adnabod anghenion datblygu a thargedu rhagor o gynhaliaeth os oes angen.

Addaswyd yr holl raglenni arweinyddiaeth i'w cyflwyno'n rhithiol. Mae athrawon wedi dangos ymrwymiad teilwng iawn i ddatblygu eu harferion a'u sgiliau arwain yn ystod y cyfnod Covid-19.

Mae cydweithio effeithiol i gefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro. Mae'r rhag-len yn cynnwys arlwy gyfoethog o hyfforddiant rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ysgol er mwyn paratoi penaethiaid i allu gwneud eu gwaith yn llwyddiannus fel penaethiaid, gan gyn-nwys sesiynau briffio ar reoli cyllid, diogelu, diogelwch safle ymysg elfennau rheolaethol eraill (gwahoddir penaethiaid ac arweinwyr profiadol hefyd). Mae gan bob pennaeth newydd fentor sydd yn bennaeth profiadol a llwyddiannus i ddarparu cymorth cadarn ar faterion rheolaethol lleol mewn perthynas â'u gwaith fel penaethiaid. Golyga hyn fod penaethiaid newydd yn cael cymorth amserol a phrydlon ac amryw o ffynonellau cymorth, fel y bo angen, yn ogystal â chyfleoedd da i ddatblygu eu gwybodaeth a dyfnhau eu sgiliau yn y rôl.

Darperir arlwy gyfoethog o ddatblygiad proffesiynol i gymorthyddion dysgu drwy'r rhaglenni cenedlaethol, h.y. y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu. Mae'r LlDCD yn cynnwys rhag-len 'Sefydlu', 'Cymorthyddion wrth eu gwaith', a'r 'Darpar CALU', sy'n arwain at asesiad statws CALU. Yn yr un modd â'r rhaglen Arweinyddiaeth i athrawon, mae'r rhaglenni hyn yn annog unigolion i fod yn ymarferwyr myfyriol sy'n gwerthuso eu harferion yn erbyn y 'Safon-au Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu.'

Addaswyd yr holl raglenni CALU i'w cyflwyno'n rhithiol, newid a groesawyd yn fawr gan gymorthyddion dysgu. Rhoddwyd y rhaglen 'Sefydlu' ar ffurf rhestr chwarae
Addaswyd y rhaglen 'Cymorthyddion wrth eu gwaith' yn ystod 2021-22 i'w gyflwyno'n rhithiol.

Lluniwyd rhaglen Darpar CALU genedlaethol yn 2020 sydd bellach ar ei bedwerydd cylch. Wedi gwblhau'r rhaglen Darparu CALU newydd, a bodloni gofynion cymwysterau llythren-nedd a rhifedd, gall cymorthyddion dysgu wneud cais am asesiad statws CALU.

Wrth i'r Awdurdodau Lleol a GwE gydweithio, gwelwyd cymorth cynhwysol iawn yn cael ei ddarparu i arweinwyr ysgolion er mwyn sicrhau bod eu lleoliadau yn ddiogel i ddychwelyd iddynt wedi'r cyfnod clo cyntaf. Mabwysiadwyd dull gweithredu rhanbarthol ar draws y rhan-barth i greu adnodd pwrpasol ar ffurf dangosfwrdd hylaw iawn. Mae'r dangosfwrdd hwn yn rhoi canllawiau cadarn iawn i arweinwyr ar adnabod peryglon posibl wrth gynllunio ar gyfer plant, staff a rhanddeiliaid eraill wrth ddychwelyd i'r ysgol. Ar ben hyn, rhydd yr adnodd hwn ganllawiau trylwyr iawn i ysgolion ar sut i leihau'r peryglon a nodir - drwy gasglu'r holl ddog-fennau canllaw perthnasol mewn un lle o dan penawdau fel Diogelwch, Safle a Chyfleuster-au, Staffio, ymysg penawdau eraill.

Mae cydweithio effeithiol ar lefel clwstwr yn y cynradd ac yn y gynghrair uwchradd yn gryf-der yn y rhanbarth. Mae'r holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy'n Ymgynghorwyr Cyswllt yn yr ysgolion cynradd yn brofiadol ac wedi bod yn cefnogi clystyrau penodol am gyfnod estynedig. Golyga hyn fod gan y gwasanaeth rhanbarthol a'r awdurdodau lleol bellach adna-byddiaeth drylwyr o gryfderau ac anghenion ysgolion penodol a chlystyrau/grwpiau o ysgol-ion. Ceir nifer o enghreifftiau ar draws y dalgylch sy'n dangos bod systemau a phrosesau ar gyfer cydweithio yn aeddfedu ymysg ysgolion er mwyn rhannu arbenigedd ymysg ysgolion a lleihau llwyth gwaith wrth ymateb i'r Daith Ddiwygio. Ar y gorau, mae'r cydweithio yn gweld arweinwyr o bob haen yn cyfarfod yn gyson i drafod a rhannu arferion da, yn cydweithio mewn ffordd strwythuredig gan lwyddo i ddatblygu amrywiaeth eang o feysydd fel Cwric-wlwm i Gymru, addysgeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, digidol a phontio cynradd-uwchradd. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at wella profiadau a deilliannau dysgwyr.

Mae'r Penaethiaid a'r staff a fu'n rhan o'r rhaglen i gyd yn gytûn y bu'r broses hon yn sylfaen gref iddynt allu cydweithio a rhannu adnoddau dros y cyfnodau clo. Nodwyd hefyd ei bod yn sylfaen gref i ddatblygu darpar arweinwyr ymysg yr hwyluswyr gwelliant.

## ADDYSGU

Mae ansawdd yr addysgu'n gyffredinol gadarn ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwr-pasol yn digwydd i wella a chysoni ble gwelir amryfuseddau. Mae GwE wedi gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod Covid-19 a chyn hynny. Ers cychwyn y cyfnod clo, bu'r rhanbarth yn weithredol yn ei chefnogaeth i ysgolion. Darparwyd a rhannwyd ystod eang o ddeunyddiau a modelau saf-onol dysgu o bell a chyfunol drwy lwyfannau digidol megis 'Google Classroom' a Chanolfan Cefnogaeth GwE. Canolfan Cefnogaeth GwE. Mae'r gwaith wedi tynnu ar ganfyddiadau ymchwil i arferion rhyngwladol effeithiol yn y maes.

Mae'r cydweithio mewn clystyrau a chynghreiriau i gyd-ddatblygu a rhannu adnoddau ac ar-ferion llwyddiannus yn y maes hwn wedi bod yn gryfder ac yn tystio i'r berthynas waith gadarn sydd ar waith rhwng rhanddeiliaid. Mae penaethiaid wedi gwerthfawrogi cyfraniadau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt a swyddogion yr Awdurdod o ran darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaethau. Bu hwyl-uso cyfarfodydd clwstwr a chynghreiriol yn allweddol i rannu syniadau ac arferion da ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Darparwyd hefyd ystod o ganllawiau ac adnoddau o safon uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, a gweithiwyd hefyd â Mike Gershon i hwyluso mynediad rhieni i ddeu-nyddiau safonol fel eu bod hwythau'n gallu cefnogi eu plant. Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i ddeunyddiau 'Helpu Eich Plentyn i Ddysgu', 'Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu' ac i'r adnodd 'Adolygu Hefo Mike'. Mae'r ystod o strategaethau adolygu hefyd

wedi dylanwadu ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr CA4 a 5 ar gyfer arholiadau eleni.

Dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol iawn o ganllawiau ac arweiniad ar ddarparu addysg o bell ac addysg gyfunol gan gynnwys cynllunio arferion adalw a dysgu llwyddiannus wrth i'r dysgwyr ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Bu ffocws priodol hefyd ar draws ysgolion yr Awdurdod hefyd i adnabod gwaelodlin wedi i'r dysgwyr ddychwelyd ac i weithredu cynlluniau pwrpasol mewn ymateb i unrhyw fylchau yn y dysgu.

Dros y cyfnod, mae GwE wedi cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu gyfunol a dysgu o bell, ac wedi rhannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpar-iaethau effeithiol i leihau amrywiaethau. Mae trafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr ac ath-rawon dros y cyfnod, prosesau craffu ar waith dysgwyr (boed hynny ar y safle neu'n rhithiol) ac mewn rhai enghreifftiau, ymuno mewn teithiau dysgu, oll wedi arwain at gyflwyno profiad-au gwerthfawr a phwrpasol i'r ystod gallu a hynny dan amgylchiadau anodd a heriol iawn. Mae tystiolaeth glir hefyd bod nifer uwch o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio'r dechnol-eg yn fwy hyderus i gefnogi'r dysgu. Mae hwn yn un o'r mannau twf allweddol.

Cafodd y Rhaglen Dysgu Carlam effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol a lles wedi i blant ddychwelyd i addysg ffurfiol yn dilyn y cyfnod clo. Roedd pob ysgol wedi sicrhau eu bod yn cynnal gweithgarwch asesu mewnol er mwyn adnabod effaith y cyfnod clo ar les a dysgu'r plant, boed hynny'n asesiad meintiol neu'n ansoddol. Er mai lleiafrif bychan o rieni a theu-luoedd na fuodd yn ymgymryd â thasgau a gweithgareddau yn ystod y cyfnod clo, cyfran-nodd hyn at sefyllfa ble roedd disgyblion angen cefnogaeth carlam ar ôl dychwelyd i'r dos-barth. Ym marn athrawon, cafodd y cyfnod clo effaith ar hyder a lles y mwyafrif o ddisgyb-lion, gydag ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn dirywio. Gyrrwyd y gwaith carlam yn llwydd-iannus gan arweinwyr ysgolion yn dilyn adnabod safonau gwaelodlin.

Mae pob ysgol wedi gwneud defnydd pwrpasol o'r amryfal grantiau a'r rhan fwyaf wedi cyf-logi neu ymestyn oriau athrawon neu gymorthyddion er mwyn targedu grwpiau ac unigolion ym meysydd llythrennedd, rhifedd a lles. Darparwyd arweiniad a chanllawiau gan GwE, gyda nifer dda o ysgolion yn manteisio ar hyfforddiant penodol megis sesiynau lles 'Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma' (TIS), hyfforddiant SAFMEDS, Headsprout, Elklan.

Mae ysgolion yn gyffredinol wedi ymateb yn gadarn dda i'r her ac yn gallu tystio bod cyn-nydd a gwelliannau amlwg yn safonau sgiliau sylfaenol llawer o'r disgyblion oedd wedi eu tar-gedu drwy'r cynlluniau carlam hyn.

Mae'r ysgolion yn parhau i ddarparu strategaethau ymyrraeth effeithiol i ddisgyblion, e.e. drwy sesiynau dysgu manwl dyddiol, sesiynau SAFMEDS i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Syl-faen, gweithgareddau TIS penodol, cynnal grwpiau Maethu, Talkabout, neu Mind Mechanics. Mae pob ysgol yn cydnabod bod y gwaith targedu manwl hwn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a hyder disgyblion ac mae nifer dda yn nodi iddynt weld disgyblion bregus yn llwyddo i ymdopi'n well gyda heriau dosbarth prif lif a heriau cymdeithasol amrywiol.

Mae arweiniad dwys wedi'i gyflwyno i gefnogi ysgolion gyda'u paratoadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Yn ganolog i'r gwaith hwn mae'r ffocws ar addysgeg a'r 12 egwyddor. Ers mis Medi 2021, mae'r gwasanaeth a chynrychiolwyr o'r ysgolion wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r Athro Graham Donaldson i fynd trwy'r broses o ddyfnhau dealltwriaeth yng-lŷn â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, hyrwyddwyd cydweithio llwyddiannus sy'n golygu bod ysgolion wedi gallu cyd-gynllunio enghreifftiau a modelau i'w rhannu ar draws y rhanbarth.

Mae prosiect rhanbarthol ymchwil gweithredol asesu ffurfiannol GwE a Shirley Clarke wedi bod yn un o gonglfeini'r rhaglen dysgu proffesiynol ers Tachwedd 2017 gydag ysgolion yn ymgysylltu â'r prosiect mewn 3 haen, dros gyfnod o 4 blynedd (Haen 3 wedi bod dros ddwy flynedd oherwydd cymhlethdodau Covid-19). Mae arfarniad o effaith uniongyrchol y prosiect ar ysgolion y rhanbarth yn nodi:

- effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu mewn dosbarthiadau ac ar safonau cyrh-aeddiad lles disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'u datblygiad fel dysgwyr annibyn-nol.
- athrawon wedi dyfnhau dealltwriaeth o addysgeg effeithiol a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol eang a chyfredol. Maent hefyd wedi datblygu'n arweinwyr add-ysgu yn eu hysgolion a thu hwnt.
- athrawon wedi ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol yn eu hysgolion, ac wedi cydweithio'n broffesiynol ac arloesi'n hyderus. O ganlyniad, mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu.
- ffocws cryfach ar addysgeg effeithiol mewn cydweithio clwstwr ar yr ynys.
- cyfraniadau amlwg at wella parodrwydd a pharatoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd e.e. ffocws cynyddol i'r pedwar diben, y 12 egwyddor addysg-egol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac ath-rawon, dibenion asesu ac egwyddorion cynllunio.
- ysgolion wedi gwneud defnydd da ac effeithiol o egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- rhieni wedi dod i ddeall mwy am asesu ffurfiannol wrth gefnogi eu plant gartref, e.e., pwerau dysgu, deilliannau dysgu, meini prawf llwyddiant ac adborth llafar.

Mae ffocws cyson wedi bod hefyd ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd y ddarpariaeth wa-haniaethol ar draws yr ystod gallu. Mae sefydlu Rhwydwaith Cydlynwyr MATh uwchradd yn un enghraifft benodol o'r gwaith hwn. Mae arweiniad a chefnogaeth benodol wedi bod i feith-rin gwell dealltwriaeth a hyder ymysg cydlynwyr i arwain ar y maes yn draws-ysgol ac i ddat-blygu eu prosesau a'u systemau o ran adnabod, tracio a chefnogi'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr Cyflwynwyd mewnbwn hefyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau cenedlaethol traws-gonsortia yn y maes. Fel grŵp, maent yn cydweithio i sicrhau dealltwr-iaeth gyffredin a sut i sicrhau lefel her briodol yn y cynllunio a sut i hyrwyddo strategaethau adalw ac adolygu. Mae'r adborth o'r ysgolion dan sylw wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i arfarnu'r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar safonau cyflawniad.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cydweithio'n effeithiol gydag arbenigwr allanol i ddarparu dat-blygiad proffesiynol o'r radd flaenaf i ddatblygu arddulliau effeithiol o wahaniaethu ac ar ddefnyddio trafodaeth yn effeithiol yn y dosbarth. Mae hyn wedi arfogi staff i wneud defnydd grymus o arddulliau amrywiol megis tacsonomi, cwestiynu effeithiol, modelu a sgaffaldio i gynllunio gwahaniaethu effeithiol i ymateb i anghenion cyffredinol (universal) yr amrediad o ddysgwyr yn y dosbarth. Mae'r rhaglen hon wedi ei darparu ar dair haen - sesiynau penodol ar gyfer cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol fel bod modd iddynt gefnogi athrawon yn eu hysgolion yn llwyddiannus; sesiynau ar gyfer cymorthyddion i'w grymuso wrth iddynt ym-drin â dysgwyr a'u cefnogi yn y dosbarth ynghyd â sesiynau i athrawon dosbarth i ddatblygu darpariaeth wahaniaethol gyfoethog ac i wella'r defnydd o drafodaeth i gefnogi hynny.

Mae ystod o rwydweithiau a fforymau yn weithredol hefyd i gefnogi arweinwyr ar bob lefel i fod yn arwain yn fwy hyderus ac effeithiol ar addysgeg. Yn yr uwchradd, er enghraifft, sefyd-lwyd Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu ar gyfer uwch arweinwyr. Mae tystiolaeth bod y cyd-weithio yn y rhwydwaith wedi bod yn gryfder neilltuol ac wedi bod yn allweddol i sicrhau cys-ondeb gweithredu ym maes dysgu ac addysgu yn y pum ysgol uwchradd. Er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu dros y cyfnod clo, rhoddwyd ffocws penodol ar gefnogi'r arweinwyr i ym-ateb i effaith y pandemig ar ddysgu ac addysgu. Gweithiodd y rhwydwaith oddi fewn i bara-medrau ac egwyddorion cyffredin gyda'r nod o sicrhau bod profiadau pob plentyn y gorau y gallant fod. Fel rhan o'r gefnogaeth gan GwE i'r rhwydwaith, rhoddwyd arweiniad ar Ddysgu o Bell a Dysgu Cyfunol a rhannwyd adnoddau er mwyn cefnogi'r ysgolion gyda'r gwaith.

Drwy gyfrwng y rhwydwaith, ymatebwyd i anghenion dysgu proffesiynol er mwyn gwireddu'r egwyddorion a sicrhawyd bod hyfforddiant digidol yn weithredol. Yn ogystal â hyn, datblyg-wyd adnoddau a rhannwyd arferion llwyddiannus. Gwelwyd effaith yr hyfforddiant a'r cyd-weithio hwn ar hyder yr athrawon i addasu eu dulliau addysgu i weddu i wahanol sefyll-faoedd, yn y profiadau eang oedd ar waith ac yn ansawdd a diwyg yr adnoddau a ddarpar-wyd i'r disgyblion.

Llwyddwyd i werthuso effaith y gweithredu yn ystod y pandemig drwy sicrhau mynediad ar-weinwyr i Google Classroom i wirio ansawdd darpariaeth adrannol; cyfarfodydd rhithiol rheolaidd rhwng UDA a staff er mwyn trafod ac addasu unrhyw raglenni gwaith/gwersi; ym-ateb i lais y dysgwyr/holiaduron; fforymau a chyngor disgyblion. Roedd galwadau ffôn rheol-aidd gyda'r cartrefi yn elfen gref o'r gweithredu tîm oedd ar waith mewn ysgolion a chanfydd-iadau yn arwain at weithredu dilynol neu addasu darpariaeth dysgu ac addysgu yn ôl yr ang-en. Drwy gydol y cyfnod, mae'r ysgolion wedi gwahodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i ymuno ag ymarferion craffu a theithiau dysgu. Yn ystod cyfnodau clo a dysgu cyfunol, rhoddwyd mynediad o bell i ddogfennau addysgu a gwaith disgyblion. Mae adroddiadau gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cyfeirio at effaith gadarnhaol y gweithredu ar y ddar-pariaeth.

Mae'r sylw'r rhwydwaith i ddysgu ac addysgu yn parhau gyda'r ffocws cyfredol ar ddat-blygu'r 12 egwyddor addysgegol fel rhan o'r paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae'r rhwydweithiau pynciol hefyd wedi bod yn weithredol ar gyfer y pynciau craidd yn yr uwchradd. Mae ffocws y gwaith wedi bod ar gefnogi arweinwyr canol i arwain y dysgu a'r addysgu; ar hwyluso a chefnogi cydweithio cymheiriol ac ar rymuso prosesau a gweithdref-nau arfarnu a chynllunio gwelliannau; ar feithrin gwell dealltwriaeth o gynllunio ac addysgeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd; ar wella rhaglenni ymyrraeth ym meysydd llythren-nedd a rhifedd ynghyd â chefnogi agweddau penodol ar baratoi ar gyfer arholiadau ac ases-iadau CA4 a CA5. Caiff gwaith y rhwydweithiau ei werthfawrogi'n fawr gan arweinwyr uwch-radd a gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau safonol sydd wedi eu cyd-ddatblygu a'u car-trefu ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, safweoedd Tanio [Gwyddoniaeth], MathsCymru [Ma-themateg], Y Pair [Cymraeg] a Herio [Saesneg].

Mae effaith y gwaith rhwydweithiol i'w weld ar sawl lefel ac ar draws ystod o agweddau:

- arweinwyr canol wedi'i huwchsgilio mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg ac ansawdd cynllunio e.e. strategaethau adalw, strategaethau i wella gwaith llafar ac ysgrifennu, defnydd o offerynnau technegol i feithrin sgiliau pynciol ac ati.
- arweinwyr canol wedi meithrin gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o'r 12 egwyddor a'r paratoi tuag at y cwricwlwm newydd.
- arferion da wedi cael eu rhaeadru ac yn cael eu mabwysiadu'n eang. Nifer sylweddol o arweinwyr wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd i rannu syniadau a datblyg-iadau ac i gael cefnogi ei gilydd yn broffesiynol.
- defnydd cynyddol o ddeunyddiau llyfrgell ddigidol Canolfan Cefnogaeth GwE ac o'r safweoedd pynciol i wella profiadau i ddysgwyr, paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau a pharatoi rhaglenni ymyrraeth bwrpasol.
- cynnydd yn lefel hyder arweinwyr ac athrawon yn eu sgiliau digidol.
- arweinwyr yn fwy hyderus oddi fewn i brosesau pennu rhagfynegiadau, asesiadau a graddau.
- targedu effeithiol i hyrwyddo sgiliau llafaredd y Gymraeg e.e. prosiect 'Ein Llais Ni'.

Yn ychwanegol i'r rhwydweithiau a'r fforymau, mae cefnogaeth benodol ar gael i bob ysgol uwchradd unigol ac mae'r targedu hwn wedi arwain at welliannau amlwg mewn sawl achos. Mae cynnwys Cynllun Cefnogaeth ysgol unigol yn seiliedig ar anghenion penodol yr ysgol ei hun sy'n deillio o'i hunan arfarniad ac sy'n destun blaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Mae cefnogaeth i wella agweddau ar ddysgu ac addysgu yn ganolog i'r cynlluniau hyn. Cânt eu llunio ar y cyd â'r uwch dimau rheoli a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Mae'r ber-thynas a'r cydweithio rhwng ysgolion a GwE yn gryf iawn a gwelir effaith gadarnhaol i'r gefn-ogaeth ar sawl agwedd ar waith yr ysgolion.

Yn y sector cynradd mae gan bob un o'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt brofiad helaeth o weithio gydag ysgolion penodol dros gyfnod estynedig o amser. Mae hyn wedi ar-wain at adnabyddiaeth gadarn o gryfderau ac anghenion gwella - ar lefel ysgol unigol a chlwstwr. Mae enghreifftiau niferus o gefnogaeth bwrpasol ac effeithiol i ysgolion ar wella agweddau penodol ar ddysgu ac addysgu.

Mae tystiolaeth gadarn bod y pecyn cefnogaeth ar gyfer disgyblion 3-8 oed boed ar lefel ysgol unigol, clwstwr neu awdurdod, yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â lleihau amryw-iadau o fewn yr ysgolion. Mae'r gefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o eg-wyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyd-fynd â chanllawiau 'Galluogi Dysgu'

ac 'Addysgeg' Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pecyn cefnogaeth yn cynnwys cynnig proffesiynol i UDA, athrawon a chymorthyddion disgyblion 3-8 oed ar ffurf rhwydweithiau tymhorol, rhag-len hyfforddiant rhanbarthol a hyfforddiant wedi'i deilwra i glystyrau. Mae'r ffocws yn bennaf ar ddatblygu agweddau o'r addysgeg, addysgu a lles o fewn profiadau dysgu ymarferol a hol-istaidd ynghyd â hyfforddi ymarferwyr i ddatblygu eu rolau fel hwyluswyr dysgu effeithiol. Mae gan bob ymarferydd fynediad at y cynnig proffesiynol a'r adnoddau sy'n cefnogi'r dysgu drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE. Mae llawer o ysgolion o fewn yr Awdurdod yn defnyddio'r gweminarau mewn cyfarfodydd staff a HMS i uwchsgilio'r gweithlu. Mae tystiolaeth o ysgol-ion yn nodi bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth (profiadau dysgu ac addysgu) ac ar ddeilliannau disgyblion.

Ers 2019, mae'r cynnig proffesiynol yn cynnwys ymarferwyr Bl3 er mwyn adeiladu ar rai o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn CA2 fel paratoad ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Bu i'r cynnig proffesiynol barhau drwy gydol y cyfnod clo gyda'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio i dargedu'r agweddau hynny y bu i ysgolion eu hadnabod fel rhai a oedd angen eu blaenor-iaethu yn sgil Covid-19, e.e. sgiliau cyfathrebu disgyblion ac iechyd a lles. Roedd y ffocws ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg ddatblygiadol addas. Mae tystiolaeth o effaith y rhaglen gefnogaeth hon yn cynnwys:

- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut y mae'r egwyddorion addysgegol (gan gyn-nwys 12 egwyddor CiG) yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblyg-iad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chym-deithasol).
- ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- ymarferwyr yn ystyried nid yn unig yr amgylchedd dysgu ffisegol, ond hefyd yr hin-sawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial.
- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu hymarfer bob dydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion; caniatáu i ymarferwyr ganfod y dulliau a ffafrir gan blant a phobl ifanc o ran dysgu, a'r modd gorau o'u hysgogi i gyfranogi yn y broses ddysgu; canfod y dysgwyr hynny sydd ef-allai angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.
- mae ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio dar-pariaeth sydd yn cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud i gam nesaf y dysgu.
- ymarferwyr yn deall bod angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i gwreiddio mewn arferion o ddydd i ddydd, mewn modd anweladwy o fewn y dysgu a'r addysgu.

Yn gyffredinol, mae arsylwadau Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a chanfyddiadau arolyg-iadau Estyn ble'n berthnasol, yn nodi bod y rhaglen gefnogi'n cael effaith gadarnhaol ar an-sawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gydag ymarferwyr yn gwneud gwell defnydd o arsylwadau a strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu i all-uogi cynnydd.

Pan gyfyd pryder am ysgol gynradd, cytunir ar Gynllun Cefnogaeth penodol a phwrpasol gydag arweinwyr yr ysgol a'r Awdurdod. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u haddasu'n unol â'r gofyn. Yn hanesyddol, mae'r ysgolion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o ganlyniad i'r ymyrraeth benodol.

Ar draws y ddwy sector, mae cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd wedi'i gyflwyno i wella an-sawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Yn ychwanegol i'r arlwy dysgu proffesiynol, mae ysgolion unigol wedi cael cymorth unigol ac mae effaith yr ymyraethau i'w gweld yn ansawdd a safonau'r sgiliau mewn amryw o ysgol-ion, yn lefel hyder athrawon ac yn y cynnydd a welir mewn cydweithio rhwng ysgolion. Mae'r arlwy o arweiniad a chefnogaeth i ysgolion yn cynnwys arweiniad ar gynllunio i gyd-lynwyr Llythrennedd/Rhifedd/CD; cefnogaeth i ANG gyda chyflwyno gwersi effeithiol, cefn-ogaeth benodol i ddatblygu llafaredd er mwyn gwella sgiliau mathemategol a gwyddonol; ar-weiniad i wella lefel yr her yn y cynllunio; dyfnhau sgiliau mathemategol a gwella sgiliau dar-llen lefel uwch. Caiff y rhaglen ei chyfoethogi ymhellach gan gyfarfodydd tymhorol y rhwyd-weithiau perthnasol. Dros y cyfnod Covid-19 hefyd, bu cydweithio agos gydag ysgolion i ddatblygu deunyddiau a phecynnau dysgu o bell i gefnogi ysgolion i ddatblygu

sgiliau syl-faenol dysgwyr. Mae effaith y gwaith wedi ei gofnodi mewn sawl adroddiad arfarnol ac yn yr adborth a dderbyniwyd gan arweinwyr ysgolion.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ac arbenigwyr ym maes ymchwil, datblygwyd adnoddau, rhaglenni a phecynnau i gefnogi hyfedredd darllen yn y ddwy iaith. Hefyd bu cydweithio ar ddeunyddiau SAFMEDS i gefnogi sgiliau rhifedd. Mewn amryw o ysgolion, gwelir bod y rhaglenni hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ruglder darllen dysgwyr ac ar hyder athrawon a staff cefnogi i ddarparu.

Darparwyd sesiynau briffio byw i benaethiaid ac arweinwyr ar sut i wneud defnydd effeithiol o'r asesiadau cenedlaethol mewn darllen a rhif a bu i hyn gynyddu dealltwriaeth a hyder wrth iddynt fynd ati i fesur cynnydd dysgwyr unigol dros y cyfnod.

Yn yr uwchradd, rhoddwyd ffocws penodol ar gefnogi rhaglenni dysgu carlam a darparu ad-noddau ymyrraeth yn CA3 ac arweiniad ar strategaethau i wella ymgysylltu gyda rhieni. Yn ychwanegol, datblygwyd pecyn cymorth (toolkit) Llythrennedd sy'n cefnogi gwaith cynllunio a sgaffaldio cyfleoedd ar gyfer darllen ac ysgrifennu ac sy'n helpu i ddysgu a datblygu geirfa ynghyd â deunyddiau adolygu ac adalw. Mae'r rhain wedi eu rhannu ag ysgolion trwy gyf-rwng safwe Tanio a Chanolfan Cefnogaeth GwE. Mae hyn wedi arwain at raglenni ymyr-raeth o well ansawdd ac mae ysgolion yn adrodd i hyn arwain at gynnydd yn rhuglder a hy-der dysgwyr ac at well dealltwriaeth ymysg staff o sut i fynd ati i sgaffaldio a chynllunio.

Yn y maes Cymhwysedd Digidol, mae'r cynnig dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb i ddatblygu'r dysgu a'r addysgu ac i wella cymhwysedd digidol y dysgwyr. Yn dilyn yr hyfforddiant a gynigwyd, bu cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n mewngofnodi i Hwb yn fisol.

Mewn ymateb i'r pandemig cynhaliwyd cyfres o weminarau a hyfforddiant ar-lein yn canol-bwyntio ar ddefnyddio llwyfannau dysgu yn effeithiol i gynnal y dysgu a'r addysgu trwy gyf-nodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Yn ddiweddar, darparwyd Rhaglen Hwyluswyr Digidol ble roedd pob clwstwr yn enwebu unigolyn, sef Pencampwr Digidol, i gydweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol a GwE i ddat-blygu arweinyddiaeth strategol o'r maes digidol yn y clwstwr. Mae clystyrau wedi dechrau ail-gydio yn y rhaglen drwy enwebu hwylusydd i'w cynrychioli. Mae mwyafrif y clystyrau wedi ffurfio gweithgor i oruchwylio'r datblygiadau digidol ac i ymgorffori cymhwysedd digidol yn llawn fel rhan o Gwricwlwm i Gymru.

Darparwyd cefnogaeth benodol hefyd i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu mewn pynciau STEM. Mae STEM Gogledd yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan grant Ewropeaidd (ESF) sy'n gweithredu ar draws siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Dechreuodd y prosiect yn 2019, a'i brif nod yw ysbrydoli, annog a chefnogi pobl ifanc i ddilyn pynciau STEM yn yr ysg-ol, a'u hannog i barhau i astudio a dilyn gyrfa yn y maes. Mae'r prosiect yn defnyddio mentor-iaid Gyrfa Cymru sydd wedi'u hyfforddi i ddarparu arweiniad a chymorth STEM i fyfyrwyr ar sail 1-1 ac mewn grŵp, ac yn rhedeg ochr yn ochr â safle Hwb STEM Gogledd sydd hefyd yn fan cyfeirio ar gyfer gyrfaoedd, prentisiaethau a chyrsiau ôl-16.

Mae hefyd yn ymgysylltu â grwpiau o ddisgyblion i herio stereoteipiau a hyrwyddo cyfle cyf-artal i ferched yn arbennig, gan eu hannog i ymgysylltu â phrosiectau STEM eraill ESF megis Technocamps. Mae STEM Gogledd hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gydag athrawon i gefnogi STEM wrth iddynt baratoi i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, a'u cefnogi hefyd i inte-greiddio Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn y cwricwlwm. Mae Miller Res-earch Audit wedi cynnal gwerthusiad llawn o'r prosiect a rhyddhawyd yr adroddiad terfynol yn ddiweddarach yn 2022 ar ôl ymgynghori â'r holl randdeiliaid. Yn seiliedig ar ein hymwneud ag ysgolion dros y cyfnod, ceir tystiolaeth gadarn o effaith gadarnhaol y prosiect ar draws ystod eang o agweddau. Nodwyd y manylion mewn adroddiad cynhwysfawr.

## 6. Y GYMRAEG

### EIN LLAIS NI

Prosiect cydweithredol (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru) yn datblygu arferion a strat-egaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhwng ysgolion GwE, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill yw Ein Llais Ni. Bwriad y prosiect yw:

- Canolbwyntio ar ddatblygu llafaredd Cymraeg dysgwyr mewn cyd-destun cyfoes sy'n berthnasol i Gymru.
- Plethu strategaethau addysgu llafaredd traddodiadol gyda strategaethau digidol.
- Rhoi'r pwyslais ar gynnig profiadau 'byw' sy'n berthnasol i fywyd go-iawn.
- Datblygu addysgeg sy'n plethu'n naturiol i egwyddorion cynllunio a gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.
- Datblygu athrawon fel ymchwilwyr gweithredol - myfyrio ar ymchwil gyfoes, modelu'r strategaethau ar waith ac arfarnu llwyddiant.
- Athrawon yn rhannu astudiaethau achos o'r hyn sydd wedi ei gweithio'n dda.
- Cynhyrchu gwerthusiad o'r prosiect a chyfeirlyfr i athrawon gan ymchwilwyr o Brif-ysgol Bangor.
- Datblygu pecyn cefnogol ar gyfer dysgu proffesiynol.

Rhoddwyd cyfle i bob ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog y rhanbarth fod yn rhan o'r prosiect, a chafodd y 100 o ysgolion a ymgeisiodd eu derbyn. Bu i'r Awdurdodau a GwE annog ysgolion drwy fforymau strategol a chysylltiadau uniongyrchol i ddatgan diddordeb.

Mae'r athrawon sydd wedi ymrwymo i'r prosiect yn datblygu'n effeithiol fel athrawon sy'n ymchwilwyr gweithredol ac yn dechrau rhannu eu canfyddiadau hyd yma. Maent oll yn gweithio tuag at gyflwyno astudiaeth achos erbyn diwedd Tymor yr Haf 2022 yn manylu ar lwyddiant strategaethau i hyrwyddo a hybu sgiliau llafar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r rhwydwaith wedi cael cyfleoedd i rannu eu profiadau a'u had-borth yn gadarnhaol o ran effaith gynnar treialu'r strategaethau yn eu dosbarthiadau. Maent wedi gwerthfawrogi clywed gan ysgolion eraill gan gynnwys derbyn syniadau a'u haddasu i'w dosbarthiadau nhw.

Mae GwE a Phrifysgol Bangor wedi cydweithio ar ddatblygu adnoddau cefnogol **cynhwys-fawr iawn** i'r athrawon er mwyn eu cynorthwyo gyda'r ymchwil. Mae hyn yn cynnwys:

- **Gwefan *Ein Llais Ni*** - holl gyflwyniadau o'r gynhadledd lansio gychwynnol, papurau a dogfennau ymchwil, enghreifftiau o arfer lwyddiannus, awgrymiadau ar gyfer addysgu a dysgu, mynediad i *Drysorfa Llais 21 (CCD)*, astudiaethau achos, enghreifftiau o raglenni ac apiau di-gidol ar gyfer hybu gwaith llafar etc.
- **Podleisiau** - cyfres o sgyrsiau yn ymwneud â llafaredd a dwyieithrwydd.
- **Newyddlenni** - rhannu diweddariadau gyda'r ysgolion ar unrhyw ddatblygiadau gan gynnwys ymat-eb i gwestiynau ac enghreifftiau gan ysgolion.
- **Gweminarau** - cyfres o sesiynau sy'n hybu'r defnydd o arfau digidol i gefnogi a chyfoethogi gwaith llafar.
- **Rhwydweithiau** - cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiadau drwy gydol y flwyddyn.
- **Sesiynau Ar Alw** - cyfnod anffurfiol i unrhyw ysgol sy'n rhan o'r prosiect ei fynychu er mwyn trafod eu gwaith a derbyn diweddariadau.
- **Ymchwil** - mewnbwn gan ymchwilwyr profiadol i'r ymchwil cysylltiedig ac unrhyw argymhellion defnyddiol i gefnogi dewisiadau'r athrawon wrth gynllunio ar gyfer y gwaith.

O'r cyswllt uniongyrchol gydag athrawon sy'n rhan o'r prosiect naill ai mewn galwadau ffôn/*Teams* ymgysylltiol, mewn cyfarfodydd ar alw neu ystafelloedd trafod yn y rhwydweithiau, nodwyd fod bod yn rhan o'r prosiect wedi caniatáu ffocws penodol a llwyddiannus ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando Cymraeg, sydd wedi gweld dirywiad yn dilyn y cyfnodau clo, a bod cynllunio'n fwriadus ar gyfer cynnydd yn y sgiliau hynny'n dechrau dwyn ffrwyth yn enwedig o ran brwdfrydedd a hyder tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r prosiect hefyd wedi codi hyder yr athrawon i fod yn datblygu dulliau digidol, mwy cyfoes i ddatblygu sgiliau llafar sy'n cyplysu'n effeithiol gyda'r broses asesu ffurfiannol, yn enwedig yr agwedd o fyfyrio ar waith a gwella ansawdd y siarad. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn dangos brwdfrydedd tuag at gwblhau eu tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyswllt cryf rhwng y prosiect a pharatoadau ar gyfer y *Cwricwlwm i Gymru* ac mae'r agwedd Gymreig, lle mae anogaeth i ysgolion gynnig profiadau 'byw' yn rhoi pwrpas a chyd-destun lle mae'r dysgwyr yn gweld yr iaith y tu hwnt i furiau'r dosbarth ac yn weithredol yn eu cymuned. Mae'r gweminarau digidol wedi arfogi'r athrawon yn effeithiol gyda syniadau ar gyfer cynllunio i gyfoethogi'r gwaith llafar gan ddefnyddio rhaglenni neu apiau perthnasol ac wedi cynnig awgrymiadau a syniadau ar gyfer gwella ansawdd y siarad a'r gwrando..

### GWAITH CLWSTWR

Darparwyd cyllid i ddatblygu sgiliau Cymraeg a Chymraeg anffurfiol y gweithlu pob blwyddyn ers tair blynedd, yn uniongyrchol i glystyrau er mwyn cefnogi ysgolion i gynnal gweithgar-eddau Siarter Iaith a chefnogi unrhyw aelod o staff i ddatblygu sgiliau iaith ar y lefel briodol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a buddiol gyda swyddogion awdurdod lleol er mwyn cyd-weithio ar y gefnogaeth i ysgolion. Mae cytundeb ar egwyddorion rhaglen waith y cydgysyll-twyr clwstwr er mwyn cynllunio ar gyfer arian grant y Gymraeg.  Llwyddwyd i gael cysondeb gweithredu ar draws y Gogledd.

Bydd y cydgysylltwyr yn cynllunio ac yn diweddaru taenlen 'dangosfwrdd' yn bwrpasol ar gyfer arian y Gymraeg drwy ymgynghori â swyddogion yr Awdurdod Lleol er mwyn casglu gwybodaeth am gynllunio, costau ac adrodd ar gynnydd.  O ganlyniad i'r cydweithio agos, mae'r broses yn mynd rhagddi'n llyfn ac yn bwrpasol a'r cyllid wedi'i ddyrannu i'r 54 clwstwr yn 2021-22.  Mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, ac yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r cydgysylltwyr yn adrodd ar gynnydd ac effaith er mwyn enghreifftio arferion da ac adnabod y camau nesaf ar gyfer datblygu.

### Y SIARTER IAITH

Mewn rhai clystyrau, addaswyd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn naill ai oherwydd heriau staffio, neu oherwydd na fu'n bosib gweithredu fel y  bwriadwyd.  Serch hynny, mae enghreifftiau rhagorol ble cafodd dysgwyr profiadau cyffrous o gynllunio a phar-atoi ar gyfer datblygu'r defnydd o'r Gymraeg e.e. cydweithio â llawer o artistiaid i gynnal gwahanol weithgareddau fel cyfansoddi anthemau ysgol, cyfansoddi alawon newydd, gemau iaith, creu podlediadau i ddathlu'r ardal leol. O ganlyniad, datblygwyd ymdeimlad o falchder mewn hunaniaeth Gymreig ac ysbrydoliaeth i siarad Cymraeg.  Ceir enghreifftiau hefyd ble mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cydweithio'n llwyddiannus, gydag un adran Gym-raeg mewn ysgol uwchradd yn gosod heriau cerddorol i ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r cydgysylltwyr wrthi'n diweddaru'r wybodaeth ar gynnydd ac effaith ar eu 'dangosfwrdd' clwstwr, gan ystyried y camau nesaf wrth gynllunio ar gyfer arian 2022-23.

### DATBLYGU SGILIAU IAITH Y GWEITHLU

Cafodd y Ganolfan Iaith Genedlaethol ddata am hyfforddiant ar-lein Croeso. Yn dilyn trafod-aethau â Llywodraeth Cymru, cynigiwyd y cwrs y Gymraeg mewn Blwyddyn i ysgolion am y flwyddyn academaidd nesaf. Cynhelir cyfarfodydd misol â Canolfan Bedwyr a Canolfan Dysgu Cymraeg (Prifysgol Bangor) i hyrwyddo cyrsiau parod a chydweithio ar ddatblygu cyrsiau penodol i Awdurdodau neu ymarferwyr addysg e.e. cwrs i gymorthyddion dysgu.

## 7.  LLESIANT

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn. Bu pwyslais ar amrywiaeth o agweddau ar yr agenda llesiant e.e. gwytnwch, addasu i amgylchedd sydd yn newid, myfyrdod personol, dysgu gweithredol ac ati.

Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi sicrhau cyswllt rheolaidd â Phennaeth eu hysgolion cyswllt, a hynny er mwyn cefnogi eu lles a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol.   Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, cynigiwyd cyfres o weithdai i arweinwyr ysgolion a swyddogion addysg.

**GDD**

Gweithredwyd y strategaeth GDD ranbarthol ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol/lleoliad yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol digidol, Meddwl yn Wahanol, yn ychwanegol at gefnogaeth gan yr YCG. Mae pob ysgol/lleoliad yn defnyddio'r dangosfwrdd GDD fel tystiolaeth o gronfeydd.

Mae tystiolaeth bod y cyllid ychwanegol dan reolaeth y consortia yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r prosiectau dysgu carlam ychwanegol yn unol â'r tîm ymchwil yn CIEREI/iechyd a lles ysgol gyfan a thargedu cynhaliaeth.  Mae'r GDD yn cyd-fynd â chefnogi dull gweithredu ysgol gyfan tuag at les a thargedu cynhaliaeth/ymyraethau.  Elfen GDD Blynyddoedd Cynnar y strategaeth ranbarthol - cyflwynwyd nifer o sesiynau Talk Boost i ysgolion targed; Mae wyth ysgol wedi cael yr hyfforddiant hyd yma. Rydym hefyd wedi datblygu ffurflen monitro blynyddol ALl sydd yn dangos sut y bwriedir defnyddio'r grant yn unol â'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir..

**GDD PMG A LLESIANT**

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau'r broses o newid diwylliant/ethos a meddyl-fryd yr ysgol drwy fframwaith ysgol gyfan Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS)/Dull Adferol ac Annog.
- Mae bron pob ysgol wedi bod ar hyfforddiant DP TIS ysgol gyfan ar draws y rhan-barth.
- Mae bron pob ysgol wedi bod mewn o leiaf un o'n sesiynau DP ar Lesiant.
- Mae pob clwstwr ble mae nifer uchel o PMG wedi bod ar y DP TIS neu Rhestr Wirio Arsylwi.
- Mae mwy o bolisïau a strategaethau sydd yn seiliedig ar berthynas mewn ysgolion o ganlyniad i'r DP TIS.
- Mae tystiolaeth o ddatblygu arferion cydweithredol rhwng ysgolion/clystyrau/CAMHS a gwasanaethau plant.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o saf-bwynt lles.
- Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio yn gryfach gyda'r awdurdodau lleol ac Iechyd o ran y targedu cynhaliaeth a'r cymorth cyffredinol.
- Cwblhawyd y mapio Rhanbarthol ac ALl ar gyfer Llesiant.
- Mwy o ysgolion yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu, gyda
  - Staff yn fwy hyderus yn eu dulliau
  - Dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio/myfyrio ar eu hymddygiad a'u teim-ladau yn well.
  - Newidiadau mewn Ymddygiad Dysgwyr a Gwaharddiadau
  - Agweddau at ddysgu wedi newid - dysgwyr a staff
  - Dysgwyr yn hapusach yn yr ysgol
- Pecyn TIS ymarferol i ysgolion ei ddefnyddio drwy'r dull cyffredinol
- Ffurfiwyd Rhwydwaith Cymuned sy'n Ystyriol o Drawma/Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n dod ag addysg a gwasanaethau plant ynghyd i gefnogi dysgwyr.
- Staff yn defnyddio 'Lle i fyfyrio' a sesiynau cymorth.
- Mae'r GDD PMG yn cyd-fynd â'r ffocws ysgol gyfan a CiG gyda bron pob clwstwr wedi cwblhau'r dangosfwrdd.
- Mae pob ALl/ysgol wedi manteisio ar y Cynnig DP i Arweinwyr Dynodedig.
- Gwelwyd cynnydd yn yr ysgolion sydd â PMG sydd wedi manteisio ar ein Cynnig Dysgu Proffesiynol.
- Cefnogwyd ysgolion/lleoliadau i weithredu'r dysgu proffesiynol yn y cwricwlwm a'r addysgeg yn ogystal â'r ymyraethau ychwanegol.
- Cynhaliwyd 3 sesiwn DP i ANG ar draws y rhanbarth i fod yn wybodus am drawma a gwreiddio arferion yn y dysgu a'r addysgu.
- Dyfarnwyd statws TIS i dair ysgol gynradd yn y rhanbarth.
- Mae gennym ddau hyfforddwr sydd yn gymwys i gyflwyno hyfforddiant TIS ysgol gyfan yn y Gymraeg.
- Dros y misoedd diwethaf, mae'r YCG wedi cyflawni statws ymarferydd TIS ac wedi plethu eu sgiliau a'u gwybodaeth â'u rôl cefnogi ysgolion.

## 8. YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Mae'r cymorth i ysgolion unigol gan GwE yn parhau ac yn cryfhau drwy'r cynghreiriau rhwng ysgolion a'r Rhaglen

Partneriaeth sy'n adlewyrchu eu prosesau cyfoethogi ansawdd.

Cyn y pandemig COVID, cytunwyd ar set ranbarthol o egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. I'r pwrpas hwn, rhannwyd model adolygu cymheiriaid (sef y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [SPP]) â rhanddeiliaid, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Darparwyd hyfforddiant a chymorth cyson i holl YCG GwE ar adolygu cymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn mis Mawrth 2022, mae 29 YCG wedi'u hyfforddi i fod yn adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r RhPY. Cafodd holl staff GwE hyfforddiant adnewyddu ar y Rhaglen ar 17 Medi, 2021. Ar 4 Hydref 2021, hyfforddwyd 13 YCG i gyflwyno'r rhaglen, ac yn sgil rhaglen o arsylwi hyfforddiant gallant bellach gyflwyno hyfforddiant RhPY (SPP) i ysgolion a chlystyrau. Golyga hyn, erbyn mis Mawrth 2022, bod gan 21 YCG y gallu i gyflwyno'r Rhaglen yn llwyddiannus.

Erbyn mis Mawrth 2022, mae 18 clwstwr/cynghrair (105 ysgol) wedi cael hyfforddiant SPP, ac maent eisoes wedi cynnal adolygiad gan gymheiriaid, neu wrthi'n paratoi ar gyfer hynny yn ystod tymor yr Haf/dechrau tymor yr Hydref, 2022. Hyfforddwyd cant a chwe deg un o Benaethiaid/uwch arweinwyr i fod yn adolygwyr cymheiriaid ar draws y rhanbarth. Hyfforddwyd cant a phum deg pedwar o uwch arweinwyr/arweinwyr canol ac athrawon hyfedr i fod yn 'hwyluswyr gwelliant'. Fel hyn, bu modd i arweinwyr ac athrawon elwa o addysg broffesiynol o safon uchel a bydd yn cyfrannu at wella capasiti arweinyddol ar draws y rhanbarth. Cafodd yr haen gyntaf o ysgolion a chlystyrau cynradd sydd yn rhan o'r Rhaglen hyfforddiant ar ddechrau tymor yr Haf, 2021. Oherwydd effaith y pandemig, cynigiwyd hyfforddiant ychwanegol i'r ysgolion hynny hyfforddi staff ychwanegol a chodi eu capasiti i gwblhau'r gwaith ym mis Ionawr 2022. Cyflwynwyd yr hyfforddiant diweddaraf i ysgolion/clystyrau uwchradd sydd yn rhan o'r Rhaglen yn ystod mis Mawrth 2022. Cwblhaodd bob ysgol arbennig yn y rhanbarth yr hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr Haf, 2021.

Mae rhaglen ar gael sydd yn cynnig hyfforddiant ar y Rhaglen i'r 407 o ysgolion yn y rhanbarth a'r Unedau Cyfeirio. Bwriedir hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, ac yn 2022-23. Bydd y Rhaglen yn cyd-fynd â gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i arfarnu eu cynnydd wrth weithredu'r daith ddiwygio. I'r pwrpas hwn, lluniwyd cyfres o gwestiynau myfyrio gyda phwyslais ar y daith ddiwygio, i gyd-fynd â'r broses gymheiriaid.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Mynegodd gyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth ddiddordeb, oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Yn ystod mis Mawrth 2022, cafodd 33 o ysgolion hyfforddiant a threfnwyd i weddill y clystyrau gael hyfforddiant yn ystod tymor yr Haf/Hydref 2022. Nodwyd tri chlwstwr/chynghrair i gael eu cynnwys mewn astudiaeth achos ar ymchwil i effaith y Rhaglen yn 2022-23.

## 9. MATERION BUSNES

### DATBLYGU STAFF

Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau cyson yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

### RHEOLI PERFFORMIAD AC ATEBOLRWYDD

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

### GWERTH AM ARIAN

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cyn-llunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cyn-llun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

### COFRESTR RISG

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

## 10.BLAENORIAETHAU CYNLLUN BUSNES 2022-2023

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill

fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Fe'i hystyrir o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i fod yn cyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation'.

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella.
'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin capasiti ar draws y rhanbarth i wynebu heriau y diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion. Er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach, mae GwE wedi datblygu'r cysyniad o greu cerrig milltir tymhorol drwy system rheoli gwybodaeth G6. Mae'r rhain oll yn rhoi cyfle i bob ysgol fyfyrio. Mae gweithgarwch ac effaith hyn yn cael ei rannu, a chaiff y camau nesaf eu hadnabod drwy drafodaeth broffesiynol barhaus efo YCG.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried disgwyliadau'r system a gweithio ar y cyd â phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

Dyma ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gwelliant yn 2022-2023:

| EIN HAMCANION STRATEGOL | |
|---|---|
| 1. | **Cwricwlwm ac Asesu** - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr |
| 2. | **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion |
| 3. | **Arweinyddiaeth** - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol |
| 4. | **Ysgolion cryf a chynhwysol** yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant |
| 5. | **Cefnogi system sy'n hunan wella** - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson |
| 6. | **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian. |

Y pedwar diben a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt


baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad ein blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwelliant yn 2022-2023 a amlinellir isod yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben (Atodiad 6 - Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023).

Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl y gwasanaeth, sydd yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

# EIN BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL AM 2022-2023



GwE

Cydweithio • Dysgu • Llwyddo

0300 500 8087

post@gwegogledd.cymru

www.GwEGogledd.Cymru

@GwEGogleddCymru

Cyngor Gwynedd Council

Conwy

sir ddinbych denbighshire

Sir y Fflint Flintshire

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Wrexham Wrecsam

# RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID

# GWE WORK PROGRAMME AND SUPPORT TO SCHOOLS DURING THE COVID PANDEMIC

- Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ail-bwrpasu sawl gwaith er mwyn diwallu gofynion diwygiedig y rhanddeiliaid.

- Whole service has been re-purposed several times to meet the revised requirements of stakeholders.

## Gwahanol rolau ers diwedd mis Mawrth 2020

- Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr – Atebolrwydd a monitro
- Arwain o'r canol ac arweinyddiaeth ar draws
- Dysgu proffesiynol ystyrlon
- Arweinyddiaeth gydweithredol
- Modelu
- Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid

## Our different roles since the end of March 2020

- Supporting the wellbeing and development of leaders - Accountability and monitoring
- Leading from the middle and lateral leadership
- Meaningful Professional Learning
- Collaborative leadership
- Modelling
- Managing stakeholder expectations

# Gwaith a wnaed ers mis Mawrth 2020

## Cam 1: Cyn y cyfnod clo

- Cytuno ar strategaeth gyfathrebu â Chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol.
- Cyswllt ffôn rheolaidd â phob ysgol drwy'r YCG i gefnogi penaethiaid i gadw ysgolion ar agor a lleddfu pryderon.
- Lleoli staff GwE mewn ysgolion ac UCD, ble roedd angen, i'w cefnogi i aros ar agor.
- Lleoli staff GwE yn yr awdurdodau i'w cefnogi gyda gwasanaethau hanfodol.
- Timau GwE yn llwytho adnoddau cychwynnol ar Google Classroom penodol i gefnogi ysgolion ddechrau cynllunio ar gyfer dysgu o bell.

# Work undertaken between March 2020 – present

## Phase 1: Pre-lockdown

- Communication strategy agreed with Directors of six local authorities.
- Regular phone contact with each school through SIA to support head teachers to keep schools open and assuage concerns.
- Deploy GwE staff in schools and PRUs where identified to support them to stay open.
- Deploy GwE staff in the authorities to support them with essential services.
- GwE teams upload initial resources to a designated Google classroom to support schools with initial planning for distance learning.

## Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo

- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn sicrhau iechyd a lles y staff a'r disgyblion.
- Parhau i gefnogi ysgolion neu Hybiau unigol ble roedd prinder staff yno.
- Uwch sgilio staff GwE o ran dysgu'n ddigidol.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion ddechrau cefnogi dysgu o bell mewn ysgolion.
- Cefnogi ysgolion gyda Dysgu o Bell a chynhyrchu fideos defnyddiol ar 'Sut i...." fel bod athrawon yn gallu datblygu ac amrywio eu dulliau dysgu o bell.

## Phase 2: Supporting schools at the beginning of lockdown

- Keeping regular contact with schools in order to ensure health and wellbeing of both staff and pupils.
- Continuing to support individual schools or Hubs when there was a shortage of staff to attend.
- Upskilling of GwE staff for digital learning.
- Developing guidance, support and learning resources for schools to begin to support distance learning in schools.
- Supporting schools with Digital Learning and producing useful 'How To' videos so that teachers can develop and vary their distance learning methodology.

## Cam 3: Dysgu o Bell

- Datblygu **canllawiau dysgu o bell** i ysgolion ar y cyd â rhanbarthau eraill.
- Ar y cychwyn, llwytho deunyddiau a syniadau priodol ar Google Classrooms ar gyfer pob Cyfnod Allweddol.
- Cymorth fel bod athrawon ac arweinwyr yn gallu gweithredu yn unol â'r arferion gorau wrth greu a defnyddio adnoddau dysgu ar-lein.
- Datblygu modelau DP effeithiol o fewn GwE a'u rhannu'n genedlaethol a'u mabwysiadu gan bob rhanbarth.
- Annog ysgolion, arweinwyr ac athrawon i rannu adnodau ar draws y gyfundrefn ac annog ysgolion i ddefnyddio Hwb i rannu eu dulliau gweithredu, eu cynlluniau a'u hadnoddau dysgu.
- Sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad cyfartal at ddysgu ac adnoddau dysgu.
- Pob YCG wedi cael DP priodol ar yr hyn yw DP effeithiol.

## Phase 3: Distance Learning

- Developed **distance learning guidance** for schools in collaboration with other regions.
- Initially, google classrooms populated with appropriate materials and ideas for all Key Stages to refer to.
- Support to enable leaders and teachers to act in line with best practice in creating and using online learning resources.
- Effective DL Models were developed in GwE and were shared nationally and adopted by all regions.
- Schools, leaders and teachers were encouraged to share resources across the system and to encourage schools to use Hwb to share their approaches, plans and learning resources.
- Ensured all learners have an equitable access to learning and learning resources.
- All SIAs to have appropriate PL as to what makes effective DL.

## Cam 4: Cefnogi ysgolion i ail agor

- Cydweithio â’r chwe Awdurdod Lleol.
- Sefydlu trefn gyfathrebu glir efo rhanddeiliaid allweddol.
- Cyfarfod yn wythnosol â’r Cyfarwyddwyr a’r Deilyddion Portffolio Addysg.
- Creu Fframwaith Polisi a Dangosfwrdd.
- Modelu asesiad risg i bob sector.
- Adnabod rolau rhanbarthol a lleol o ran cefnogi dysgwyr bregus.
- Uwch sgilio staff GwE i gefnogi arweinwyr ysgolion yn y meysydd hyn.

## Phase 4: Supporting schools to re-open

- Joint work with 6 Local Authorities.
- Establish clear lines of communication with key stakeholders.
- Weekly meetings with Directors and Education portfolio holders.
- Created a Policy Framework and Dashboard.
- Modelled risk assessment for each sector.
- Regional and local roles identified in supporting Vulnerable learners.
- Upskilled GwE staff to support school leadership in these areas.

## Cam 5: Dysgu Cyfunol

- Uwch sgilio tîm GwE gyda gwaith ymchwil rhyngwladol ar ddysgu cyfunol.
- Plethu'r Cwricwlwm i Gymru yn naturiol â'r arferion presennol.
- Unedau aml-ddisgyblaethol i atgyfnerthu a datblygu sgiliau.
- GAC/Cymwysterau/Arholiadau

## Phase 5: Blended Learning

- Upskilling of GwE team with international research on blended learning.
- Naturally blending CfW into current practice.
- Multi disciplinary units to consolidate and develop skills.
- CAGs / Qualifications / Exams

# Cam 6 Dysgu ar Garlam

- Triongl o angen;
- Lles corfforol;
- Lles emosiynol;
- Llythrennedd a rhifedd;
- Sail y dystiolaeth.

# Phase 6 Accelerated Learning

- Triangle of need;
- Physical well being;
- Emotional well being;
- Literacy and numeracy;
- Evidence base.

## Cam 7
## Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALl

- Canolfan Cefnogaeth GwE
- Adborth o'r 'cyfnod gweithredol' gan ysgolion. Rhannu arferion gorau.
- Cynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, ar wahanol lefelau.
- Symud yr agenda dysgu yn y cyfnod nesaf. Cefnogi ysgolion o ran DC – cynllunio a'r ddarpariaeth
- Cefnogi Arweinyddiaeth / Penaethiaid – atgyfnerthu hyder ac adeiladu gwytnwch i'r system.
- Dysgu Proffesiynol
- Cefnogi ALl (cynhwysedd)
- Lles dysgwyr
- Cyfathrebu a chydweithio

## Phase 7
## Blended support to schools and LAs

- GwE Support Centre
- Feedback from 'operational period' from schools. Shared good practice.
- Planning for different scenarios, on several levels.
- Moving the learning agenda forwards in the next phase. Support schools as regards BL – planning and provision.
- Support for Leadership/Head teachers – restoring confidence and resilience building within the system.
- Professional Learning
- LA Support (capacity)
- Pupil wellbeing
- Communication and collaboration

# Cydweithio â Chymheiriaid

- Datblygu ar fuddsoddiad cryf mewn gwaith a chydweithio clwstwr.
- Hwyluso cydweithio clwstwr o fewn sector, ac ar draws sector, i gefnogi ysgolion drwy'r pedwar cam.
- Hwyluso cyfarfodydd i arweinwyr dysgu ac addysgu a rhwydweithiau pynciol i drafod dulliau dysgu o bell a chyfunol (math PISA).
- Cydweithio â phenaethiaid a Swyddogion yr ALl drwy gyfarfodydd fforymau strategol.
- Cydweithio â swyddogion yr ALl drwy grŵp safonau lleol.
- Hwyluso gwaith i gyd-lunio modelau dysgu cyfunol.
- Cydweithio â phartneriaid yn yr haen ganol.
- Arwyddo Memorandwm Dealltwriaeth rhwng GwE a Phrifysgol Bangor.

# Peer Collaboration

- Building on strong investment in cluster working and collaboration.
- Facilitation of sector and cross-sector cluster collaboration to support schools through the four phases.
- Facilitation of meetings for teaching and learning leads and subject networks to discuss distance and blended learning approaches (PISA style).
- Collaboration with head teachers and LA Officers via strategic forum meetings.
- Collaboration with LA officers via local standards group.
- Facilitation of co-construction of blended learning models.
- Collaboration with middle tier partners.
- MoU between GwE and Bangor University signed off.

Tudalen 54

**Ein rôl ni wrth symud ymlaen:**

- Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr – Atebolrwydd a monitro
- Arwain o'r canol ac arweinyddiaeth ar draws
- Dysgu proffesiynol ystyrlon
- Arweinyddiaeth gydweithredol
- Modelu
- Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid

**Our role in going forward:**

- Supporting the wellbeing and development of leaders - Accountability and monitoring
- Leading from the middle and lateral leadership
- Meaningful Professional Learning
- Collaborative leadership
- Modelling
- Managing stakeholder expectations

# Canllawiau ac adnoddau

- Google Classroom
- Cymorthyddion
- Grŵp Dychwelyd i'r Ysgol rhanbarthol
  - Asesiadau Risg
  - Dangosfwrdd
  - Lles
  - AD
  - Cyfathrebu
- Weminarau
- Gwefan DC
- Dysgu Carlam

# Guidance and resources

- Google Classroom
- Support staff;
- Regional return to School Group;
  - Risk assessments;
  - Dashboard;
  - Well being;
  - HR
  - Communication
- Webinars;
- BL Website
- ALP

# Dysgu Proffesiynol

- Canllawiau DC a DoB
- Rhaglen waith GwE
- Rhwydweithiau Dysgu ac Addysgu a  phynciol
- Hyfforddiant i'r Clystyrau
- Cwricwlwm i Gymru

# Professional Learning

- DL and BL guidance;
- GwE work programme;
- Teaching and Learning and subject Networks;
- Training for clusters
- Curriculum for Wales

# Cyfathrebu

- Un i un gyda phennaeth;
- Clwstwr;
- Bwrdd Rheoli;
- Fforymau Penaethiaid;
- BAS;
- Aelodau Etholedig;
- Cyd Bwyllgor;
- Bwletin a'r wefan.

# Communication

- One to one with HT;
- Cluster;
- Management Board;
- HT fora;
- LAQB;
- Elected members;
- Joint Committee;
- Bulletin and website.

# Ffrwd waith - yr 12 Egwyddor Addysgegol

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae ysgolion yn datblygu ymhellach fel ysgolion sy'n hunan wella, gyda dealltwriaeth ddyfnach o gyd-ymdrech i wella dysgu ac addysgu.
- Mae ysgolion yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu trwy gydweithio mewn gwaith ymchwil, gweithredu dealltwriaeth gyffredin a chysondeb mewn cynllunio a chyflwyno'r egwyddorion addysgegol mewn ysgolion ar draws y continwwm 3-16 o fewn clystyrau.
- Codi safonau dysgu ac addysgu mewn ysgolion a sylfaen gadarn ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.
- Gweledigaeth gytûn ar gyfer addysgeg mewn lle yn y clystyrau, sy'n cyfrannu at gyflawni'r 4 Diben.
- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut mae'r egwyddorion addysgegol yn berthnasol i'w gilydd wrth greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- Mae ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- Ymarferwyr i ystyried nid yn unig y mannau ffisegol ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial.
- Disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn datblygu eu sgiliau metawybyddol.
- Mae gan lais y disgybl fwy o rôl yn y dysgu a'r addysgu.
- Gall disgyblion wneud cysylltiadau er mwyn datrys problemau go iawn, cyfoethog a gwreiddiol, gan ddefnyddio eu sgiliau meddwl yn feirniadol a meddwl yn greadigol.

# Ffrwd waith – Asesu Ffurfiannol

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae ysgolion sydd yn cymryd rhan wedi datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu, wedi gwneud ymchwil weithredu a chael cyfleoedd gwerthfawr i gydweithio ag ysgolion ar draws y rhanbarth.
- Mae gan athrawon ddealltwriaeth ddyfnach o addysgeg effeithiol yn seiliedig ar ymchwil helaeth a chyfoes, yn lleol ac yn rhyngwladol.
- Negeseuon cyson am egwyddorion addysgu effeithiol.
- Effaith gadarnhaol ar annibyniaeth dysgwyr, eu lles a'u hagweddau at ddysgu.
- Effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd ddysgu, ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- Wedi gwneud cyfraniad sylweddol i barodrwydd ysgolion a'u paratoadau at y Daith Ddiwygio a'r CiG.



# Ffrwd waith – Asesu Ffurfiannol ac Asesu

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu harferion dyddiol er mwyn:
  - ➢ gwella dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion
  - ➢ gweld ym mha ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi dysgu, a sut orau i'w cymell i gymryd rhan yn y broses ddysgu.
  - ➢ adnabod y dysgwyr hynny gallai fod arnynt angen mwy o gymorth i'w helpu i  gyflawni eu llawn botensial.
- Mae ymarferwyr yn deall yn well bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio darpariaeth briodol sydd yn cefnogi mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud i gam nesaf y dysgu.
- Gwell dealltwriaeth bod angen i’r asesu fod yn broses barhaus sydd yn rhan o arferion pob dydd, mewn ffordd ble na ellir ei gwahaniaethu rhwng y dysgu a'r addysgu.

# Ymchwil Weithredu
# Asesu Ffurfiannol
# GwE a Shirley Clarke

Gweithredu, Effaith ac Esblygu Arferion

# Nodau

- Datblygu arbenigedd ar draws y rhanbarth i gydweithio ar addysgeg a hunan welliant.
- Codi safonau mewn addysgu a sicrhau addysgu o safon uchel yn gyson ar draws ac o fewn ysgolion.
- Datblygu timau o athrawon i fod yn ymchwilwyr gweithredol
- Diweddaru athrawon am ganfyddiadau ymchwil cyfoes
- Cefnogi athrawon wrth iddynt adolygu ac addasu eu harferion, datblygu eu hyder a'u harbenigedd i arwain eraill.
- Rhannu a dathlu llwyddiannau ac awch athrawon am addysgu
- Hyn oll wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru a'r daith ddiwygio genedlaethol.

# Y weledigaeth / cynllun



**Haen 1 (mis Hydref 2017 – Tachwedd 2018)**
27 o ysgolion – 54 o athrawon
Timau Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Shirley Clarke

**Haen 2 (mis Medi 2018 – Medi 2019)**
Timau Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Haen 1 a GwE gan ddilyn gwaith Shirley Clarke

**Haen 3 (mis Medi 2019 – Medi 2020)**
Gweddill ysgolion y rhanbarth.
Timau Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Haenau 1 a 2 a GwE gan ddilyn gwaith Shirley Clarke.

# Niferoedd

89% o ysgolion y rhanbarth

- 96% Cynradd
- 80% Uwchradd
- 70% Arbennig

| | Ysgolion | Athrawon |
|---|---|---|
| **Haen 1** | 27 | 54 |
| **Haen 2** | 193 | 386 |
| **Haen 3** | 140 | 261 |
| **CYFANSWM** | 360 | 701 |

# Meysydd Ymchwil – dros flwyddyn

Meddylfryd twf, ‘pwerau dysgu’, diagram parthau dysgu

Partneriaid Trafod

Cwestiynu Gwybodaeth Flaenorol

Bwriadau Dysgu – allan o gyd-destun, pa bryd i’w cyflwyno, cofnodi, penagored a chaeedig

Meini Prawf Llwyddiant – disgyblion yn cyd-lunio, MPLl caeedig (gorfodol) a phenagored (dewis), dangos beth yw rhagoriaeth.

Adborth – ar lafar ac ysgrifenedig, cyn, yn ystod ac ar ôl gwers.

Cael gwared â grwpio yn ôl gallu

Cael gwared â gwobrwyo cymharol

Lleihau llwyth gwybyddol

# Mesur Effaith

Defnyddiwyd data ansoddol a meintiol i werthuso effaith ymchwil weithredu athrawon

**Athrawon prosiect;**

Trafodaeth mewn cyfarfodydd adolygu strwythuredig

Trafodaethau gydag Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yr ysgol

Holiaduron

**Cydweithio â Phrifysgol Bangor:**

Gweinyddwyd 3 holiadur

- Arferion sy'n seiliedig ar Dystiolaeth
- Dealltwriaeth a hyder athrawon gyda strategaethau asesu Ffurfiannol
- Holiadur adborth disgyblion

Ymchwil Myfyriwr PhD - ysgolion Haen 2 - defnyddio persbectif economeg iechyd i arfarnu'r ymchwil weithredu rhanbarthol.

**Estyn** - ar gyfer Haenau 1 a 2. Maes Arolygu 2 - (Lles ac Agweddau at Ddysgu) a Maes Arolygu 3 (Addysgu a Phrofiadau Dysgu)

# Ffrwd waith – Datblygu Addysgeg yn ystod y cyfnod clo (Dysgu Digidol)

**Gwahaniaeth a wnaed**

Mwy o ysgolion yn defnyddio ystod o wasanaethau digidol i gefnogi dysgu ac addysgu, a gwelir mewn tystiolaeth gychwynnol bod y gwell defnydd yn ystod y cyfnod clo wedi'i gynnal ers dychwelyd i ysgolion.

Mewn ymateb i'r pandemig cynhaliwyd cyfres o weminarau a chynhyrchwyd hyfforddiant ar-lein yn canolbwyntio ar ddefnyddio llwyfannau dysgu yn effeithiol i gefnogi dysgu ac addysgu trwy gyfnodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn dilyn yr hyfforddiant, bu cynnydd o 326% ar gyfartaledd yn nifer y dysgwyr sydd yn mewngofnodi i Hwb bob mis. Mae cynnydd o 341% yn y nifer o weithiau y mae pob dysgwr yn defnyddio Hwb ar gyfartaledd bob mis o gymharu â chyn Covid. Yn *'Google Workspace for Education'* 2021 gwelwyd cynnydd o 904% mewn data mewngofnodi. Yn 2022, hyd yma, mae'r cyfartaledd dal yn 771% uwchlaw lefelau cyn-pandemig, sy'n awgrymu bod y llwyfannau hyn yn parhau i gael eu defnyddio yn rheolaidd mewn ysgolion.



- Fideos cymorth anghydamserol - cyfanswm o 9,693 wedi gwylio
- Cyfanswm nifer y defnyddwyr sydd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau anghydamserol ar-lein - 948
- Cyfartaledd Ch3 ar gyfer defnyddio Hwb yn y rhanbarth - 98.3%

**Nifer yr enghreifftiau effeithiol wedi'u huwchlwytho ar Ganolfan Cefnogaeth GwE (Ysgol i Ysgol)-** Canolfan Cefnogaeth GwE - Ysgol i Ysgol

Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r dudalen - 27,576

**Nifer yr adnoddau defnyddiol wedi'u huwchlwytho ar Ganolfan Cefnogaeth GwE** Canolfan Cefnogaeth GwE

Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r dudalen - 123,690

Cyfanswm nifer y lawrlwythiadau - 23,067

# Ffrwd waith – Asesu

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion y rhanbarth yn rhan o sgwrs ddatblygol ar adolygu prosesau asesu a'u datblygu
- Mae nifer bach o ysgolion yn treialu cofnod cynnydd.

# Ffrwd waith – MATh

**Gwahaniaeth a wnaed**



- Mwy o ffocws ar anghenion disgyblion MATh
- Ysgolion yn defnyddio dulliau Dysgu ac Addysgu addas i MATh ac sydd yn ddefnyddiol i bob disgybl.
- Mwy o fanwl gywirdeb o ran dulliau addysgegol mewn ysgolion.
- Mireinio dealltwriaeth o'r hyn yw her mewn Dysgu ac Addysgu, a'r hyn nad ydyw.
- Rhoi strategaethau addysgu ymarferol i athrawon yn seiliedig ar ymchwil diweddar
- Sicrhau bod her ac uchelgais uchel yn bwydo i ddatblygu'r CiG.

# Ffrwd waith – Gwahaniaethu

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Cafodd ysgolion fynediad i adnoddau dwyieithog ar wahaniaethu yn rhoi sylw i ystod o anghenion dysgu.
- Cafodd ysgolion gymorth parhaus i wreiddio a datblygu yn ôl anghenion eu hysgolion.
- Cmorth ychwanegol i adrannau'r Gymraeg a Saesneg yn sicrhau dyfnder a ffocws

# Ffrwd waith – Datblygu Addysgeg yn ystod y cyfnod clo (Dysgu o Bell, Dysgu Cyfunol a Dysgu Byw)

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Gwell dealltwriaeth o sut gall addasiadau i strwythurau'r diwrnod ysgol gael eu datblygu ymhellach i gefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd.
- Mae llais y disgybl a'r rhiant wedi cyfrannu at fonitro ymgysylltiad a llesiant. Mae ysgolion wedi ymateb yn well i adborth ac addasu eu darpariaeth yn briodol.
- Dull cyfunol effeithiol o ddysgu o bell, gan gynnwys dysgu byw, wedi'i ddefnyddio yn y rhan fwyaf o ysgolion. Amrywiaeth o ddulliau ar waith, gan gynnwys cyflwyniadau fideo wedi'u recordio, ystafelloedd trafod, cwisiau ar-lein a chyfleoedd i gael cyfnodau astudio annibynnol er mwyn cymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae ysgolion yn parhau i ddatblygu hyn, er mwyn datblygu ymhellach y dysgu a'r addysgu.
- Mae YCG wedi cefnogi ysgolion i arfarnu eu darpariaeth a chynllunio ar gyfer adeiladu ar lwyddiannau i ddatblygu'r CiG.
- Esblygu cynnig DP GwE - recordiadau o bob sesiwn DP rhithwir yn cynnig hyblygrwydd a mynediad i holl aelodau staff ysgolion.

## Ffrwd waith – Esblygu a Chryfhau Ymgysylltu â Chymheiriaid

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Cryfhau cydweithredu ar bob lefel ar draws y rhanbarth
- Mwy o berchenogaeth o fewn partneriaethau o daith wella pob ysgol
- Mwy o barodrwydd a hyder i rannu arferion rhwng ysgolion, clystyrau a chynghreiriau

- Nifer yr ysgolion / clystyrau yn cymryd rhan yn y rhaglen: 105/18
- Nifer yr Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 161
- Nifer yr Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 154
- Nifer yr ysgolion / clystyrau ar gyfer yr haen nesaf: 154/20



## Ffrwd waith – ADY

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Datblygu cydweithio effeithiol rhwng Cydlynwyr ADY.
- Mae ysgolion yn llwyr ymwybodol o'r gofynion Trawsnewid.
- Gall ysgolion adnabod yn effeithiol feysydd ar gyfer datblygiad pellach o ran gweithredu'r trawsnewid.

# Ffrwd waith – Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (Lles)

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae bron pob ysgol/lleoliad wedi cael hyfforddiant undydd ysgol gyfan ar arferion Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS). Mae mwy na 120 o ysgolion wedi mynd ymlaen i gwblhau'r Diploma 11 diwrnod. O ganlyniad, mae ysgolion bellach yn defnyddio dull yn seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu. Mae staff yn fwy hyderus yn eu dulliau ac mae disgyblion yn gallu hunanreoleiddio a myfyrio ar eu hymddygiad a'u teimladau yn well (elfen allweddol er mwyn lleihau straen peryglus a lliniaru llwybr salwch meddwl gydol oes.)
- Y ni yw'r rhanbarth cyntaf yn y wlad i ddatblygu rhwydwaith Cymuned sy'n Wybodus am Drawma, sy'n dwyn ynghyd addysg a sectorau eraill sy'n gweithio'n holistaidd gyda phlant.
- Ffurfiwyd rhwydweithiau o ymarferwyr i gynnig goruchwyliaeth a chymorth ffurfiol, chan gymheiriaid, i ddatblygu lles a gallu staff.
- Mae gennym athrawon sy'n hyfforddi i fod yn hyfforddwyr er mwyn datblygu gallu ymhellach, a gwreiddio iaith ac arfer gyffredin ar draws y rhanbarth a Chymru. Mae gennym hefyd 16 ffilm fer yn arddangos arfer effeithiol ac effaith.



# Ffrwd waith – Llesiant Arweinwyr/Staff

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae'r holl arweinwyr sydd wedi cymryd rhan yn y peilot wedi croesawu'r cyfle i gael chwe sesiwn myfyriol.
- Mae bron pawb, 17 o 20 o gyd-weithwyr ar gam cychwynnol y cynnig, wedi gofyn am sesiynau dilynol ac mae rhestr aros bellach ar gyfer y cynnig.

## Ffrwd waith – Cymorth Llesiant Cyffredinol

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Cyllid i gyd-fynd er mwyn datblygu arferion cydweithredol gwell.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o ran lles.
- Cyfathrebu a chydweithio cryfach ar waith gyda'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol.
- Mae ystod o adnoddau/canllawiau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gael i gefnogi ysgolion gyda modelau llesiant a'r cynnig dysgu proffesiynol.

## Ffrwd waith – Cefnogi Rhieni

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae'n rhoi modd i rieni chwarae rhan allweddol o ran darparu cyfleoedd dysgu yn y cartref ac o ran cysylltu'r hyn a ddysga plant yn yr ysgol â'r hyn sy'n digwydd mewn llefydd eraill.
- Mae'n datblygu ar y rhan gynyddol y bu rhieni yn ei chwarae yn ystod pandemig COVID ac yn adnodd gwerthfawr i ysgolion os bydd cyfnod clo arall.



## Ffrwd waith – Cefnogi Cymorthyddion Dysgu gyda'u haddysgu

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mwy o gymorthyddion dysgu yn ymwneud â datblygiad proffesiynol.
- Mae *Google Classroom* wedi codi ymwybyddiaeth cymorthyddion dysgu o'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt ac arwain at gynnydd yn y niferoedd sydd ar y rhaglenni cenedlaethol yn y rhanbarth. Mae hefyd yn adnodd gwerthfawr i ysgolion ar gyfer dyddiau HMS pe bai cyfnod clo arall.
- Gwell ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd a'r gallu i gefnogi disgyblion.
- Sefydlu - o ganlyniad i newid dull cyflwyno'r hyfforddiant hwn bu i niferoedd ddyblu yn ystod 2020-21 i dros 100.
- Darpar CALU - codi sgiliau proffesiynol yn arwain at statws CALU, gyda dros 85% yn ennill y statws ar ddiwedd Cylch 1.

## Ffrwd waith - Y GYMRAEG

**Gwahaniaeth a wnaed**

- O ganlyniad i sefydlu a chyflwyno'r prosiect cydweithredol 'Ein Llais Ni' (rhwng GwE a Phrifysgol Bangor), mae gan athrawon sy'n rhan o'r prosiect well dealltwriaeth bellach o bwysigrwydd cynllunio pwrpasol i wella cyfleoedd ac ansawdd sgiliau siarad a gwrando dysgwyr. Mae hyn hefyd wedi datblygu sgiliau ymchwil weithredu athrawon a gwella eu defnydd o dystiolaeth er mwyn dewis dulliau addysgu llwyddiannus a phenodol ar gyfer eu dysgwyr.
- O ganlyniad i weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, ymhlith eraill, lluniwyd ac arfarnwyd rhaglenni ymyrraeth cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar dystiolaeth (darllen, deall iaith ac adnabod geirfa).
- Trwy rymuso trafodaeth a chydweithio ag awdurdodau lleol, mae trefniadau a gweithgareddau yn ymwneud â'r cynlluniau clwstwr i gefnogi'r Gymraeg wedi dyfnhau a datblygu yn effeithiol. Mae tystiolaeth gadarn bod cydweithio a chyd-ddatblygu wedi arwain at gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ar draws sectorau ac ym mhob cyd-destun ieithyddol.
- Cafwyd ymrwymiad llawn i'r cyrsiau Sabothol ac mae hyn wedi datblygu hyder athrawon ymhellach i siarad Cymraeg a'u hysbrydoli i ddal ati i ddatblygu eu sgiliau.
- Mae staff GwE yn parhau i gael gwersi Cymraeg yn wythnosol ac maent yn dod yn fwy hyderus ac wedi ymrwymo'n llawn i fynychu cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn ddechrau mis Ebrill.

# Ffrwd waith: Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Y Rhaglen Cyflymu Dysgu

**Prosiectau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS):**

- **Prosiect Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR):** Ffocws yr adnoddau hyn yw defnyddio addysgu ar sail tystiolaeth a strategaethau datblygu rhuglder i helpu disgyblion i wella eu sgiliau darllen sylfaenol. Cofrestrodd 42 ysgol ar gyfer yr hyfforddiant yn nhymor y gwanwyn 2021-22. Gwahoddir pob ysgol yn awr i fynychu pedwar sesiwn cymorth i weithredu o bell ym mis Tachwedd 2021, Ionawr, Mawrth a Mai 2022, a gallant gysylltu â'r tîm ymchwil i gael unrhyw gymorth yn y cyfamser. Mae datblygu'r deunyddiau Cymraeg ymhellach hefyd ar y gweill, gan eu gwneud yn gydnaws â'r datblygiadau mwyaf diweddar yn yr adnoddau Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar yn ogystal â chadw golwg ar ddefnydd rhieni o'r deunyddiau rhuglder hyn gartref. Mae 103 o athrawon wedi defnyddio'r adnoddau *Google Classroom* dwyieithog.
- **Prosiect Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)**: Rhaglen addysgu 8-wythnos yw RILL y gellir ei chyflwyno naill ai o bell neu yn yr ysgol. Y bwriad yw helpu i gynnal ac/neu wella sgiliau darllen a sillafu i blant ag anawsterau llythrennedd, neu ddim, ac mae'n targedu sgiliau craidd ar gyfer llythrennedd ar lefel gair (ymwybyddiaeth ffonolegol, geirfa, darllen a sillafu geiriau). Yn 2021 fe wnaethom ddatblygu fersiwn ddwyieithog o RILL. Mae 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ym mis Medi 2021, y rhan fwyaf ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae 31 ysgol a 55 athro wedi cael hyfforddiant RILL hyd yma. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar hyn o bryd i gefnogi athrawon. Rydym hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (er enghraifft, tiwtorialau a fideos esboniadol), gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau efo'r tîm ymchwil/athrawon eraill.
- **Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)** : Mae hyn yn barhad o'n prosiectau gweithredu Headsprout hir sefydlog. Mae rhaglen darllen a darllen a deall cynnar Headsprout yn ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth i helpu dysgwyr mewn ysgolion cynradd sy'n cael trafferthion darllen. Bwriad y prosiect yw helpu ysgolion a rhieni i ddefnyddio rhaglenni Headsprout yn effeithiol. Mae 63 ysgol wedi defnyddio'r cymorth hwn er 2020. Mae hyn yn cynnwys dros 700 yn gwylio'r fideos cymorth i athrawon a rhieni ac yn ymweld â'r ganolfan adnoddau. Ymunodd 74 athro â'r rhwydwaith cymorth Hwb, ac mae llawer o'r rhain yn arbenigwyr llythrennedd ac/neu ADY.

# Ffrwd waith: Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Y Rhaglen Cyflymu Dysgu

**Prosiectau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS):**

- **Adolygiadau Tystiolaeth** : Mae'r pedwar adolygiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth gyfredol ar gyfer ystod o raglenni ac ymyraethau a ddefnyddir yn gyffredin. Ar gyfer pob rhaglen, cyflwynir ystod o wybodaeth ymarferol sy'n ddefnyddiol i arweinwyr ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth ar effeithlonrwydd, cost, gofynion o ran hyfforddiant a chysylltiadau â'r cwricwlwm. Mae'r adolygiadau hyn i'w gweld ar Ganolfan Gefnogaeth GwE ac fe'u hyrwyddir fel rhan o Brosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP) Llywodraeth Cymru.
- **Cymorth rhifedd SAFMEDS**: Mae *Say All Fast Minute Every Day Shuffled* (SAFMEDS) yn strategaeth addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd i helpu disgyblion i wella'u rhuglder a'u cynnydd mewn mathemateg. Ffocws yr adnoddau hyn yw defnyddio addysgu ar sail tystiolaeth a strategaethau datblygu rhuglder i helpu disgyblion i wella eu sgiliau rhif sylfaenol. Mae gan y strategaethau sylfaen ymchwil ddamcaniaethol gadarn ochr yn ochr â thystiolaeth gadarnhaol o dreialon effeithiolrwydd. Gellir defnyddio'r strategaeth yn y dosbarth, ar-lein neu gartref. Cynhyrchwyd yr adnoddau SAFMEDS a ganlyn a'u rhannu ag ysgolion: Sesiynau galw heibio misol i ysgolion rhanbarthol; Hyfforddiant pwrpasol i ysgolion rhanbarthol ac UauCD; Hyrwyddo SAFMEDS drwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE; Creu adnoddau dwyieithog; Tiwtorial SAFMEDS ar-lein; Gwefan unigryw i SAFMEDS; Cyflwyniad i hyfforddiant Addysgu Manwl; Cardiau gaiff eu dal â llaw ar gyfer Cam Ychwanegol SAFMEDS er mwyn ymestyn yr ymdriniaeth o'r Fframwaith Rhifedd; Comisiynwyd creu deunyddiau Dysgu newydd - gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol, gan dargedu ymarfer adalw rheolaidd a datblygu rhuglder.

# Ffrwd waith – Ymchwil a Gwerthuso

- **Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP):** Mae 11 clwstwr (41 ysgol) wedi'u recriwtio ar gyfer y prosiect hwn, o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol. Cafwyd cyfarfod lansio ym mis Rhagfyr 2021, ac mae'r tîm ymchwil wrthi'n dosbarthu'r arolwg gwaelodlin i ysgolion cyn ein bod yn dechrau sesiynau gydag ysgolion o fis Chwefror hyd Mehefin 2022. Rydym wedi cyflwyno dwy sesiwn dystiolaeth 'elfennau hanfodol' i ysgolion yn 2022, sef 'defnyddio modelau rhesymeg' a 'defnyddio adolygiadau tystiolaeth'.
- **Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP):** Ar hyn o bryd mae 42 ysgol yn rhan o brosiect NPEP, sy'n cynnwys 11 ysgol arweiniol a 31 ysgol bartner ar draws pob ALl. Mae GwE yn parhau i weithio gyda staff Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr i gefnogi'r ysgolion hyn mewn cyfarfodydd bob hanner tymor a rhoi mewnbwn ar ddulliau ymchwil a gwerthuso. Rydym yn cyfarfod â'r ysgolion hyn yn rheolaidd i gefnogi eu gwaith ymholi a gwerthuso.
- **Datblygu model ar gyfer ymchwil cydweithredol gydag ysgolion:** Dau bapur ymchwil wedi'u derbyn i gael eu cyhoeddi eleni:

- Owen, K., Watkins, R. C. and Hughes, J. C. (2022). From Evidence-Informed to Evidence-Based: An Evidence Building Framework for Education. *Review of Education,*
- Pegram, J., Watkins, R. C., Hoerger, M. and Hughes, J. C. (2022). Assessing the Range and Evidence-Base of Interventions in a Typical School Cluster. *Review of Education*

# Ffrwd waith – RHWYDWEITHIAU MDaPh LLEOL A RHANBARTHOL

**Trosolwg Byr**

- Gwahoddwyd pob ysgol i fod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Cymru rhanbarthol a lleol. Dangosodd **300+** ddiddordeb erbyn Gorffennaf 2021, a chododd hyn i **700+** erbyn mis Hydref 2021.
- Erbyn mis Mawrth 2022, mae **733** o aelodau o blith ysgolion, YCG GwE, cyd-weithwyr o'r ALl, a staff CABAN.
- Sefydlwyd **49** rhwydwaith - 6 MDaPh, dylunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu.
- Sefydlwyd trefn gyda chyfarfodydd rhanbarthol misol ble mae'r Athro Graham Donaldson yn bresennol ac yn cynnig arweiniad/sylwadau - ffocws y cyfarfodydd yw disgwyliadau fel y'u gosodir yn **Cwricwlwm i Gymru: Y daith at gyflwyno**
- Bydd pob cyfarfod lleol ar draws y chwe ALl yn cyfarfod bob mis rhwng y cyfarfodydd rhanbarthol.
- Mae cyfathrebu yn agwedd allweddol ar rannu gwaith â phob ysgol drwy YCG GwE, y wefan, diweddariadau rheolaidd mewn fforymau Penaethiaid.
- Sefydlwyd isadeiledd TEAMS ble mae gan bob rhwydwaith rhanbarthol a lleol rhywle penodol ble gallant rannu gwaith a chydweithio
- Gwireddir strategaeth GwE o ran cefnogi arweinwyr ac athrawon i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a chydweithio.

# Ffrwd waith – RHWYDWEITHIAU MDaPh LLEOL A RHANBARTHOL

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Gyda **117-130** o aelodau rhanbarthol yn cyfarfod bob mis, mae dealltwriaeth o fframwaith ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi **dyfnhau'n sylweddol**.
- Yn ôl cadeiryddion rhanbarthol, sydd yn ymarferwyr ysgol, mae eu **hyder a'u perchnogaeth wedi codi** o ran sefydlu sianeli cyfathrebu lleol, arwain trafodaethau mewn fforymau lleol ac ar draws clystyrau o ysgolion.
- Mae **mwy o ysgolion** yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
- **Nifer cynyddol o ymweliadau â'r wefan** i gael gafael ar ddeunyddiau ac enghreifftiau sydd wedi'u rhannu gan rwydweithiau ac ysgolion - 3923 o ymweliadau â'r dudalen Rhwydweithiau o fewn Cwricwlwm i Gymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.
- **Mwy o ddefnydd a chyfathrebu ar draws TEAMS** ble mae unigolion o fewn rhwydweithiau yn rhannu negeseuon allweddol ac enghreifftiau o rannu pellach o fewn eu clystyrau a'r cynghreiriau uwchradd.
- **Hyder yn y system** bod strategaeth glir a thryloyw i ymateb i'r gofynion statudol erbyn Medi 2022.

# Ffrwd waith – DYSGU PROFFESIYNOL

**Gweithdai Cwricwlwm i Gymru**

- Cynhaliwyd sesiynau Arwain Newid ym mis Chwefror 2021 gyda 30 o sesiynau a 732 o ymarferwyr UDA yn bresennol.
- 54 sesiwn yn ystod mis Mehefin-Gorffennaf 2021 ar weledigaeth a rennir, cynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm (108 awr o ddysgu proffesiynol).
- Y % sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor ym mis Mehefin/Gorffennaf oedd 80.3%
- Mynychodd 1155 y sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion.
- Mae gan bob clwstwr fynediad at ddolen i wefan benodol efo padledi a dogfennau cydweithredol sydd yn ganolfan adnoddau ganolog i waith DP, cofnodi trafodaethau ac adnabod meysydd ar gyfer mwy o drafodaethau lleol (enghreifftiau ar gael).

**Gweithdai Dylunio Cwricwlwm**

- Y gynulleidfa darged oedd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rhithwir dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 101 o aelodau UDA uwchradd, 504 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 16 ac 8 consortia arall/Estyn yn bresennol
- Defnyddiodd lawer o'r UDA y sesiynau hyn i gael mwy o staff i ymuno â'r weminar i drafod.
- Cafodd bob ysgol fynediad at y deunydd hwn a chynhaliwyd sesiynau dilynol efo YCG yn y rhan fwyaf o ysgolion/clystyrau
- Gall rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol fwydo i ddysgu proffesiynol gydag enghreifftiau o grynodebau cwricwlwm lefel uchel ac egwyddorion dylunio yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru: y daith at gyflwyno

**Gweithdai Cynnydd ac Asesu**

- Y gynulleidfa darged oedd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rhithwir dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 141 o aelodau UDA uwchradd, 620 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 18 ac 11 consortia arall/Estyn yn bresennol.
- Mae Rhwydweithiau CiG yn bwydo i enghreifftiau a rennir ar bwrpas asesu, ynghyd â Phenaethiaid yn rhannu eu profiadau.
- Cafwyd adborth cadarnhaol iawn - "Roedd y sesiwn yn taro'r hoelen ar ei phen!" “Cyflwynwyd negeseuon gwych mewn ffordd glir a syml".
- Mae'r holl ddeunyddiau a'r recordiadau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE - xxx o ymweliadau.

**Gweithdai egwyddorion cynllunio i ddilyn mis Ebrill 2022 (aildrefnwyd yn sgil sylwadau gan ysgolion o ran eu capasiti)**
**Camau nesaf rhaglen DP genedlaethol drawsranbarthol ar gyfer CiG i'w rhannu ym mis Ebrill.**

# Ffrwd waith – DYSGU PROFFESIYNOL

## Gwahaniaeth a wnaed

1. **Lefelau ymwneud yn uwch** ar draws y rhanbarth ymysg aelodau UDA ac athrawon er haf 2021 - **pob ysgol** yn ymwneud â'r cynnig DP.
2. Aelodau UDA ac athrawon yn **fwy hyderus** o ran deall egwyddorion y fframwaith CiG ac wrth gynllunio i gyrraedd y gofynion statudol newydd.
3. Mae pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA ar draws pob ysgol fel dilyniant i'r cynnig DP lleol, ac yn cynnig DP unigryw i anghenion ysgolion unigol lle bo'n briodol.
4. **Mwy o ysgolion** 'ar drac' i fodloni'r gofynion statudol newydd erbyn mis Medi 2022 (adroddiad chwe cham).
5. Mae nifer cynyddol o enghreifftiau o Uwch Arweinwyr mewn ysgolion yn defnyddio adnoddau DP i ymwneud ymhellach â'r holl staff e.e. arwain newid.
6. Mae rhaglen glir ar gyfer dysgu proffesiynol rheolaidd i YCG gyda'r Athro Graham Donaldson wedi arwain at wella dealltwriaeth a chodi hyder ar draws y tîm - gan arwain at gyd-weithwyr cynradd ac uwchradd yn dod i ddeall y continwwm 3-16 yn well (#sesiynau ac oriau).
7. **Drwy rannu negeseuon integredig** ar draws y tîm, gall yr YCG ddilyn hyn mewn dosbarthiadau ac ystafelloedd athrawon e.e. DP CiG - llawer o enghreifftiau o ysgolion yn rhannu eu gweledigaeth ac yn defnyddio map ffordd i gynllunio blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2020-21, gwaith dilynol ar ddylunio cwricwlwm lefel uchel.

# Ffrwd waith – DYSGU PROFFESIYNOL

**Camau nesaf y rhaglen DP genedlaethol drawsranbarthol i'w rhannu ym mis Ebrill – e.e. ffocws ar gynnydd, cynllunio strategol yn 2022 a'r tu hwnt**

| Uwch Arweinwyr | Arweinwyr Canol, Athrawon |
|---|---|
| Beth ydym ni'n ei olygu wrth gynnydd? | Deall y fframwaith CiG/MDaPh |
| Sut ydym ni'n dylunio cynnydd lefel uchel/modelau gwahanol | Beth ydym ni'n ei olygu wrth gynnydd? |
| Cynllunio strategol ar gyfer datblygu cwricwlwm Medi 2022 a'r tu hwnt | Cynllunio ar gyfer cynnydd o fewn disgyblaethau/MDaPh |
| Dylunio elfennau mandadol ac ehangach | Cynllunio gwahanol fodelau cwricwlwm |
| Dylunio cwricwlwm ar draws y continwwm 3-16 | Cynllunio ar gyfer sgiliau trawsgwricwlaidd |
| Dibenion asesu o fewn y CiG | Cynllunio ar gyfer sgiliau cyfannol |
| Rôl asesu o fewn atebolrwydd | Cynllunio ar gyfer themâu trawsgwricwlaidd |
| Gwerthuso CiG o fewn eich ysgolion | Cynllunio ar gyfer ehangder a dyfnder cynyddol ar draws 3-16 |
| CiG mewn ysgolion llai | Cynllunio ar gyfer yr Egwyddorion Cynnydd o fewn MDaPh |
| | Dibenion asesu |
| | Rôl ymchwil ac ymholi mewn cynllunio cwricwlwm |

# Ffrwd waith – DYSGU PROFFESIYNOL

**Data i ddangos ymgysylltiad yn ystod tymor yr haf 2021 – gweledigaeth/cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm 1 a 2**

| Cod ALl | Awdurdod Lleol | Nifer o Ysgolion | Nifer wedi Mynychu 3 sesiwn | % wedi Mynychu 3 sesiwn | Nifer heb fynychu dim un sesiwn | % heb fynychu sesiwn | Nifer wedi Mynychu 1 neu fwy o sesiynau | %wedi Mynychu 1 neu fwy o sesiynau | Nifer wedi Mynychu 2 neu fwy o sesiynau | %wedi Mynychu 2 neu fwy o sesiynau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 660 | Ynys Môn | **46** | **34** | **73.9%** | 4 | 8.7% | 42 | 91.3% | 37 | 80.4% |
| 661 | Gwynedd | **96** | **49** | **51.0%** | 10 | 10.4% | 86 | 89.6% | 69 | 71.9% |
| 662 | Conwy | **60** | **31** | **51.7%** | 5 | 8.3% | 55 | 91.7% | 49 | 81.7% |
| 663 | Sir Ddinbych | **54** | **18** | **33.3%** | 16 | 29.6% | 38 | 70.4% | 26 | 48.1% |
| 664 | Sir y Fflint | **77** | **26** | **33.8%** | 15 | 19.5% | 62 | 80.5% | 45 | 58.4% |
| 665 | Wrecsam | **68** | **28** | **41.2%** | 14 | 20.6% | 54 | 79.4% | 43 | 63.2% |
| | Cyfanswm | **401** | **186** | **46.4%** | 64 | 16.0% | 337 | 84.0% | 269 | 67.1% |

# Ffrwd waith – Datblygu Arweinyddiaeth

**Gwahaniaeth a wnaed**

- Mae arweinwyr ysgolion ar bob lefel sydd yn cymryd rhan yn y rhaglenni Arweinyddiaeth yn fwy hyderus yn gyffredinol ac mae ganddynt well dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol. Mae aelodau yn datblygu yn arweinwyr hunan fyfyriol sy'n arddangos cymhwysedd, arloesedd, disgwyliadau uchel, nodau clir a'r gallu i ddatblygu a dylanwadu ar eraill.
- Mae pob Rhaglen yn arwain at aelodau yn datblygu rhwydweithiau cydweithio â chymheiriaid proffesiynol a chlòs, a fydd yn eu helpu i gyfrannu ar lefel clwstwr ac yn rhanbarthol i'r agenda diwygio cenedlaethol.
- Trwy gwblhau 'Tasgau Datblygu Arweinyddiaeth' ysgol gyfan i wella agweddau ar waith eu hysgolion, mae aelodau wedi datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth ac mae ganddynt gyfrifoldeb penodol o fewn eu sefydliadau i yrru gwelliant ysgol gyfan.
- Trwy gyfrannu i yrru blaenoriaethau yn eu hysgolion mae aelodau'r rhaglenni yn atebol am weithgarwch gwella. Yn ogystal, gallant hunan arfarnu eu gweithredoedd personol yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth, gan feithrin cyfrifoldeb personol am eu datblygiad proffesiynol eu hunain.
- Trwy fyfyrio beirniadol ac ystyried effaith eu gweithredoedd, mae unigolion yn gallu dangos sut y mae dilyn y rhaglenni nid yn unig yn datblygu eu sefydliadau ond hefyd yn eu datblygu fel arweinwyr.



Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: 98
Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 61
Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP): 72
Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 37
Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol: 17
CYFANSWM: 285

GwE | Cydweithio Dysgu Llwyddo

# Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio

## TYMOR YR HYDREF 2021



Cyngor Gwynedd Council | Conwy | Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council | Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council | Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council | Wrexham Wrecsam

www.gwegogledd.cymru 0300 500 8087



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| PWRPAS YR ADRODDIAD | 3 |
| MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH | 4 |
| BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD | 4 |
| PRIF GANFYDDIADAU | 6 |
| SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD | 6 |
| SECTOR UWCHRADD GAN GYNNWYS YSGOLION ARBENNIG PERTHNASOL AC UCD | 13 |
| CRYNODEB O GYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GWE I YSGOLION | 19 |




## PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu i fod yn sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda adfywio a diwygio.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt roi sylw i'r agenda adfywio a diwygio ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021.

Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

**Cynnydd disgyblion**

**Sectorau cynradd ac arbennig**
- *Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?*
- *Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?*

**Sector uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig perthnasol ac UCD**
- *Sut mae ysgolion uwchradd wedi defnyddio Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer TGAU a Safon Uwch i gwblhau hunan arfarniad er mwyn cefnogi gwelliant parhaus?*

**Cwricwlwm i Gymru (CiG)**
- *Beth yw blaenoriaethau CiG yr ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?*
- *Beth yw'r blaenoriaethau clwstwr ar gyfer CiG yn nhymor yr Hydref?*
- *Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol CiG?*
    - *Arwain newid*
    - *Datblygu gweledigaeth a rennir.*
    - *Diwygio'r Cwricwlwm*
- *Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?*
- *Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu cynllunio cwricwlwm yn eich ysgol ac ar draws eich clwstwr?*

**Diwygio ADY a Chynnydd tuag at Weithredu**
- *Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?*
- *Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?*

**Dysgu Proffesiynol**
- *A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?*

**Atebolrwydd**
- *Sut ddylai atebolrwydd edrych?*
- *Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?*
- *Sut fydd adrodd yn edrych?*

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi **Cynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion**.

Crynhoir y meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach a'r blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel isod:

## MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am gymorth yn y meysydd canlynol er mwyn datblygu:
- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru - yn enwedig dylunio a chynllunio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh);
- Dulliau asesu a'r cysyniad o gynnydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- Gweithredu'r 12 Egwyddor Addysgegol er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu, gwahaniaethu ac asesu ffurfiannol;
- Defnyddio prosesau gwella ansawdd, gan gynnwys defnyddio data ansoddol a meintiol fel tystiolaeth i gefnogi gwelliant;
- Cryfhau cydweithio clwstwr cynradd ymhellach a pharhau i sefydlu a hwyluso cynghreiriau uwchradd i gytuno ar egwyddorion a swyddogaethau eu gwaith cydweithredol;
- Sefydlu a datblygu adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP);
- Gwella sgiliau'r Gymraeg, llafaredd yn enwedig;
- Cryfhau'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd/arbennig a datblygu continwwm 3 i 16;
- Gwella ymgysylltiad rhieni i gefnogi'r dysgu;
- Cefnogi ysgolion uwchradd i baratoi am arholiadau Haf 2022 a'u trefniadau wrth gefn pe byddai mwy o darfu.

## BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD

Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm ac yn rhoi sylw i ofynion mandadol/statudol ar gyfer ei gyflwyno yn 2022 neu 2023 (opsiwn sector uwchradd).

   Cefnogir hyn trwy:
   - Ddarparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm;
   - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
   - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant i ymateb yn effeithiol i'r arweiniad a nodir yn y Rhaglen Dysgu Proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
   - Sicrhau bod pob lleoliad yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi crynodeb i randdeiliaid allweddol o'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu fel yr amlinellir yn 'Y Daith at Gyflwyno'.

2. Gweithredu prosesau sy'n rhoi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gan ysgolion y lefel briodol o gymorth a her er mwyn gwella.

3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid yn enwedig o fewn cynghreiriau uwchradd i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant.

4. Cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno Trawsnewid ADY drwy ddarparu Dysgu Proffesiynol i wella'r dysgu a'r addysgu.

# PRIF GANFYDDIADAU

## SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD

### MESUR CYNNYDD DYSGWYR

- ***Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?***
- ***Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?***

Mae bron pob ysgol gynradd ac arbennig wedi rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac yn gweithredu amryw o gynlluniau/gweithgareddau fel 'Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma', 'Pass', Grwpiau Anogaeth, 'Talkabout', 'Mind Mechanics', Therapi Lego, a 'Tyfu drwy'r Tymhorau'. Fel hyn, maent wedi gallu cynnal ac olrhain lles eu disgyblion yn well. Ceir llawer o enghreifftiau o arferion da ar draws y rhanbarth ble datblygwyd dull effeithiol o fonitro lles. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion sydd wedi cwblhau asesiad gwaelodlin o les dysgwyr i weld pwy sy'n fregus i ddysgu ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Cefnogwyd rhai ysgolion gan brifysgolion i gynnal ymchwil ar sut orau i adnabod anghenion lles. O ganlyniad, maent wedi gallu adnabod unigolion a grwpiau o ddysgwyr i gael yr ymyrraeth fwyaf priodol fel 'ELSA'. Hyfforddwyd athrawon a staff ysgolion mewn amrywiaeth o ymyraethau arbenigol, e.e. ymarferwyr iechyd meddwl, 'Tyfu drwy'r Tymhorau', a Meddwlgarwch. Defnyddir cwnsela ysgol, 'NICOS' a Seicolegwyr Addysg yn effeithiol hefyd mewn llawer o ysgolion.  Nid oes amheuaeth bod lles disgyblion yn dal yn flaenoriaeth uchel i'r rhan fwyaf o ysgolion wrth iddynt barhau i roi sylw i effaith COVID ar eu disgyblion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae bron pob ysgol wedi parhau â'u systemau asesu mewnol i olrhain cynnydd. Mae'r systemau tracio ac asesu hyn yn cynnwys:

- Tracio perfformiad yn sgil ymyraethau unigol;
- Defnyddio sgorau safonedig o brofion cenedlaethol;
- Defnyddio profion darllen a sillafu fel profion darllen 'Salford' a phrofion sillafu 'Youngs';
- Cynnal profion 'CAT 4';
- Cynnal asesiadau mathemateg 'White Rose' er mwyn llywio'r cynllunio;
- Cynnal asesiadau gwaelodlin yn y Meithrin a'r Derbyn;
- Defnyddio Incerts i dracio lefelau o'r gwaelodlin ymlaen;
- Nodiadau tracio athrawon unigol yn effeithiol;
- Athrawon yn cadw cofnodion 'Read, Write, Inc';
- Arweinwyr yn defnyddio 'Building Blocks', 'Maestro' a 'Taith 360';
- Ysgolion yn dechrau defnyddio adnodd tracio GwE ar gyfer tracio cynnydd Meysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru;
- Defnyddio holiaduron lles fel 'PASS' a 'Boxhall';
- Defnyddio portffolios disgyblion ar gyfer safoni a chymedroli.

Nododd lawer o ddisgyblion bod y cymorth a'r berthynas agos â theuluoedd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yn barod i ddysgu wedi'r cyfnod clo. Er hynny, roeddent hefyd yn cydnabod yr heriau gyda disgyblion ieuengaf yr ysgol a'r unigolion mwyaf bregus.

Felly mae amrywiad sylweddol yn ôl ysgolion, o ran cynnydd disgyblion. Yn ôl llawer o ysgolion cynradd, gwneir cynnydd da ar y cyfan tra bod eraill yn nodi cynnydd cyfyngedig gan garfanau o ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu cynlluniau targedu i gefnogi grwpiau o ddisgyblion fel y bo'n briodol. Er enghraifft, cytunir bod y cyfnod clo wedi cael mwy o effaith ar ben isaf yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi'r angen i flaenoriaethu cymorth yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando disgyblion.   Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi tueddu i 'ddal fyny' yn gynt ar ôl dychwelyd wedi'r cyfnod clo. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi'r angen i ddal ati i ganolbwyntio ar wella sgiliau

echddygol manwl disgyblion, gan gynnwys cyflwyno gwaith, rhyngweithio cymdeithasol, stamina ysgrifennu a dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cydnabod yr angen i wella sgiliau llafaredd Cymraeg disgyblion.

Mae bron pob ysgol yn parhau i gyflwyno strategaethau ymyrraeth effeithiol i ddisgyblion e.e. drwy sesiynau dysgu manwl dyddiol, sesiynau 'SAFMEDS' i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ôl bron pob ysgol, mae'r targedu ymyrraeth wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i fonitro cynnydd dysgwyr o wahanol grwpiau fel dysgwyr bregus, hawl i Brydau Ysgol am Ddim (PYD), disgyblion ADY, Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cymorth priodol a phwrpasol i'r disgyblion hyn ac maent yn gweld effaith y gwaith hwn drwy eu prosesau asesu. Dywedant fod disgyblion bregus yn gallu delio'n llawer gwell yn y dosbarth prif lif a gydag amrywiol heriau cymdeithasol.

### CWRICWLWM I GYMRU (CiG)

- ***Beth yw blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru yr ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?***

Mae gan bob ysgol gynradd flaenoriaethau CDY yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru yn 2021-22, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â Rheoli Perfformiad Penaethiaid. Mae'r blaenoriaethau hyn yn unol â'r daith dysgu proffesiynol genedlaethol a'r daith at gyflwyno, ac yn cynnwys agweddau ar ddatblygu gweledigaeth, ymgyfarwyddo â chynnwys a chynllunio a threialu.

Trwy gydol tymor yr Hydref, roedd enghreifftiau o'r hyn a roddwyd ar waith gan ysgolion cynradd ac arbennig rhanbarthol yr awdurdod yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar Bedwar Diben y cwricwlwm newydd, e.e. disgyblion yn disgrifio beth maent yn ei olygu iddyn nhw, staff yn edrych (archwilio) ble rhoddir sylw i'r rhain yn y ddarpariaeth bresennol. Mae gan bob ysgol gynradd bellach fynediad at 'Fframwaith Asesu Ansawdd' GwE sy'n cefnogi ysgolion cynradd gyda'r archwiliad hwn, mae lleiafrif o ysgolion cynradd eisoes wedi dechrau defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol.
- Treialu gyda chynllunio, e.e. cyfeirio at Feysydd Dysgu a Phrofiad yn y cynllunio ac amlygu'r ymdriniaeth;
- Datblygu taflenni gwybodaeth/gohebiaeth i rieni, yn dweud wrthynt am y Cwricwlwm i Gymru;
- Addysgu pynciau ac ail-labelu llyfrau yng nghyd-destun y Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Treialu gyda'r datganiadau o gynnydd mewn cynllunio;
- Mae staff yn mynychu dysgu proffesiynol perthnasol;
- Mae arweinwyr yn ystyried ffyrdd o dracio ac asesu'r Cwricwlwm i Gymru;
- Diweddaru llywodraethwyr yn rheolaidd, a llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn y Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygu themâu a thopigau ysgol gyfan sy'n briodol;
- Cynnwys llais y disgybl yn y cynllunio;
- Archwilio yn erbyn adnodd tracio Egwyddorion Addysgegol GwE;
- Ail-ymweld ag adborth a gwaith asesu ffurfiannol;
- Parhau i ddatblygu dysgu yn yr awyr agored - gwreiddio lles trwy brofiadau cyffrous a diddorol yn yr awyr agored;
- Parhau i ganolbwyntio ar les, gan gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd a lles staff;
- Gweithredu mentrau ffitrwydd corfforol;
- Parhau i ddatblygu sgiliau digidol.

Mae bron pob ysgol wedi dechrau paratoi i weithredu'r cwricwlwm newydd, h.y. mae'r Pedwar Diben a'r 12 Egwyddor Addysgegol wedi cael sylw priodol a bellach yn rhan naturiol o'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu.

Ar draws y rhanbarth, mae amryw o enghreifftiau o arferion blaengar gydag amrywiol ffyrdd o gynllunio themâu, tasgau a gweithgareddau i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd. Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydweithio'n dda ac yn rhannu arferion llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio darpariaeth Dysgu Proffesiynol addas i ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol gan ystyried egwyddorion a gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi trefnu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gyfoethogi'r dysgu, yr addysgu a'r addysgeg i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru ymhellach.

Mae bron pob ysgol wedi cynllunio eu gwariant grant i gefnogi'u gwaith tuag at fodloni gofynion statudol Medi 2022. Ar y cyfan, neilltuwyd y gwariant hwn i wella cymarebau staffio, targedu disgyblion, prynu adnoddau ychwanegol a rhyddhau staff i fynd i hyfforddiant.

- ***Beth yw blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru y clwstwr yn ystod Tymor yr Hydref?***

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau ar draws y rhanbarth yn gweithio'n dda ac yn wirioneddol cydweithio. Cryfhawyd y cydweithio hwn yn ystod y cyfnod clo pan oedd y clystyrau yn cyfarfod yn rheolaidd ar-lein.

Mae clystyrau ar draws y rhanbarth wedi cytuno ar amrywiaeth o flaenoriaethau. Dyma nhw:
- Sicrhau bod gan bob aelod staff ym mhob ysgol yn y clwstwr ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion sy'n sail iddo;
- Datblygu ymhellach yr agweddau addysgegol a sut mae'r rheiny'n trosglwyddo i arferion dosbarth;
- Datblygu cynllunio cwricwlwm lefel uchel;
- Archwilio addysgeg a model dysgu ar sail ymholiad ar gyfer yr agwedd Gymraeg ar y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Datblygu hyfforddiant Profiadau Dysgu yn yr Awyr Agored a rhoi'r egwyddorion a'r fethodoleg ar waith.

Mae bron pob arweinydd ysgol wedi cydweithio a chyd-lunio blaenoriaethau a gosod cyfeiriad ar gyfer datblygiadau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac yn dechrau dangos effaith, e.e. mae fformat cynllunio clwstwr ar gael, sesiynau gweledigaeth clwstwr, newyddlenni clwstwr ac ati.

Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd; er hynny, mae effeithiolrwydd hyn yn amrywio o'r naill glwstwr i'r llall ar hyn o bryd. Mae gan arweinwyr mewn rhai clystyrau fwy o waith i'w wneud i greu a chytuno ar weledigaeth a chyfeiriad penodol i'r clwstwr. Yn gyffredinol, megis dechrau mae'r clystyrau o ran cynllunio ar gyfer cwricwlwm 3-16 a rennir, sy'n cynnwys gwella trosglwyddo. Dyma'r cam nesaf i lawer o glystyrau. Tymor nesaf, mae llawer yn bwriadu:
- Rhannu syniadau a modelau ar gyfer dylunio cwricwlwm, gan gynnwys cyswllt â'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru lleol;
- Rhannu cynlluniau ar gyfer grwpiau oedran tebyg rhwng ysgolion;
- Rhannu testunau/themâu i gefnogi gwaith pontio 3-16, gan gynnwys gwaith ar sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd;
- Dechrau datblygu dull asesu cyffredin;
- Dechrau datblygu ieithoedd modern 3-16.

Mae deuddeg clwstwr cynradd a phob ysgol arbennig wedi cael hyfforddiant adolygu cymheiriaid i gefnogi eu taith tuag at welliant. Yn ystod tymor yr Hydref, mae 33 clwstwr arall, yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol a 6 UCD, wedi gwneud cais i gymryd rhan mewn adolygu cymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

- ***Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru?***
  - ***Arwain newid***
  - ***Datblygu gweledigaeth a rennir***
  - ***Diwygio'r Cwricwlwm***

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac arbennig, mae arweinwyr wedi defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol i ddatblygu sgiliau staff wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mewn ysgolion eraill, mae YCG wedi ailgyflwyno'r adnoddau i arweinwyr, ac maent yn bwriadu eu defnyddio yn nhymor y Gwanwyn. Ble defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn effeithiol, mae arweinwyr wedi cynllunio ffyrdd ymarferol a diddorol i ddefnyddio adnoddau rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru e.e. papurau procio, cyflwyniadau PowerPoint a gweminarau, trwy gyfarfodydd staff wythnosol, gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn aml yn cefnogi.

Bu'r rhan fwyaf o Benaethiaid ar yr holl weithdai Cwricwlwm i Gymru gan gyfrannu'n dda at y broses, a rhoi safbwyntiau gofalus. Mae llawer yn gweithredu'r dull hwn o'r dysgu proffesiynol yn eu hysgolion, er enghraifft, ysgrifennu at randdeiliaid i ddatblygu gweledigaeth wirioneddol leol; a chael grwpiau o randdeiliaid i gyfrannu at ddatblygu gweledigaeth gyffredin. Mae llywodraethwyr yn rhan fawr o'r broses hon ac yn wybodus iawn yn gyffredinol, ac yn dechrau arwain newid cwricwlwm yn eu hysgolion.

- ***Beth fydd rôl a chyfraniad eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?***

Ar draws y rhanbarth, mae arweinwyr ysgolion wedi gofyn am y canlynol gan yr YCG:

- Cymorth gyda chyfarfodydd staff ar adnoddau GwE a Chanolfan Cefnogaeth GwE;
- Cymorth gyda hunan arfarnu a chynllunio gwelliant;
- Cymorth gyda monitro datblygiadau'r cwricwlwm;
- Cymorth a chyngor ar asesu a chynnydd a sut i gynllunio ar gyfer y rhain;
- Cymorth unigryw i staff lle bo'n briodol;
- Cymorth i ddatblygu cynllun y clwstwr ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
- Cymorth ar gyfer cynllunio a phontio 3-16;
- Hwyluso prosiectau'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion;
- Rhannu enghreifftiau a modelau o sut i ddylunio'r cwricwlwm;
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau o'r rhwydweithiau rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen;
- Gofal bugeiliol parhaus.

- ***Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm***
  - ***yn eich ysgol?***
  - ***ar draws eich clwstwr?***

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion yn y rhanbarth gynlluniau i ddatblygu dylunio cwricwlwm drwy gydol y flwyddyn academaidd, drwy eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chamau'r daith ddiwygio ranbarthol a chenedlaethol. Bydd staff yn parhau i ailwampio eu cwricwlwm yn unol â'r rhain wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Er hynny, mae dylunio'r cwricwlwm yn dal yn faes allweddol i gael cymorth ac arweiniad.

Nododd ysgolion fod athrawon wedi treialu dulliau cynllunio i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, a'u bod yn parhau i wneud hynny drwy:

- Gynllunio ar fformatau newydd, gan gynnwys cyfeiriadau at y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r Pedwar Diben;
- Mae testunau ysgol gyfan wedi'u cynllunio yn cynnwys y cwricwlwm lleol;
- Mae testunau a themâu yn cynnwys cynllunio ar gyfer llais y disgybl - yn enwedig ar ddechrau testunau

newydd;
- Gweithgareddau trochi i ennyn diddordeb dysgwyr yn eu testunau a'u themâu newydd;
- Cynllunio yn ystyried y sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol a themâu trawsgwricwlaidd;
- Datblygu'r amgylchedd dysgu i gefnogi gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys datblygu dysgu yn yr awyr agored yn sylweddol, sydd o berthnasedd i'r ardal leol;
- Parhau i ddatblygu dysgu digidol.

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau yn bwriadu datblygu dull cynllunio cyffredin ar gyfer cynnydd 3-16 yn ystod tymor y Gwanwyn.

Mae llawer o ysgolion eisoes wedi datblygu systemau ar gyfer cydweithio mewn timau a chyd-arbrofi ag arferion a rhannu'r rhai llwyddiannus wrth gynllunio ar gyfer dyfodiad y cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith a wnaed i werthuso'r defnydd o'r 12 Egwyddor Addysgegol hefyd yn sylfaen effeithiol i'r gwaith hwn.

- ***Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?***

Mae 228 o ysgolion cynradd ac arbennig a 533 o ymarferwyr yn rhan o'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae'r rhwydweithiau wedi sefydlu system i rannu'r gwaith ar lefel ranbarthol a lefel awdurdod lleol. Trwy hyn a thrwy gydweithio â chyd-weithwyr clwstwr mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, mae ysgolion eisoes yn gwella eu dealltwriaeth o feysydd penodol y Cwricwlwm i Gymru, ac maent eisoes yn dechrau rhannu syniadau a chynllunio. Drwy gydol y tymor, buont yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau a dulliau cyffredin ac maent wedi datblygu dysgu drwy weithio gyda chydweithwyr eraill mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill o fewn yr awdurdod ac ar draws y rhanbarth.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- ***Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Lluniwyd blaenoriaethau clwstwr i ddatblygu ADY ym mhob clwstwr, ac mae ysgolion wrthi'n mireinio ac yn perchnogi'r blaenoriaethau hyn.

Ymddengys bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ymateb yn llwyddiannus, ar y cyfan, i'r ddeddf a'r gofynion statudol ar draws y rhanbarth ac yn diweddaru aelodau staff yn rheolaidd ar ddatblygiadau.

Mae rôl y Cydgysylltydd ADY (CGADY) mewn ysgolion yn datblygu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio cerrig milltir G6 i adolygu cynnydd yr ysgol a gweld a oes agweddau pellach sydd angen sylw, ac mae'r gweddill wrthi'n cwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd tymor yr Hydref.

Mae staff ADY allweddol wedi cael hyfforddiant 'Eclipse' ac maent yn barod i ddatblygu'r system ar draws yr ysgol.

Dyma enghreifftiau o flaenoriaethau ysgolion ar gyfer y tymor hwn:
- Diweddaru polisïau i adlewyrchu diwygio ADY, pan fyddant ar gael gan yr Awdurdod Lleol;
- Mae treialu gyda Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn digwydd - bydd gan ddysgwyr newydd Gynllun Datblygu Unigol;
- Bydd gan bob plentyn broffil un-dudalen erbyn diwedd y tymor
- CGADY, llywodraethwyr ac athrawon i gael dysgu proffesiynol perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant ysgol gyfan mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion [PCP] ac 'Eliesha'.
- Bydd ysgolion yn diweddaru teuluoedd ar eu hawliau i apêl a thribiwnlys;
- Parhau i weithredu darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu mewn clystyrau;

- Datblygu'r arfer o blant yn cynllunio ac yn cyd-lunio eu cyfarfodydd adolygu eu hunain ar batrwm CDU.

## DYSGU PROFFESIYNOL

- ***A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?***

Mae pob ysgol wedi ymrwymo i ddysgu proffesiynol ar gyfer datblygu staff ar y daith tuag at y Cwricwlwm i Gymru ac maent yn dilyn amserlen genedlaethol a rhanbarthol. Rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fydd yn gyrru'r gwaith hwn.

Ar y cyfan, mae cynlluniau Dysgu Proffesiynol ysgolion yn cyd-fynd yn bwrpasol â'u prosesau Rheoli Perfformiad. Fel hyn, gallant sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd datblygiadol sy'n ymateb i ofynion blaenoriaethau'r ysgol mewn ffordd effeithiol a strwythuredig.

Mae nifer o enghreifftiau o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu ac uwch sgilio staff. Mae rhai enghreifftiau penodol yn golygu uwch sgilio'r gweithlu i gefnogi lles disgyblion drwy'r diploma 'Ysgolion sy'n wybodus ynghylch Trawma', 'Tyfu drwy'r Tymhorau', 'ELSA' a 'MAPA'. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i roi sylw i ddatblygu agweddau Asesu ar gyfer Dysgu hefyd drwy fynychu hyfforddiant Shirley Clarke. Mae mwy na chant o ysgolion wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg drwy brosiect Ein Llais Ni. Erys datblygu arweinyddiaeth yn flaenoriaeth drwy Raglenni Datblygu Arweinyddiaeth GwE.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr, athrawon ac aelodau staff yn cymryd rhan yn dda mewn dysgu proffesiynol, ac yn y rhan fwyaf o ysgolion rhennir gwybodaeth â chyd-weithwyr yn dilyn cyfleoedd hyfforddiant. Nodir dysgu proffesiynol yn glir ym mron pob ysgol drwy'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae llawer o arweinwyr wedi gofyn am gymorth i gynllunio a datblygu eu sgiliau eu hunain a sgiliau staff drwy:
- Gymorth gan yr YCG mewn cyfarfodydd staff, yn enwedig gyda datblygiadau Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygiad parhaus staff drwy raglenni cenedlaethol a rhanbarthol, e.e. Cymorthyddion Dysgu, Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG), Arweinyddiaeth, ac ati;
- Gweithio mewn clwstwr ac ar y cyd;
- Rhwydweithiau rhanbarthol a lleol;
- Cymorth gyda datblygu cynllunio 3-16 ar draws y clwstwr.

## ATEBOLRWYDD

- ***Sut ddylai atebolrwydd edrych?***
- ***Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?***
- ***Sut fydd adrodd yn edrych?***

Mae bron pob Pennaeth cynradd yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd a manwl ar gyfer llywodraethwyr. Llunnir y rhain drwy hunan arfarniad ysgol gyfan. Mae gweithdrefnau atebolrwydd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys plant a rhieni. Mae gan lawer o ysgolion amserlen fonitro ddrafft ar waith, yn gysylltiedig â blaenoriaethau Cynlluniau Datblygu Ysgol, sy'n cynnwys ystod o strategaethau monitro megis:
- Teithiau dysgu disgyblion a staff;
- Craffu ar lyfrau;
- Cyfweliadau ac holiaduron;
- Arsylwi gwersi yn unol â rheoli perfformiad;
- Arsylwi cymheiriaid a thrioedd.

Bydd gwaith clystyrau gyda'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn datblygu monitro clwstwr ymhellach, ac yn cyfrannu at ddatblygu cyd-atebolrwydd ar draws y clwstwr. Caiff y ddarpariaeth ADY ei monitro drwy hunan arfarnu yn erbyn cerrig milltir 'G6' a thrwy'r grŵp clwstwr ADY.

Mae'r pandemig wedi llesteirio gallu arweinwyr i ddatblygu monitro ac atebolrwydd y tymor hwn, ac nid yw llawer eto wedi gweithredu prosesau craffu ar lyfrau a rheoli perfformiad yn llawn yn eu hysgolion hyd yma.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth allweddol i bob ysgol eleni, a chaiff ei monitro drwy brosesau hunan arfarnu a monitro. Yn ychwanegol, bydd yr agweddau clwstwr ar y blaenoriaethau hyn yn cael eu monitro mewn cyfarfodydd clwstwr rheolaidd a bydd yr YCG cyswllt yn rhan o'r trafodaethau.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod eu hathrawon yn atebol am addasu, mireinio ac arbrofi efo'r addysgu ac yn ystyried egwyddorion a gofynion Cwricwlwm i Gymru drwy gyfarfodydd staff rheolaidd a gweithdrefnau arsylwi gwersi. O wneud hyn, bydd arweinwyr yn sicrhau cysondeb cyflymder wrth ymateb i'r daith ddiwygio ar draws eu hysgolion ac yn annog unigolion i fod yn arbrofi gyda strategaethau dysgu ac addysgu newydd a rhoi cynnig arnynt.

Mae nifer fawr o ysgolion yn sicrhau cyfleoedd i staff rannu'u gwaith drwy sgyrsiau proffesiynol penodol e.e. mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn helpu wrth sicrhau cysondeb ac adnabod yr arferion gorau.

Mae pob ysgol yn adrodd i lywodraethwyr a rhanddeiliaid ar y daith ddiwygio gan gynnwys effaith unrhyw weithredu neu dreialu dros y flwyddyn newydd.

## SECTOR UWCHRADD GAN GYNNWYS YSGOLION ARBENNIG PERTHNASOL AC UCD

## GRADDAU A BENNIR GAN GANOLFANNAU AR GYFER TGAU A SAFON UWCH 2021

***Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.' Cadarnhaodd hefyd y 'bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus'. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn am ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion i fyfyrio ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'***

Sicrhaodd bob ysgol a lleoliad bod gweithdrefnau mewnol yn bodloni'r gofynion ar gyfer dyfarnu cymwysterau a nodwyd gan Cymwysterau Cymru a CBAC yn 2021 ar gyfer y drefn Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Cyflwynwyd cynlluniau asesu - ac yn sgil gwneud addasiadau mewn rhai achosion - derbyniwyd pob un gan y corff dyfarnu. Cymrodd bob ysgol a lleoliad ran yn y sesiynau rhag-baratoi a gynhaliwyd gan y rhanbarth efo Cymwysterau Cymru a CBAC.

Adroddodd lawer o ysgolion bod Penaethiaid a staff wedi elwa o'r cydweithio o fewn eu cynghrair uwchradd i ymateb i ddisgwyliadau cenedlaethol a datblygu polisïau a phrosesau ar lefel ysgol. Llwyddodd hyn i sicrhau cysondeb a dealltwriaeth gyffredin.

Gofalodd bob ysgol rannu'r canllawiau gan y cyrff dyfarnu yn gyflym ac yn glir ymysg y staff dysgu, a gofyn am eglurhad pan roedd angen. Gan mwyaf - defnyddiodd yr ysgolion asesiadau a chynlluniau marcio cymeradwy CBAC yn llawn i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer y Graddau a Bennwyd. Sicrhaodd bob ysgol bod trefniadau mynediad priodol i ddysgwyr ag ADY, a rhoddwyd ystyriaeth arbennig ble'n briodol. Defnyddiodd bob ysgol ymarferion gweithdrefnau cymedroli mewnol i gefnogi gwaith cymedroli a safoni asesiadau. Aeth amryw o ysgolion ati i ddatblygu ar eu gwaith drwy gynghreiriau lleol gan ddefnyddio cymedroli traws-ysgol i gefnogi safoni mewnol. Dyma oedd yr achos ble mai un athro oedd yn dysgu pynciau neu ble roedd timau pynciol yn fach; nid oedd cymaint o angen mewn timau mwy o fewn ysgolion mwy.

Yn ystod y broses, roedd cryfder cyffredinol yn yr ysgolion o ran cyfleu a rhannu polisïau a disgwyliadau efo rhieni (drwy ohebiaeth ysgrifenedig a sesiynau briffio rhithiol). Roedd hyn yn gryfder arbennig ym mhrosesau'r ysgolion ac yn rhoi tryloywder i ysgolion am berfformiad presennol yn erbyn targedau a deilliannau disgwyliedig.

Roedd dysgu o bell effeithiol yn gymorth i'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad ddychwelyd i'r ysgol ym mis Ebrill 2021.

Roedd rhai problemau gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr. Gwelwyd bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn grŵp oedd yn achosi 'pryder' o safbwynt ymgysylltu a chynnydd. Mae perfformiad grwpiau o ddysgwyr, ac yn enwedig disgyblion PYD, yn dal yn flaenoriaeth i nifer o ysgolion.

Cynyddodd graddau A*-A yn sylweddol. Yn ôl llawer o ysgolion, roedd hyn i'w briodoli i ddiwydrwydd dysgwyr a'r defnydd effeithiol o adnoddau cenedlaethol a roddwyd iddynt i'w paratoi am yr asesiadau. Yn ogystal, roedd llawer o ddysgwyr wedi elwa o gael llai o ddeunyddiau a chynnwys i'w hadolygu, llai o

amser rhwng adolygu ac asesu fel eu bod nhw'n cofio'r dysgu i raddau mwy, llai o asesiadau ac asesiadau a gyflwynwyd o flaen llaw i ddisgyblion drwy wefan CBAC.

Aeth y rhan fwyaf o ysgolion ati i ddadansoddi amrywiad mewnol gan ddefnyddio llwyfannau technoleg gwybodaeth gan ddatblygu adolygiad cyffredinol o raddau myfyrwyr unigol yn erbyn eu proffiliau blwyddyn blaenorol. Edrychodd lawer o ysgolion yn agos ar eu gweithdrefnau gosod targedau a chasglu data i sicrhau cysondeb arferion. Roedd gosod targedau yn aml yn seiliedig ar ragamcanion FFT/sgôr CATS ac asesiadau mewnol. Defnyddiwyd 'ALPS' hefyd i gefnogi'r gwaith casglu data ac arfarnu ar lefel Chweched Dosbarth. Mewn llawer o ysgolion, gweithredir i roi sylw i faterion sydd wedi codi mewn rhai adrannau ble nad oedd y sylfaen ar gyfer dyfarnu graddau cyn gryfed neu ble gwelwyd anghysondebau. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio i sicrhau y bydd adrannau yn barod i gyflwyno sail dystiolaeth gref o asesiadau os bydd angen cynnal prosesau tebyg eleni.

Mae amryw o ysgolion wedi nodi bod lefelau llythrennedd yn isel ymysg grwpiau o ddysgwyr ac maent yn gweithredu i gefnogi a gwella hyn. Mae'n amlwg bod y cyfnodau clo wedi effeithio ar sgiliau Cymraeg dysgwyr, yn enwedig y rheiny o aelwydydd di-Gymraeg ac mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

## CWRICWLWM I GYMRU (CiG)

- ***Beth yw eich blaenoriaethau CiG fel ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?***

Ar ddechrau tymor yr Hydref, nododd bron i'r cyfan o'r 54 ysgol uwchradd/pob oed eu bwriad i gorffori'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n gynyddol anodd i gadw at yr amserlenni y maent wedi'u gosod i'w hunain oherwydd y pandemig. Mae llawer wedi cael anhawster yn ystod y tymor hwn oherwydd absenoldebau staff a diffyg llanw. Gall y trefniadau ar gyfer arholiadau'r Haf hefyd lesteirio ymhellach eu gallu i fynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022. Os bydd y pandemig yn parhau i amharu ar waith ysgolion wedi'r Nadolig, byddem yn rhagweld bod canran gynyddol o ysgolion uwchradd yn mynd ati i adolygu eu sefyllfa ac oedi tan 2023, o bosibl. Mae angen i ysgolion gadarnhau trefniadau efo Llywodraeth Cymru erbyn 8 Ebrill 2022.

Bu sicrhau bod cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn cael blaenoriaeth yn her i'r rhan fwyaf o ysgolion sydd mewn categori statudol dilyniant gan Estyn. Parheir i roi blaenoriaeth i gefnogi'r ysgolion hyn yn effeithiol.

Ym mron pob ysgol, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac mae camau gweithredu ar gyfer tymor yr Hydref yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol a nodir yn y ddogfen ddiwygiedig 'Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022'. Mae pob ysgol wedi nodi bod angen i staff, yn nhymor yr Hydref, ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith y Cwricwlwm a sicrhau bod athrawon yn cynllunio cynnydd o fewn/ar draws MDaPh a sgiliau trawsgwricwlaidd. Y tymor hwn, mae llawer o'r pwyslais ar ddatblygu dylunio'r cwricwlwm, dadbacio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws y camau cynnydd. Rhannwyd prosesau posibl a enghreifftiwyd yn y rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol â staff yn y rhan fwyaf o ysgolion i gefnogi'u cynllunio.

Dyma rai o'r blaenoriaethau CiG a nodwyd gan ysgolion uwchradd:
- cynllunio cynnydd mewn sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol;
- dylunio cwricwlwm lefel uchel;
- cynllunio a gweithredu'r MDaPh;
- asesu a chynnydd;
- datblygu ymhellach y 12 egwyddor addysgegol a dysgu digidol;

- cynnwys y gymuned, yn enwedig gyda dysgu yn yr awyr agored;
- gweithgareddau llais y disgybl yn cyfrannu at gynllunio datblygiadau;
- mae'r adnoddau yn cefnogi ethos y cwricwlwm newydd a datblygiad sgiliau;
- datblygu ar waith clwstwr gydag ysgolion cynradd partner a gweithio tuag at bontio llyfn yn y dysgu.

- ***Beth yw eich blaenoriaethau CiG fel clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Y tymor hwn, mae bron pob ysgol uwchradd wedi cydweithio â'u clystyrau cynradd i gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau wedi ail-ymweld â'u gweledigaeth ac wedi rhannu'u profiadau â rhwydweithiau rhanbarthol a lleol GwE. Mewn clystyrau eraill, mae athrawon uwchradd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd y clwstwr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg neu gydweithio'n effeithiol i ganolbwyntio ar sut i gyfleu cwricwlwm sy'n ddi-dor a ble mae cynnydd yn cael ei ddeall a'i ategu yn eu cynlluniau dysgu.

Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd; er hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws y rhanbarth a bydd angen targedu cynhaliaeth ymhellach i sicrhau ymgysylltiad effeithiol ar bob lefel. Mae gan arweinwyr uwchradd mewn rhai clystyrau waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn well â chreu a chytuno ar weledigaeth gyffredin a chyfeiriad penodol i'r clwstwr.

Mae'r rhain ymysg blaenoriaethau clwstwr Cwricwlwm i Gymru a nodwyd gan ysgolion uwchradd:
- Datblygu cynlluniau pontio effeithiol;
- Cynllunio gweithgareddau pontio sy'n cyd-fynd â dylunio Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Canolbwyntio ar Gamau Cynnydd 2-4 a'r continwwm 3-16;
- Edrych ar ddata a throsglwyddo gwybodaeth am ddysgwyr - beth sydd angen ei drosglwyddo a'i ddeall;
- ble nad yw ymgysylltiad wedi datblygu digon hyd yma, gweithredu i symud ymlaen ar hyn;
- Rhannu a datblygu elfen gyffredin i weledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad;
- Edrych ar ddulliau asesu y gellir eu defnyddio yn y dysgu a'r addysgu; sut i werthuso cynnydd;
- Diwrnod hyfforddiant ar y cyd i rannu cynlluniau a chynnydd;
- Datblygu gwaith ar feysydd cyffredin yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, gwaith ar y cyd ar ysgolion sy'n wybodus ynghylch trawma, dulliau addysgegol gydag Ieithoedd Tramor Modern; dulliau cyffredin gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.
- Cynllunio diwrnod hyfforddiant clwstwr ar y cyd i ganolbwyntio ar y cwricwlwm;
- Datblygu dull ymchwil sy'n seiliedig ar ymholi i'r clwstwr gyda chymorth y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

- ***Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru?***
  - ***Arwain newid***
  - ***Datblygu gweledigaeth a rennir***
  - ***Diwygio'r cwricwlwm***

Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar adeg prysur iawn i ysgolion uwchradd a oedd wrthi'n paratoi i ddyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Felly, roedd lefel yr ymgysylltu yn amrywio ar draws y rhanbarth. Bu'r rhan fwyaf o ysgolion ar o leiaf un o'r sesiynau hyn a defnyddiodd lawer recordiadau o'r hyfforddiant maes o law. Rhannodd lawer o ysgolion yr adnoddau ag aelodau'r UDA; roedd hyn yn heriol i rai a rhoddwyd ail gynnig arni yn ystod tymor yr Hydref gyda chymorth yr YCG a'r sesiynau wedi'u recordio. Defnyddiwyd rhai adnoddau, e.e. y rheiny sy'n ymwneud â'r weledigaeth neu ddylunio'r cwricwlwm, yn effeithiol mewn ysgolion.  Mewn un ysgol, er enghraifft, arweiniodd bob aelod o'r uwch staff weithdy gyda'r corff dysgu cyfan, mewn ysgol arall, rhannwyd a thrafodwyd canfyddiadau gydag uwch dimau arwain i lywio penderfyniadau. Mae llawer o ysgolion yn dal i ddefnyddio elfennau o'r cymorth hwn, er enghraifft defnyddio'r ap cynllunio taith, a defnyddio'r syniadau creu gweledigaeth i werthuso'r ddarpariaeth

bresennol yn erbyn y weledigaeth.

- ***Beth fydd rôl a chyfraniad eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?***

- Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi annog staff dynodedig i fod yn rhan o'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol Cwricwlwm i Gymru ac wedi cefnogi a hwyluso'r gwaith.
- Mae YCG wedi cefnogi datblygiadau unigryw Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion drwy roi arweiniad a chyfrannu at hyfforddiant a chyfarfodydd yn ôl anghenion a chynhwysedd yr ysgol.
- Mae Arweinydd Craidd/YCG yn cefnogi datblygiadau a dylunio'r cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd a'r clystyrau.
- Mae YCG pynciol wedi cefnogi Penaethiaid Pynciau Craidd gyda chynllunio Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh). O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth arweinwyr canol o'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac ystyriaethau cynllunio wedi gwella.
- Mae timau YCG yn parhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i staff, yn cyfrannu at ddiwrnodau datblygiad proffesiynol ac yn cefnogi gwaith y timau MDaPh i ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Mae YCG yn cefnogi uwch arweinwyr a llywodraethwyr i ddiweddaru cynlluniau ysgol gyfan ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd o 2022.
- Mae YCG yn codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ac a ddatblygir ac a rennir drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE.

- ***Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm***
  - ***yn eich ysgol?***
  - ***ar draws eich clwstwr?***

Mae pob ysgol yn mynd ati'n wahanol i 'ddylunio'r' cwricwlwm newydd. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn edrych yn agos ar ddatblygu gweledigaeth glir; mae rhai wedi edrych ar adnoddau cynllunio'r cwricwlwm ac wedi gofyn i adrannau gynllunio cynlluniau newydd gyda chyd-destunau gwreiddiol a sgiliau fel elfennau allweddol; mae eraill yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm drwy edrych yn wahanol ar addysgeg. Mae rhai wedi newid strwythurau staffio neu wedi penodi staff ychwanegol i gefnogi mentrau allweddol. Mae rhai wedi canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu cyd-destunau lleol a gwreiddiol i gefnogi'r dysgu. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o ysgolion wedi datblygu a gwreiddio dulliau addysgeg a dilyniant sgiliau effeithiol. Mae modd datblygu ar ddysgu mewn technoleg newydd ac addysgeg ddigidol er mwyn cefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd.

Mae rhai ysgolion yn datblygu ar waith y gweithdai consortiwm a gynhaliwyd yn yr Haf ac yn edrych yn agos ar ddylunio'r cwricwlwm, yn treialu mwy o waith mewn meysydd rhyngddisgyblaethol, ar draws Gwyddoniaeth a Thechnoleg neu ddeilliannau integredig mewn Celf Mynegiannol. Mae un ysgol wedi penodi athro ar gyfer lles ac wrthi'n datblygu cwricwlwm unigryw i'r ysgol yn y maes hwnnw. Mae eraill yn edrych ar ddyraniadau'r cwricwlwm drwy lens feirniadol ac yn gofyn beth sy'n addas i'r diben i ddysgwyr wrth symud ymlaen. Mae gan rai ysgolion gyfarfodydd Cwricwlwm i Gymru penodol i ddisodli'r cyfarfodydd adrannol hanesyddol. Mae mwy o bwyslais mewn ysgolion ar weithio ar draws adrannau. Mae rhai ysgolion wedi symud i ailstrwythuro eu staffio ar sail y MDaPh.

Mae rhai ysgolion hefyd yn edrych ar elfennau cwricwlwm eraill, e.e. sgiliau trawsgwricwlaidd, sgiliau cyfannol, themâu trawsbynciol a mapio cysylltiadau ar draws y cwricwlwm.
Mae llawer o ysgolion yn manteisio ar gynnig GwE ac yn defnyddio arbenigedd y consortiwm i gefnogi hyn. Rhennir syniadau ar draws ysgolion drwy rwydweithiau rhanbarthol a lleol. Er hynny, mae dylunio'r cwricwlwm yn dal yn faes allweddol i gael cymorth ac arweiniad.

- ***Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?***

Mae pob ysgol wrthi'n dilyn hyfforddiant a gweithgareddau datblygu dan arweiniad y consortiwm. Ar hyn o bryd, mae 44 ysgol uwchradd (88%) a 197 o athrawon uwchradd yn rhan o'r rhwydweithiau. Mae'r pedair ysgol 3-16 oed yn rhan gyda 22 o ymarferwyr yn cyfrannu.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- ***Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Yn ôl y rhan fwyaf o ysgolion, maent yn symud ymlaen yn dda tuag at weithredu. Yn y rhan fwyaf, mae ymwybyddiaeth dda iawn o'r diwygiadau a'r newidiadau a ddaw i'w canlyn ymysg staff a llywodraethwyr.

Dyma flaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY yng Nghymru mewn ysgolion uwchradd:
- Datblygu rôl y Cydgysylltydd ADY (CGADY) i fod yn arweinydd strategol;
- Adolygu a gorffen polisïau perthnasol;
- Sefydlu a chadarnhau gweithdrefnau hawl i apêl a rhannu efo rhieni;
- Datblygu arbenigedd a hyfforddiant ymhellach ymysg staff dysgu a chymorth;
- Datblygu darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu sy'n rhoi modd i ddysgwyr wneud cynnydd waeth beth yw eu man cychwyn;
- Datblygu gwahaniaethu a'r ddarpariaeth gyffredinol;
- Parhau i ddatblygu'r Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- Mynd ati i werthuso gwybodaeth arweinwyr ac ymarferwyr a'u defnydd o'r uchod i weld pa mor dda y mae'n bwydo i'r dysgu a'r addysgu;
- Sicrhau pontio llyfn o'r cynradd i'r uwchradd a bod cynlluniau pontio cadarn ar waith;
- Datblygu strategaethau i ddarparu darpariaeth dysgu ychwanegol yn y Gymraeg (mewn rhai Awdurdodau Lleol).

## DYSGU PROFFESIYNOL

- ***A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?***

Dyma'r anghenion dysgu proffesiynol sydd wedi'u nodi mewn ysgolion uwchradd:
- Cwricwlwm i Gymru: dyfnhau dealltwriaeth; 'datgloi' dylunio'r cwricwlwm; hyrwyddo dysgu ac addysgu da; datblygu a deall asesu a chynnydd;
- Deall sut i ddatblygu'r sgiliau sy'n sail i'r cwricwlwm newydd, e.e. rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol;
- Gweithredu diwygiadau ADY, gan gynnwys Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion/gwaith mapio darpariaeth ac edrych ar bontio ar draws clwstwr;
- Diwygio ADY - diweddaru staff a llywodraethwyr yn rheolaidd a thargedu DP i Gydgysylltwyr ADY a staff perthnasol;
- Strategaethau gwahaniaethu effeithiol;
- Datblygu ymhellach arweinwyr presennol a darpar arweinwyr drwy raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol, e.e. paratoi am CPCP, uwch arweinwyr, arweinwyr canol, arweinwyr ôl-16;
- Cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol (egwyddorion addysgegol);
- Datblygu cymell a mentora i uwch arweinwyr;
- Darparu hyfforddiant a chymorth i arweinwyr pynciau craidd newydd;
- Llywodraethwyr - hunan arfarnu ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- Cymorth gyda hunan arfarnu, prosesau monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- Cymorth i ddatblygu ac adfer sgiliau Cymraeg;

- Cymorth arbenigol i ddatblygu lles ac agweddau at ddysgu.

## ATEBOLRWYDD

- ***Sut ddylai atebolrwydd edrych?***
- ***Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?***
- ***Sut fydd adrodd yn edrych?***

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn bryderus am y diffyg eglurder ynghylch defnyddio mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer atebolrwydd a'r ansicrwydd ynghylch dyluniad a chynnwys y gyfres newydd o gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae cymorth ac arweiniad gyda deall y gofynion asesu a chofnodi cynnydd disgyblion ar gyfer y cwricwlwm newydd yn flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ysgolion.

Mae rhai ysgolion, yn enwedig y rheiny sydd â nifer uwch o PYD yn anghyfforddus efo'r 'gwagle' sydd wedi'i greu drwy dynnu data meincnodi ac yn pryderu y gallai perfformiad yr ysgol gael ei gamddehongli os na rhoddir ystyriaeth briodol i ffactorau cyd-destunol.

Ar y cyfan, mae ysgolion uwchradd yn gyfforddus efo symud at fodel atebolrwydd mwy deallus, gyda phwyslais ar 'wella' yn hytrach na 'phrofi'. Mae defnydd ysgolion o brosesau cadarn i olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn allweddol yn yr un modd ag y mae adnabod a rhoi sylw i amrywiad mewn ysgol.

Mae ysgolion yn dra ymwybodol o'r angen i ail sefydlu prosesau gwella ansawdd ac maent yn ymwybodol o'r heriau presennol wrth wneud hyn. Mae llawer o ysgolion wedi cynnal gweithgareddau gwella ansawdd i raddau wrth ddysgu o bell yn ystod cyfnodau clo. Mae rhai ysgolion wedi gwahodd YCG cyswllt GwE ac YCG pynciol i gefnogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol gyda gweithgareddau gwella ansawdd e.e. arsylwi gwersi, adolygu dogfennau, craffu ar lyfrau, mynd i gyfarfodydd bugeiliol ac adolygu pynciol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach yn symud yn ôl at system gadarnach o brosesau Sicrhau Ansawdd ac mae ganddynt ddarlun gliriach o ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau.

Mae bron pob ysgol wrthi'n trafod efo partneriaid i sefydlu Cynghreiriau ac maent yn awyddus i gydio neu ail-gydio ag adolygu cymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Derbynnir bod rôl a chyfraniad adolygu cymheiriaid a dilysu cadarn yn dyngedfennol wrth symud ymlaen.

Cryfhawyd y broses o wrando ar lais dysgwyr yn ystod y pandemig ac erys yn elfen bwysig a dylanwadol o fesurau mewnol i bron bob ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu ym mron pob ysgol wedi cael diweddariad ar ddatblygiadau yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar wella ysgolion gan gynnwys dysgu ac addysgu, Cwricwlwm i Gymru a'i effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau.

## CRYNODEB O GYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GWE I YSGOLION

Drwy ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol effeithiol, cefnogwyd ysgolion ar draws y ddau sector i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm cychwynnol. Mae arweinwyr ac athrawon ar draws mwyafrif helaeth yr ysgolion wrthi'n arbrofi gyda dulliau i ddatblygu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau i'w disgyblion. Mae cynllunio ar lefel ysgol a chlwstwr yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o'r datganiadau o'r 'hyn sy'n bwysig' a sut y dylai'r 12 egwyddor addysgegol ategu'r dulliau addysgu.

Mae rhwydweithiau a fforymau lleol a rhanbarthol yn effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm. Mae mwy na 700 o staff ac ymarferwyr ysgolion y rhanbarth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i roi sylw i hyn ar lefel ysgol gyfan a MDaPh. Mae GwE hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach datblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r consortia rhanbarthol wedi buddsoddi'n fawr mewn darparu dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd. Egwyddor graidd y cynnig fu datblygu cynhwysedd sefydliadol fel 'sefydliad sy'n dysgu' a chaniatáu i arweinwyr fyfyrio'n fwy effeithiol ar yr heriau a ddaw wrth arwain newid. Mewn llawer o ysgolion ar draws rhanbarth GwE cyn y cyfnod clo, bu athrawon wrthi'n dechrau treialu gyda'r Cwricwlwm i Gymru, drwy ddod yn gyfarwydd yn gyntaf oll â'i gynnwys. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon wedi dechrau arbrofi gyda ffyrdd newydd o gynllunio, dysgu ac addysgu. Yn ystod y pandemig, mae athrawon ar draws y rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau yn gysylltiedig â'r pedwar diben. Er enghraifft, parhawyd â'r pwyslais cryf ar sgiliau a lles drwy gydol cyfnod y clo a chwyldrowyd sgiliau digidol dysgwyr, rhieni a staff ysgolion. Mae arweinwyr ar draws y rhanbarth eisoes wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i ddatblygu sgiliau staff wrth iddynt gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Ble defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn effeithiol, mae arweinwyr wedi cynllunio ffyrdd ymarferol a difyr i'w defnyddio e.e. Papurau Procio, cyflwyniadau PowerPoint a gweminarau i brocio trafodaethau ysgogol mewn cyfarfodydd staff wythnosol, yn aml gyda chymorth yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Ar draws y rhanbarth, bu llawer o athrawon mewn gweithdai Cwricwlwm i Gymru GwE ac mae amryw o ysgolion bellach yn gweithredu'r syniadau a'r dulliau a rannwyd. Manteisiodd ein cydweithwyr o ranbarthau eraill a swyddogion awdurdodau lleol Gogledd Cymru ar y cyfleoedd Dysgu Proffesiynol hyn hefyd.

Amlinellir isod Cynnig Proffesiynol GwE i ysgolion a chlystyrau:

- mae egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi'u gwreiddio yn yr holl hyfforddiant, ac mae pedwar diben y cwricwlwm wastad yn allweddol wrth i ddarparwyr fynd ati i gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfoes a heriol.
- rydym wedi cynnwys yr holl agweddau ar y diwygio ehangach yn ein cynnig DP, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- mae adnoddau a meysydd dysgu proffesiynol yn cynnwys y deuddeg Egwyddor Addysgegol yng nghyd-destun ehangach dysgu ac addysgu, asesu, rhwydweithiau MDaPh rhanbarthol, a dylunio a chynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol.
- bwriad y cynnig ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, ond canolbwyntiwyd yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn: Arwain newid; Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd; Datblygu gweledigaeth a rennir; Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu; Arwain addysgeg; Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol. Mae'r

sesiynau hyn yn rhai clwstwr ac yn galluogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y cwricwlwm newydd ar draws y continwwm dysgu 3-16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o Uwch Arweinwyr yn y sesiynau Arwain Newid hyn. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, bu GwE yn cynnal cyfres o sesiynau dros gyfnod o dair wythnos i uwch arweinwyr, yn canolbwyntio ar themâu datblygu gweledigaeth gyffredin a chynllunio ar gyfer newid cwricwlwm, gan gynnwys dylunio'r cwricwlwm. Cynhaliwyd y sesiynau hyn yn ddigidol fesul clwstwr a bu modd rhannu'n grwpiau llai i ysgolion drafod y gwaith hwn o fewn eu rhwydweithiau lleol. Bu mwy na 1150 o uwch arweinwyr yn y sesiynau ar draws y rhanbarth.

- Yn rhan o'r paratoadau, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau ble mae ysgolion mewn clwstwr yn cael cyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Adnabuwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae llawer o'r clystyrau hefyd wedi datblygu Cynllun Datblygu Clwstwr ar gyfer gweithredu'r daith ddiwygio.
- Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol a nodir uchod, mae cymorth penodol ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.
- Mae adnoddau ategol yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' a ddatblygwyd gan dîm GwE, yn rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol efo'r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Gwahoddwyd yr holl uwch arweinwyr i weminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y 'Papurau Procio'.
- Mae'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru a sefydlwyd ar lefel ranbarthol a lleol yn agwedd allweddol ar y cynnig cymorth. Mae ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid yn cefnogi datblygiad y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh), asesu a dylunio'r cwricwlwm. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhaeadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu at ddatblygu modelau cynllunio a dylunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd grŵp strategol rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALl, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith. Mae gan rwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng Ngogledd Cymru. Yn ystod Tymor yr Hydref 2021, cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol a mwy na 80 o gyfarfodydd lleol gyda 272 o ysgolion ac ymhell dros 700 o ymarferwyr. Caiff yr holl adnoddau a gynhyrchir eu rhannu â phob ysgol drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a rhennir gwybodaeth â phob grŵp clwstwr cynradd/uwchradd.
- Mae GwE hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach datblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.
- Mae gan ysgolion fynediad at gyfres o gerrig milltir o fewn system rheoli gwybodaeth y rhanbarth sydd yn rhoi modd iddynt fyfyrio ar eu cynnydd ar hyd y daith ddiwygio. Croesawyd y cerrig milltir hyn yn fawr gan ysgolion.
- Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i fod yn fan cyfeirio i bob lleoliad, ac rydym wrthi'n gweithio ar wella a chyfoethogi'r casgliad o adnoddau ymhellach. Hyd yma, cafwyd mwy nag 75,000 ymweliad â'r wefan.
- Mae GwE hefyd yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i ddatblygu fframwaith o ddangosyddion ansoddol a fydd yn rhoi modd i ysgolion feddwl a gwerthuso sut maent yn gweithredu

pedwar diben y cwricwlwm newydd.

GwE

Collaborating · Learning · Succeeding

**STRATEGAETH RANBARTHOL**

**Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr**

**CYD-DESTUN**

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda ddiwygio.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ddeunaw mis yn ôl. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn gallu dysgu yn effeithiol. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ystyrlon yn eu dysgu. Mae rhoi ffocws ar ddilyniant yn flaengar, gan bwysleisio'r hyn sydd ar ddysgwyr ei angen i gyflawni'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae hyn yn osgoi model ar sail diffyg, sy'n canolbwyntio ar 'ddal i fyny'. Mae trefniadau asesu priodol yn sail i'r dilyniant hwn, gan ein helpu i adnabod, gweld a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu asesu ffurfiannol a chrynodol wrth iddynt gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen efo'u cynlluniau presennol i weithredu'r cwricwlwm newydd efo blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn parhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Y tu hwnt i 2023, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru fesul blwyddyn, a dyfernir y cymwysterau cyntaf sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn academaidd 2026-27, fel y bwriadwyd. Bydd diwygio cymwysterau yn chwarae rhan greiddiol yn llwyddiant y cwricwlwm, a bydd GwE yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru dros y flwyddyn nesaf i helpu i siapio set o gymwysterau o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd ag athroniaeth y cwricwlwm newydd.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn credu'n gryf ei bod yn hynod bwysig bod arweinwyr a staff ym mhob sefydliad yn cael eu hannog a'u cefnogi i greu partneriaethau cryf ac effeithiol o fewn ac ar draws y system addysg. Mae ein dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio clwstwr/cynghrair i weithredu ar feysydd diwygio gweddnewidiol allweddol, megis datblygu'r cwricwlwm, ADY a'r Gymraeg. Fe'i defnyddiwyd yn effeithiol hefyd i rannu adnoddau ac arferion effeithiol yn ystod pandemig COVID-19. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i barhau â'r gwaith hwn ac i ddatblygu a gwreiddio rhaglenni partneriaeth strwythuredig a threfnus, seiliedig ar dystiolaeth. Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion ac UauCD i sicrhau bod ymgysylltu â chymheiriaid a chydweithio yn greiddiol wrth i ni fynd ati i ddatblygu system hunan wella gadarn, gynaliadwy ac effeithiol.

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth y Gweinidog, fel yr amlinellir yn ' *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026',* sef creu dinasyddion dwyieithog sy’n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth efo'r chwe Awdurdod Lleol i sicrhau bod ysgolion ac UauCD wedi'u cefnogi'n llawn i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'r dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r ddogfen *'Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022 ',* sy'n nodi'r disgwyliadau ar ysgolion i ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd GwE yn cefnogi rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm o'r hydref ymlaen. Bydd ysgolion y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol i ddatblygu arferion effeithiol i ddatgloi potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a datblygu dylunio ac asesu cwricwlwm ysgol gyfan.

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol. Bydd pob ysgol a nodir yn ysgol sy'n destun pryder yn cael cynllun cefnogaeth 360 cyfannol yn nodi'n glir natur a dwyster y cymorth a roddir naill ai gan GwE neu'r gwasanaeth Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu. Amlinellir y broses hon yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng bob Awdurdod Lleol a'i

ysgolion. Bydd pob ysgol sy'n destun pryder yn rhan o weithio clwstwr/cynghrair a fydd hefyd yn cyfrannu tuag at eu taith wella.

Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, Estyn a Cymwysterau Cymru i ddylanwadu ar bolisi, Fframwaith newydd Estyn a diwygio cymwysterau i sicrhau ein bod yn cyfrannu at weithredu blaenoriaethau'r Gweinidog.

**THEMÂU**

Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod y themâu canlynol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n UauCD.

**Y Daith Ddiwygio / Gwireddu Cwricwlwm**

- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.
- Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol
- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol ac ymchwil weithredu.
- Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth ysgolion o egwyddorion allweddol y canllawiau asesu newydd.
- Sicrhau cymorth i ysgolion mewn perthynas â Dylunio'r Cwricwlwm ysgol gyfan ac o fewn MDaPh.

**Ailgydio mewn dysgu (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau) [RRRS]**

- Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lleihau effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad disgyblion yn eu darllen a'u hysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.
- Strategaeth addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd i helpu disgyblion i wella'u rhuglder a'u cynnydd mewn mathemateg.
- Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgolion a rhieni fel bod modd defnyddio'r ymyraethau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant.
- Parhau i ddatblygu a chynhyrchu cyfres o ddeunyddiau cymorth cyffredinol ar gyfer rhifedd a llythrennedd uwchradd

**Strategaeth i gefnogi rhieni / gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu**

- Datblygu pecyn cyfannol sydd yn cefnogi ac yn helpu rhieni a gofalwyr i drawsffurfio eu dealltwriaeth o'r dysgu, a'r hyn gallant ei wneud i helpu eu plentyn.
- Datblygu cwrs cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n rhoi iddynt yr holl adnoddau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i helpu eu plant i ddysgu gartref.
- Rhoi canllawiau ysgrifenedig sydd yn cynnwys strategaethau a thechnegau y gall rhieni / gofalwyr eu defnyddio i gefnogi eu plentyn i ddysgu.
- Darparu strategaethau, gweithgareddau a thechnegau ymarferol y gall rhieni a gofalwyr eu defnyddio i helpu eu plant i ddysgu

- Datblygu ac addasu adnoddau yn briodol i fodloni anghenion grwpiau penodol o rieni a gofalwyr.
- Adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau presennol yn llwyr gefnogi a bodloni anghenion lleol a rhanbarthol yn effeithiol.

**Lles dysgwyr a lles ysgol gyfan**

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion ar adnabod, cefnogi ac ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghymesur arnynt.
- Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.
- Datblygu dull llesiant ysgol gyfan, gan hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus yng Nghymru'.
- Cyd-greu adnoddau llesiant ysgol gyfan efo ysgolion ar draws y rhanbarth

**Lles y gweithlu (GwE ac ysgolion)**

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Cynnal lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun ei rôl broffesiynol
- Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.
- Defnyddio fframwaith hyfforddi (*coaching*) mewn sgyrsiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd i ddatgloi potensial ac annog unigolion i ddatblygu.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:

- Cefnogi'r broses o adolygu ansawdd darpariaeth ADY
- Datblygu cynnig dysgu proffesiynol sy'n bodloni anghenion y gweithlu.
- Parhau i gefnogi clystyrau i ddatblygu cynlluniau arloesol i gyflawni nodau trawsnewid ADY.
- Parhau i gefnogi gyda darparu'r rhaglen gymorth a hyfforddiant i ysgolion

**Y Gymraeg**

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol byddwn yn gweithredu *'Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026'* Llywodraeth Cymru:

- Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg trwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.
- Darparu cynnig proffesiynol ar gyfer yr Iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth.
- Cynnig dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf i wella sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg.

- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pob Awdurdod Lleol gyda'i flaenoriaethau CSCA.

**Datblygu arweinyddiaeth**

- Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arferion a chydweithio ar bob lefel er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.
- Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
- Parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i ddatblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol:
  - Arweinwyr Canol
  - Uwch Arweinwyr
  - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)
  - Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro
  - Penaethiaid Profiadol

**Digidol**


- Sicrhau bod dealltwriaeth ysgolion y rhanbarth o gadernid digidol yn gyfredol, a bod dysgu ac addysgu am faterion diogelwch digidol yn bwrpasol ac yn effeithiol.
- Datblygu arweinyddiaeth ddigidol effeithiol yn ysgolion y rhanbarth i gryfhau dulliau strategol o gynllunio gwelliant, rheoli newid a monitro effaith.
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i holl staff ysgolion i'w hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb, a sut i ddefnyddio'r adnoddau yn effeithiol i wella ansawdd y dysgu.

**Dysgu Proffesiynol**

- Darparu dysgu proffesiynol, cymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd.
- Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau, sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora.

**ESBLYGU'R MODEL RHANBARTHOL**


Mae rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn dal i esblygu wrth i ni barhau i fodloni anghenion a disgwyliadau ein holl randdeiliaid. Bydd ein dull gweithredu yn cefnogi lles a chynnydd dysgwyr drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y system er mwyn galluogi adnewyddu a diwygio. Gyda'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn, bydd ymgynghorwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi Llywodraeth Cymru i adnewyddu addysg ar ôl y pandemig a sicrhau bod y daith ddiwygio yn aros ar drac.




Yn sail i'r ddwy agwedd graidd ar ein gwaith wrth symud ymlaen, sef y daith ddiwygio a gwella ysgol, y mae pum maes gwaith:

- Cydweithredu
- Data Cyfoethog i lywio Hunan Arfarnu
- Cymorth Dwys pan fydd angen
- Dysgu Proffesiynol
- Cyfathrebu

Bydd Swyddogaeth Graidd y gwaith yn cynnwys dull partneriaeth rhanbarthol, gydag ysgolion yn cydweithio ac ysgolion yn gweithio'n unigol.  Rhydd hyn hyblygrwydd lleol o ran y model darparu.



Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fodloni gofynion a disgwyliadau rhanddeiliaid, bydd angen i'n model partneriaeth ysgol esblygu ymhellach. Gydag ysgolion, clystyrau a chynghreiriau ar wahanol bwyntiau ar y continwwm hunan wella, bydd angen defnyddio dull fwy gofalus.

Y prif ffocws yw galluogi ysgolion i wella trwy ddatblygu system hunan wella o safon uchel, sy'n sicrhau'r gorau i bob plentyn.

Bydd y trefniadau ar bob lefel yn drylwyr, cadarn a chydlynol. Yn sail i'r trefniadau hyn y mae'r egwyddor o annog a chefnogi ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gymryd perchenogaeth ac atebolrwydd cynyddol am eu taith wella.

Byddwn yn sicrhau bod y dull rhanbarthol ar gyfer partneriaeth ysgol yn:

- Deg: ble byddwn yn hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, a byth yn colli golwg ar y dysgwr.
- Cydlynol: ble bydd ysgolion a GwE yn gweithio gyda'i gilydd gyda dyletswyddau craidd, rolau a disgwyliadau a bennir yn lleol.
- Cymesur: ble byddwn yn sicrhau bod gennym ni fodel hylaw sy'n gwneud gwahaniaeth i bob ysgol. Bydd ein dull yn cefnogi mwy o ymreolaeth i'r ysgolion, y clystyrau a'r cynghreiriau hynny sydd â'r gallu i hunan wella, ar yr un pryd â chytuno ar becyn cymorth mwy cynhwysfawr a dwys i ysgolion sy'n wynebu heriau penodol ar adeg benodol, ac am gyfnod penodol.
- Ar y cyd: ble nad oes yr un ysgol yn gweld ei hunan fel ynys. Trwy weithio gyda'i gilydd mewn dull strwythuredig, gall ysgolion wella'n gynt ac yn fwy cynaliadwy. Bydd cydweithio â chymheiriaid ac ymgysylltu â chymheiriaid yn nodwedd ganolog o'n model. Bydd pob partner allweddol yn mynd ati i ddatblygu cyd-effeithiolrwydd yn seiliedig ar dryloywder, gonestrwydd, bod yn agored ac ymddiriedaeth uchel. Mae a wnelo â phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i greu capasiti yn y system drwy brosesau a gweithgareddau cyfoethogi ansawdd.
- Tryloyw: ble byddwn yn cydnabod ehanger profiadau dysgu ar draws y rhanbarth a gwerth ychwanegol ysgolion, arweinwyr, athrawon, staff cymorth ac ymgynghorwyr, sy'n gweithio gyda'i gilydd at ddiben cyffredin cytûn.

Wrth i ni symud ymlaen gyda chynllunio a chyflwyno'r daith ddiwygio, bydd ein dull partneriaeth ysgol yn creu hyblygrwydd i ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gytuno ar ddyletswyddau craidd ar gyfer:

- gwaith datblygiadol ar y cyd
- dulliau o gefnogi gwelliannau mewn ysgolion unigol o fewn eu clwstwr / cynghrair
- prosesau adrodd ac atebolrwydd

Rhoddir hyblygrwydd hefyd i glystyrau a chynghreiriau gytuno ar swyddogaeth graidd a chyfraniad GwE i'r tair agwedd a nodwyd uchod. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod ganddo'r gallu i gyflawni nifer o'r swyddogaethau craidd, darperir adnoddau i gefnogi gyda'r gwaith hwn a bydd cyfraniad GwE yn gymesur. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod angen i GwE gyflawni cyfran uwch o'r swyddogaethau craidd, bydd lefel yr adnoddau a neilltuir yn gymesur. Gallai cyfraniad GwE gynnwys:

- Arwain neu gymryd rhan mewn cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gyfoethogi ansawdd
- Arwain neu gyfrannu i waith datblygiadol
- Hyfforddi neu fentora grwpiau neu unigolion
- Hwyluso gweithgareddau cydweithredol clystyrau / cynghreiriau
- Arwain ar ddatblygiad proffesiynol ysgol gyfan neu glwstwr / cynghrair
- Darparu pecyn cymorth fwy dwys ar gyfer ysgolion unigol o fewn clwstwr / cynghrair
- Cyfraniadau rôl arbenigol
- Cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu
- Cyfeirio a rhannu arferion gorau

Diffinnir rolau a chyfraniadau o fewn 'cytundeb partneriaeth' clwstwr / cynghrair, a fydd yn cael ei adolygu a'i werthuso ar ddiwedd y flwyddyn (gweler y Ffeithlun isod).

**CYNLLUN PARTNERIAETH YSGOLION**

| Diben Craidd | Cyd-ddatblygu | | Cefnogi Gwelliant | | Atebolrwydd ac Adrodd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Be?* | *Sut?* | *Be?* | *Sut?* | *Be?* | *Sut?* |
| **Clwstwr** | | | | | | |
| **Ysgolion Unigol** | | | | | | |
| **GwE** | | | | | | |
| **DEILLIANNAU DISGWYLIEDIG SYDD WEDI EU HADNABOD GAN Y BARTNERIAETH** | | | | | | |

**ADNODD CYTUNEDIG GWE AR GYFER Y BARTNERIAETH**

**£xxxx**


Er mwyn cryfhau datblygiad y cwricwlwm newydd, fe sefydlir rhwydweithiau datblygu MDaPh yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr yn cydweithio i ddatgloi potensial bob MDaPh drwy fodelu, cynllunio a rhannu arferion cwricwlwm.

Bydd rhwydweithiau cydweithredol yn gweithio ar y meysydd a ganlyn:

1. Datgloi potensial un o'r MDaPh
   - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
   - Mathemateg a Rhifedd
   - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
   - Y Dyniaethau
   - Iechyd a Lles
   - Y Celfyddydau Mynegiannol

2 Asesu
3 Cynllunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan

Bydd ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cael cyfle i gydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid, yn cefnogi cynllunio cwricwlwm a datblygu MDaPh yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhaeadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu i ddatblygu modelau cynllunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd egwyddor isreolaeth yn sicrhau cyd-destun lleol i'r gwaith hwn.




Fe sefydlir wyth rhwydwaith MDaPh lleol ym mhob Awdurdod Lleol, un ar gyfer bob un o'r meysydd a nodwyd uchod. Bydd unigolion o'r grwpiau lleol hyn yn cynrychioli'r ALl mewn wyth rhwydwaith MDaPh rhanbarthol, gan sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth. Bydd grŵp strategol rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALl, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith.

Bydd gan rwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDaPh effeithiol a fydd yn cefnogi ysgolion ar eu Taith Ddiwygio.

## Adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol

Credwn yn gryf yma yng ngogledd Cymru y dylai adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol fod yn sbardun allweddol ar gyfer gwelliant parhaus mewn ysgolion wrth iddynt gynllunio ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd a'r diwygio cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion ac UauCD i wreiddio rhaglen o adolygu gan gymheiriaid ar sail y prosesau a ganlyn:

- ***Hunan adolygiad*** : dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda y mae'r ysgol yn adnabod ei hunan, a chael ei arwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwyr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o sefydliad sy'n dysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at wireddu'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar ei thaith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.
- ***Adolygiad gan gymheiriaid*** : mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau, a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu â'r ysgol. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.
- ***Cymorth Ysgol i Ysgol*** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad ei hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Pan fo staff yn berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu capasiti ymhellach a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r partneriaethau a ddatblygir felly fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

**Ysgolion sy'n Destun Pryder**

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol.

Bydd **Grŵp Amlasiantaethol** yn cyfarfod yn rheolaidd (yn fisol, neu fel bo'r angen) i:

- Adnabod yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o achosi pryder
- Cytuno â'r ysgol ar y cynllun cymorth 360 unigryw. Bydd cynlluniau yn nodi'n glir pa wasanaeth a fydd yn darparu cymorth ac adnoddau yn erbyn camau gweithredu penodol.
- Cytuno ar drefniadau monitro'r cynlluniau 360.
- Arfarnu effeithiolrwydd y cynlluniau cymorth 360 a gweithio efo ysgolion i fonitro cynnydd ac effaith
- Rhannu unrhyw arferion effeithiol o fewn ac ar draws awdurdodau lleol y rhanbarth
- Pan fo pryderon yn dwysáu, bydd y Grŵp Amlasiantaethol yn adrodd i'r Bwrdd Ansawdd fel y gall y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth wneud penderfyniad gwybodus ac amserol ynghylch defnyddio pwerau ymyrraeth statudol.

Bydd **Bwrdd Ansawdd yr ALl** yn cyfarfod bob hanner tymor, a'r Prif Swyddog Addysg fydd y Cadeirydd. Dylid cofnodi penderfyniadau gweithredu'r Bwrdd a'u rhannu â'r Grŵp Amlasiantaethol neu'r gwasanaeth cefnogi fel y bo'n berthnasol.

Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio fwyaf ar:


- Asesu cynnydd yr ysgolion hynny sy'n destun pryder a gafodd eu hadnabod gan Estyn neu brosesau lleol.
- Asesu ansawdd y cynllunio cymorth ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder a wneir gan y Grŵp Amlasiantaethol
- Sicrhau bod y Grŵp Amlasiantaethol yn cyflawni ei ddyletswyddau monitro yn effeithiol.
- Gweithredu'n briodol pan fydd y Grŵp Amlasiantaethol yn rhannu bod pryderon wedi'u huwchgyfeirio, ac yn benodol am allu arweinyddiaeth a llywodraethiant ysgol i wella ar gyflymder digonol.
- Ystyried defnyddio pwerau ymyrraeth statudol pan fo pryderon am gynnydd, neu gyflymder cynnydd
- Adnabod yr arferion gorau i'w rhannu o fewn ac ar draws awdurdodau lleol

Lle mae angen, gallai'r awdurdod lleol hefyd sefydlu **Bwrdd Gwella Carlam** i gefnogi ysgolion unigol ar eu taith wella. Bydd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, GwE, y pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol. Pwrpas y BGC fydd:

- Darparu cymorth ar gyfer gwella ysgolion
- Darparu fforwm her, mewnol ac allanol
- Adnabod unrhyw bryderon
- Adnabod unrhyw weithredu i'w flaenoriaethu
- Hysbysu'r Pennaeth Addysg ymhellach a oes angen i'r ALl ddefnyddio ei bwerau ymyrraeth

Ceir crynodeb isod o'r strwythurau a'r prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder:

**Strwythurau a phrosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi YAC.**



**Dyletswyddau Statudol ac Atebolrwydd**

Bydd Arweinydd Craidd GwE a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio mewn partneriaeth efo swyddogion Awdurdod Lleol i weithredu'r *Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol-Ysgol* . Arweinydd Craidd GwE ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant fydd yn monitro ac arfarnu safonau cyffredinol ac ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth, gan weithio mewn partneriaeth efo ysgolion a chlystyrau. Fodd bynnag, bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio efo ysgolion i esblygu'r system atebolrwydd bresennol er mwyn galluogi ysgolion a chlystyrau i gael mwy o ymreolaeth. Bydd adolygu gan gymheiriaid yn elfen allweddol wrth gefnogi ysgolion i arfarnu eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwelliant, a'u helpu i ganolbwyntio ar feysydd gwelliant penodol wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm newydd a'i ddarparu.

Wrth symud tuag at system sy'n hunan wella, bydd mwy o bwyslais ar atebolrwydd moesol a phroffesiynol. Bydd perthnasau atebolrwydd ysgol yn cynnwys y rheiny gyda disgyblion, rhieni, cyd-weithwyr a'r gymuned leol. Yr her i ni dros y blynyddoedd nesaf fydd creu diwylliant ble mae ysgolion yn teimlo bod ganddynt fwy o berchenogaeth ar atebolrwydd, a newid y syniad bod atebolrwydd yn seiliedig ar ddata ac arolygiad yn unig a'i fod yn cael ei weithredu gan rywun uwch eu pen.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion i ddatblygu system atebolrwydd gadarn, system sydd gan randdeiliaid allweddol ffydd ynddi ac sydd yn dal bob partner yn gwbl atebol am ei rôl yn datblygu ein dysgwyr i ddod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Disgwyliadau system yng ngogledd Cymru**

Erbyn mis Medi 2024:

- Bydd bob ysgol yn bodloni gofynion statudol *Cwricwlwm i Gymru,* a bydd gan bob ysgol berthynas gref efo'i chymuned ac yn datblygu ystod eang o sgiliau dysgwr a fydd yn eu gwneud yn barod ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

- Bydd cynllunio ar sail pedwar diben y cwricwlwm newydd yn darparu cynnig cytbwys i fodloni anghenion pob dysgwr.

- Bydd strategaeth sgiliau sylfaenol sydd yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sail i gwricwlwm bob ysgol.

- Bydd strategaeth i blant bregus i ddysgu yn weithredol, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, eu lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, a bydd y strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.

- Byddwn wedi cydweithio gyda ysgolion ac awdurdodau lleol i fabwysiadu model atebolrwydd newydd, a fydd yn cynnwys prosesau grymus i sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar bob lefel ar gyfer gwelliannau a datblygiadau ysgol rhanbarthol.

- Bydd strategaeth effeithiol ar waith ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder, gyda'r capasiti priodol i adnabod a mynd i'r afael ag angen.

- Bydd gwella addysgu wrth wraidd pob gwelliant.

- Bydd cydweithio aeddfed rhwng ysgolion mewn clystyrau a chynghreiriau ar draws y rhanbarth, a byddant yn cymryd cyd-berchnogaeth dros wella ysgolion ei gilydd i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.

- Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg grymus ar waith i lwyr gefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwella sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr a'r gweithlu.

- Bydd cynllun dysgu proffesiynol cadarn mewn lle sy'n bodloni anghenion arweinwyr a staff addysgu, a hynny er mwyn helpu ysgolion i weithredu bob agwedd ar y daith ddiwygio a galluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm newydd.

- Bydd GwE yn gweithredu'n effeithiol fel sefydliad sy'n dysgu, yn unol â'r saith dimensiwn 'gweithredu' fel y nodir gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD], a bydd gennym bartneriaethau cryf ac aeddfed gyda'n randdeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys strategaeth gyfathrebu glir.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2021-2022

# Data Rhanbarthol ac ALl Ynys Môn

# Chwarter 4

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

CYNLLUN BUSNES 2021-2022

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022**

**Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol**

**AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**CONTINWWM ADDYSG 3 I 16**

**Data rhanbarthol:**

**GwE a phrosiect Shirley Clarke**

Cyfanswm ysgolion ar draws y rhanbarth sydd wedi cymryd rhan yn Haenau 1, 2 a 3

| | **Ysgolion** | **Athrawon** |
|---|---|---|
| Haen 1 | 27 | 54 |
| Haen 2 | 193 | 386 |
| Haen 3 | 140 | 261 |
| **Cyfanswm** | **260** | **701** |

- 89% o ysgolion y rhanbarth
- 96% Cynradd
- 80% Uwchradd
- 70% Arbennig

Mynychodd dros 1000 o athrawon ar draws y rhanbarth sesiwn gwyll Shirley Clarke ar 12/10/2022. Methu cael nifer pendant gan fod ysgolion cyfan yn mynychu o dan un enw er mwyn sicrhau y gallai pawb fynychu ar Zoom.

**Data Awdurdod Lleol:**

Sesiwn gwyll Shirley Clarke ar 12/10/2022.

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 19% |

**GWIREDDU CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Data rhanbarthol:**

**Nifer sydd wedi mynychu sesiynau Dylunio Cwricwlwm**

- Uwchradd: 101
- Cynradd: 504
- Arbennig ac UCD: 1
- Eraill e.e. Estyn, Consortia: 8

**Nifer sydd wedi mynychu sesiynau Cynradd ac asesu**

- Uwchradd: 141
- Cynradd: 620
- Arbennig ac UCD: 18
- Eraill e.e. Estyn, Consortia: 11

**Sesiynau ar Egwyddorion Cynllunio**

**Data Awdurdod Lleol:**

| **% sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor** | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 91.3% |

- ar ôl y Pasg.

**Canolfan Gefnogaeth GwE (ar 24/3/22)**

- Nifer sydd wedi edrych ar y wefan - 122k
- Lawrlwythiadau ffeil 23k

**Nifer sydd wedi ymweld â'r adran Cwricwlwm i Gymru ar y wefan (ar 24/3/22)**

- Curriculum for Wales - 2,845
- Cwricwlwm i Gymru - 2,674
- Curriculum Design- 856
- Dylunio Cwricwlwm - 1002

**TIMAU MDaPh**

**Data rhanbarthol (13/10/2021)**

Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu i'r rhaglen gymorth barhaus i ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Asesu | 120 |
| Cynllunio Cwricwlwm | 153 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 89 |
| Iechyd a Lles | 88 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 118 |
| Mathemateg a Rhifedd | 86 |
| Y Celfyddydau Mynegiannol | 81 |
| Y Dyniaethau | 69 |

**<u>Presenoldeb mewn cyfarfod rhanbarthol</u>**

21/9/21 – 132
6/10/21- 115
16/11/21 – 117
14/12/21 – 130
2/3/22 – 116
5/4/22 – 112

**Data Awdurdod Lleol:**

Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu i'r rhaglen gymorth barhaus i ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:

| ALl | Nifer |
|---|---|
| Ynys Môn | 106 |

**AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL**

**Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion**

**IEITHOEDD TRAMOR MODERN**

**Data Rhanbarthol:**

| **Cerdd Iaith - Ysgolion Cynradd : 5** | **22.6.21** |
|---|---|

**Data Awdurdod Lleol:**

| **Cerdd Iaith** | **22.6.21** |
|---|---|
| Ynys Môn: | 1 |

| | |
|---|---|
| **Tanysgrifiadau newydd i adnoddau Power Language 2021-2022:**<br>- Hydref - 35 ysgol gynradd<br>- Mawrth – 69 ysgol gynradd | **Power Language / nifer yr ysgolion newydd:** |

| | Hydref | Mawrth |
|---|---|---|
| Ynys Môn: | 8 | 9 |

| | |
|---|---|
| **Webinar Cynradd Power Language Nifer ysgolion: 23** | **22/11/21** |

| | |
|---|---|
| **Webinar Cynradd Power Language** | **22/11/21** |
| Ynys Môn: | 2 |

| | |
|---|---|
| **Gwobr Anthea Bell - Cystadleuaeth cyfieithu - Uwchradd** | 18 |

| | |
|---|---|
| **Gwobr Anthea Bell - Cystadleuaeth cyfieithu - Uwchradd** | |
| Ynys Môn: | 2 |

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Fentora Blwyddyn 8/9: nifer yr ysgolion :18**<br><br>**Tiwtora *turbo*** | Hydref 21-Mawrth 22 |

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Fentora Blwyddyn 8/9: nifer yr ysgolion :18 Tiwtora *turbo*** | Hydref 21-Mawrth 22 |
| Ynys Môn: | 1 |

**CALU - LLDC**

**Data Rhanbarthol:**

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

| | 2021-22 |
|---|---|
| Rhanbarthol | 77 |

Cymorthyddion wrth eu Gwaith

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 85 |

Darpar CALU Cylch 3

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 39 |

Darpar CALU Cylch 4

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 33 |

Asesiadau Statws CALU Cylch 2

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 30 |

Aseswyr CALU

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 35 |

**Data Awdurdod Lleol:**

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 14 |

Cymorthyddion wrth eu Gwaith

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 14 |

Darpar CALU Cylch 3

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 2 |

Darpar CALU Cylch 4

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 1 |

Asesiadau Statws CALU Cylch 2

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 3 |

Aseswyr CALU

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 2 |

**Y Gymraeg**

**Data rhanbarthol:**

**Ein Llais Ni – 100 ysgol yn rhan o'r prosiect**

**Data Awdurdod Lleol:**

**Ysgolion 'Ein Llais Ni'**

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth tymor yr hydref i'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect:**<br>**Cynhadledd: 111**<br>**Ar alw 1: 41**<br>**Rhwydwaith: 67**<br><br>**Cynllun Sabothol – Rhanbarthol: 12**<br><br>**Cwrs 'Cymraeg mewn Gwaith' - canolradd i staff GwE: 8** | Ynys Môn: 21 |

| | Cynhadledd 20/10 | Ar alw 9/11 | Rhwydwaith 23/11 | Ar alw 7/12 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn: | 23 | 9 | 15 | 2 |

**SAFON UWCH**

**Data rhanbarthol:**

**Rwydweithio a rhannu arferion ar draws Penaethiaid Chweched** : 17

**Data Awdurdod Lleol:**

**Rwydweithio a rhannu arferion ar draws Penaethiaid Chweched - rhwydweithiau ar draws cyd-awdurdodau:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 2 |

**DIGIDOL**

**Data Rhanbarthol:**

**Hwb**

Mae'r data ynghylch y defnydd o Hwb yn y rhanbarth yn parhau i fod yn uchel. Roedd nifer cyfartalog ysgolion y rhanbarth a ymgysylltodd â Hwb yn ystod chwarter 4 yn 98.06%. Roedd y cyfartaledd ar gyfer pob mis fel a ganlyn:

- Ionawr– 98.17%
- Chwefror – 98%
- Mawrth - 98%

**Data Awdurdod Lleol:**

**Data defnydd Hwb Chwarter 4**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 98% |

Nifer o unigolion sydd wedi bod rhan o weithgaredd o'r rhaglen hwylusywr digidol hyd yma

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 17 |

**MATHEMATEG A RHIFEDD**

**Data Rhanbarthol:**

Cyflwyniad i MDaPh Mathemateg a Rhifedd
Yn rhanbarthol – ymarferwyr cynradd

- Sesiwn cyfrwng Cymraeg – 39
- Sesiwn cyfrwng Saesneg -56

**Data Awdurdod Lleol:**

**Cefnogaeth Mathemateg / Llythrennedd**

| | |
|---|---|
| Ysgolion sy'n achosi consyrn: Ynys Môn: | 1 |

**Cyflwyniad i MDaPh Mathemateg a Rhifedd**

| | Cynradd - Cyfrwng Cymraeg 15/11/21 | |
|---|---|---|
| | Nif. ysgolion | Nifer o bobl |
| Ynys Môn | 8 | 9 |

<table>
<tr>
<td>Addysg Ariannol<br>• Nifer a gwblhawyd e-ddysgu – 48<br>• Nifer a hyfforddwyd ‘Wyneb yn Wyneb - 69</td>
<td><table>
<tr><td></td><td colspan="2">Cynradd – cyfrwng Saesneg 23/11/21</td></tr>
<tr><td></td><td>Ysgolion</td><td>Unigolion</td></tr>
<tr><td>Ynys Môn</td><td>1</td><td>1</td></tr>
</table></td>
</tr>
<tr><th colspan="2">SAESNEG A LLYTHRENNEDD</th></tr>
<tr>
<td>Data Rhanbarthol:<br><br>Cymorth llythrennedd i ysgol sydd naill ai mewn categori Estyn/Mesurau Arbennig, yn destun pryder neu angen arweiniad.<br><br>Uwchradd= 20 ysgol wedi derbyn cefnogaeth unigol<br><br>Pob ysgol uwchradd wedi mynychu fforwm Penaethiaid Saesneg</td>
<td>Data Awdurdod Lleol:</td>
</tr>
<tr><th colspan="2">CYMRAEG A LLYTHRENNEDD</th></tr>
<tr>
<td>Data Rhanbarthol:<br><br>Cyfarfodydd rhwydwaith ac ‘Ar alw’ (Chwe ’22) = 14</td>
<td>Data Awdurdod Lleol:<br><table><tr><td>Ynys Môn:</td><td>2</td></tr></table></td>
</tr>
<tr>
<td>PA a fynychodd hyfforddiant DPP CBAC (Ysgolion unigol fydd yn cyllido’r hyfforddiant hwn) - Chwe ’22 + Maw ‘22 = 16</td>
<td><table><tr><td>Ynys Môn:</td><td>2</td></tr></table></td>
</tr>
<tr>
<td>Aelodau o’r Teams / Google Classroom ‘GwE - Y Gymraeg - Uwchradd’ = 27</td>
<td>Mae pob PA Y Gymraeg ym mhob ALl yn aelod o’r rhwydwaith digidol hwn:<br><br>Ynys Môn = 5</td>
</tr>
<tr>
<td>Aelodau o’r Teams / Google Classroom ‘GwE - Y Gymraeg – Uwchradd YCS’ = 18</td>
<td>Ynys Môn = 1</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynhadledd Y Gymraeg Safon Uwch (GwE/Partneriaeth) = 10</td>
<td><table><tr><td>Ynys Môn:</td><td>2</td></tr></table></td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE) - nifer yr ysgolion uwchradd sy'n aelodau o'r prosiect = 13 | Ynys Môn: 2 |
| Prosiect 'Creu ar draws ieithoedd' - prosiect MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ar y cyd â YCG Ieithoedd Rhyngwladol ac YCG Saesneg, yn ogystal â Phrifysgol Bangor) = 2 | Ynys Môn = 1 |
| **GWYDDONIAETH** | |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>Ni chynhaliwyd rhwydweithiau penodol i wyddoniaeth oherwydd datblygiad y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol ar gyfer MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.<br><br>Nifer ysgolion sydd wedi derbyn cefnogaeth benodol: 27 | **Data Awdurdod Lleol:**<br><br>Nifer yr ysgolion uwchradd gafodd gymorth ysgol penodol:<br>Ynys Môn: 1 |
| **Y CYFNOD SYLFAEN** | |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>Nifer ysgolion sy'n derbyn cefnogaeeth benodol: 32<br><br>Prosiect Wood work: 26<br><br>Cyfarfod Rhwydwaith y Gwanwyn: 303 | **Data Awdurdod Lleol:**<br><br>Prosiect 'Wood work'<br>Ynys Môn: 4<br><br>Cyfarfod Rhwydwaith y Gwanwyn:<br>Ynys Môn: 40 |

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: 102
2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 72
3. Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP): 35
4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 35
5. Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol: 17

CYFANSWM: 258

**Data Awdurdod Lleol:**

| 2020-21 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | **T** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn: | 19 | 4 | 6 | 6 | 1 | **36** |

| 2021-22 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | **T** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn: | 9 | 5 | 5 | 2 | 1 | 22 |

<table>
<tr><th colspan="2">LLYWODRAETHWYR</th></tr>
<tr><td>Data Rhanbarthol:<br><br>Mae cynrychiolydd o GwE wedi mynychu pedwar cyfarfod yn ystod chwarter 2 a 3:<br><br>Cyfarfod CCAC/SCLl 18/06/21 (cenedlaethol)<br>Cyfarfod SCLl rhanbarth GwE 23/06/21 (rhanbarthol)<br><br>Cyfarfod CCAC/SCLl 14/10/21 (cenedlaethol)<br>Cyfarfod SCLl rhanbarth GwE 21/10/21 (rhanbarthol)<br><br>Y cyfarfodydd nesaf:<br><br>Cyfarfod CCAC/SCLl 14/02/22 (cenedlaethol)<br>Cyfarfod SCLl rhanbarth GwE 21/02/22 (rhanbarthol)</td><td>Data Awdurdod Lleol:<br><br><table><tr><td>Ynys Môn:</td><td>20 Llywodraethwr i gyd mewn sesiwn Zoom - Medi 2021<br><br>20 Llywodraethwr i gyd yn ystod 1 sesiwn ar Zoom 3/2/21</td></tr></table></td></tr>
<tr><th colspan="2">CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU</th></tr>
<tr><td>Data Rhanbarthol:<ul><li>Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio cynghrair: 53</li><li>Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr: 331</li><li>Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG: 54</li><li>Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG: 331</li></ul></td><td>Data Awdurdod Lleol:<ul><li>Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio cynghrair: Môn = 5;</li><li>Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr: Môn = 40</li><li>Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG: Môn = 5</li><li>Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG: Môn = 40</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL<br><br>Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant</th></tr>
<tr><th colspan="2">GDD PMG</th></tr>
<tr><td>Data:<br><br>Dysgu Proffesiynol:<ul><li>Introduction to Protective Behaviours to Support Wellbeing = 68</li><li>Model Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma = 45</li><li>Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma Blynyddoedd Cynnar = 700</li></ul></td><td>Data Awdurdod Lleol:<br><br>Dysgu Proffesiynol:<ul><li>Introduction to Protective Behaviours to Support Wellbeing<br>Ynys Môn = 3<br><br>Model Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma<br>Ynys Môn = 3.</li><li>Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma Blynyddoedd Cynnar Ynys Môn = 3</li></ul></td></tr>
</table>

- **Dull Ysgol Gyfan -Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma = 91**
- **UDA -Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma SLT TIS = 25**
- ***Biophilia* = 90**
- ***Talk Boost* = 9**
- **Arlunio a Siarad = 20**
- **Hyfforddiant i unigolion dynodedig PMG =** 25
- **Hyfforddiant PMG i lywodraethwyr** = 10

- **Dull Ysgol Gyfan -Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma** Ynys Môn = 7
- **UDA -Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma** Ynys Môn = 0
- **Biophilia** Ynys Môn = 11
- **Talk Boost** Ynys Môn = 0
- **Arlunio a Siarad** Ynys Môn = 1
- **Hyfforddiant i unigolion dynodedig PMG = 0**
- **Hyfforddiant PMG i lywodraethwyr = 0**

**AILGYDIO MEWN DYSGU**

**Data rhanbarthol:**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2:** Mae 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng mis Medi 2021 a thymor y gwanwyn 2022.

**Addysgu Manwl a SAFMEDS:** Cynhaliwyd 7 sesiwn hyfforddi rhanbarthol yn nhymor yr hydref 2021, a bellach gall holl ysgolion GwE gael mynediad i wefan fyw SAFMEDS i ddisgyblion, gweminarau ac adnoddau ar-lein.

- *Saesneg: Gwyliodd 1023 y weminar ailgydio mewn dysgu, a 391 y fideo hyfforddiant SAFMEDS.*
- *Cymraeg: 474 ar gyfer y weminar a 70 ar gyfer yr hyfforddiant SAFMEDS.*
- *Disgyblion yn cwblhau oddeutu 677 gweithgaredd mathemateg yn yr wythnos lansio gyntaf.*

**Gwella rhugldér mewn Darllen ar Lafar (iFOR):** Mae 42 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng mis Medi 2021 a thymor y gwanwyn 2022. Dyma niferoedd athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- Mae 62 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg

**Prosiect Lles Cydweithredol Warwick**
Ym mis Ionawr 2022 cafodd 33 o ysgolion cynradd eu recriwtio i gymryd rhan yn nau linyn iaith ein

**Data Awdurdod Lleol:**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 12 |

**Addysgu Manwl a SAFMEDS: :**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 3 |

**Gwella rhugldér mewn Darllen ar Lafar (iFOR):**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 5 |

**Prosiect Lles Cydweithredol Warwick**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 1 |

| | |
|---|---|
| hastudiaeth Ies Connect<br><br>**Astudiaeth Gwrth-fwlio KiVa y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd**<br><br>Ers 2020 rydym wedi bod yn gweithio gyda 29 o ysgolion cynradd i arfarnu effaith KiVa.<br><br>**Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP)**<br><br>Rydym yn cefnogi gyda 40 o ysgolion cynradd ac uwchradd. | **Astudiaeth Gwrth-fwlio KiVa y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd**<br><br>Ynys Môn: 3<br><br>**Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP)**<br><br>Ynys Môn: 9 |

| **AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**<br><br>**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson** | |
|---|---|
| **YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID** | |
| **Data Rhanbarthol*:***<br><br>**Nifer o ysgolion /clystyrau sy'n rhan o'r rhaglen: 105/ 18**<br><br>**Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd:161**<br><br>**Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 154**<br><br>**Nifer o ysgolion/ clystyrau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer yr haen nesaf: 154 / 20** | **Data Awdurdod Lleol*:***<br><br>**Nifer o ysgolion wedi ymrwymo**:<br>Ynys Môn: 10<br><br>**Adolygwyr Cymheiriaid wedi hyfforddi:**<br>Ynys Môn: 13<br><br>**Hwyluswyr gwelliant wedi hyfforddi:**<br>Ynys Môn: 11<br><br>**Nifer o Ysgolion i'w hyfforddi Haf a Hydref 2022:**<br>Ynys Môn: 20 |
| **YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER** | |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC rhanbarthol:** 11<br><br>• **Nifer ysgolion cynradd YAC rhanbarthol:** 2<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r peilot YAC cenedlaethol [Mesurau Arbennig]:** 4 | **Data Awdurdod Lleol:**<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC ym mhob ALl:** Môn = 0<br><br>• **Nifer yr ysgolion cynradd YAC ym mhob ALl:** Môn = 0<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r peilot YAC cenedlaethol [Mesurau Arbennig]:** Môn = 0 |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo

# Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE

# 2022-2023



# CYNNWYS


1. Ein Gweledigaeth, Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad

2. Cyd-destun Rhanbarthol

3. Cyflwyniad

4. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE:
    - Amcanion Strategol 2022-2023
    - Blaenoriaethau Rhanbarhol 2022-2023

5. Llywodraethu: Monitro ac Arfarnu

6. Cofrestr Risg

7. Cyllid

8. Dogfennau Ategol Ychwanegol

# Cydweithio, Dysgu, Llwyddo


## EIN GWELEDIGAETH

- Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.

- Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein ysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.

## EIN GWERTHOEDD






## EIN YMDDYGIAD

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn gyson, yn wrthrychol ac yn deg wrth ein gwaith, gan werthfawrogi ymdrech, cyfraniad a chyflawniad pawb. | Byddwn yn broffesiynol, yn onest ac yn agored yn ein gwaith gyda phawb. Mae hyn yn greiddiol i gydweithio llwyddiannus. | Byddwn yn arddangos gofal, empathi a chonsyrn am les pawb. | Byddwn yn barod i fentro gyda'n hysgolion, gan groesawu her, chwilfrydedd, dycnwch a'r parodrwydd i ddysgu o lwyddiannau a methiannau.<br>Drwy fod yn wybodus a rhannu arfer dda anelwn at rymuso a chymell ysgolion i ymchwilio a datblygu. | Byddwn yn ddibynadwy, yn hyblyg a sensitif yn ein cefnogaeth. Byddwn yn barod i gydweithio ac i annog cydweithio mewn partneriaeth gydag eraill gan gydnabod bod lle i bawb ohonom wella, datblygu a dysgu. | Byddwn yn arddel ac yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ym mhob rhan o'n gwaith. |

# 2. CYD-DESTUN RHANBARTHOL

Mae GwE yn darparu gwasanaethau gwella ysgol i ranbarth o chwe awdurdod lleol: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Yn 2021, roedd 82,432 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn 21.7% o holl ddisgyblion Cymru. Mae 401 ysgol a gynhelir yn y rhanbarth, sy'n 27.2% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2021).

Cynyddodd canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim unwaith eto, o 18.2% yn 2020 i 20.4%, sy'n is na'r ffigwr cenedlaethol o 22.9%. Mae'r lefel hon yn dal i fod yr isaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol (Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2021).

Yn y rhanbarth, mae 41.6% o'r rheiny sy'n dair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 29.5% (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

O 30 Medi 2021, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.2% o'r boblogaeth yn y rhanbarth, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 4.8%. (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

O 31 Mawrth 2021, mae 1,465 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n 20.2% o blant mewn gofal yng Nghymru. (Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth)

Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrheir bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector.

Mae gan GwE gynllun clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, ac yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau.

# 3. CYFLWYNIAD

Mae ein cynllun busnes rhanbarthol yn amlinellu'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Yng Ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i sicrhau bod gennym systemau a phrosesau cadarn a phwrpasol yn eu lle i gadw at ddisgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â'r 'Canllawiau Cenedlaethol Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd'. Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau ffydd a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol a bod pob partner yn cymryd atebolrwydd llawn am gyflawni ei rôl a chyfrannu gyda thryloywder, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Fe'i hystyrir o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i fod yn cyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation' .

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella. 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin capasiti ar draws y rhanbarth i wynebu heriau'r diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried disgwyliadau'r system a gweithio ar y cyd â phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

# 4. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

Mae ein cynllun busnes, ochr yn ochr â'r Strategaeth Ranbarthol 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr', yn corffori sut y bydd GwE yn ymateb i effaith y cyfnod ar ôl Covid yng nghyd-destun addysg. Trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob disgybl yng ngogledd Cymru yn elwa ar ddarpariaeth o'r safon uchaf. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol. Yn ogystal, ffocws ymweliadau cychwynnol Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ag ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd oedd anghenion ysgolion, gan ystyried effaith Covid. Mae gwybodaeth gyfansawdd sy'n deillio o'r ymweliadau hyn yn llywio cynlluniau cymorth ysgolion, ac rydym wedi mireinio ein cynllun busnes i amlygu hyn.

Cytunwyd ar y blaenoriaethau lefel uchel am 2022-2023 â'r Cyd-bwyllgor ar 16 Chwefror 2022. Cytunwyd ar y Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023 yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol ar 13 Gorffennaf 2022.

## AMCANION STRATEGOL

Mae ein hamcanion strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

| EIN HAMCANION STRATEGOL AM 2022-2023 | |
|---|---|
| 1 | **Cwricwlwm ac Asesu** - cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr |
| 2 | **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion |
| 3 | **Arweinyddiaeth** - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol |
| 4 | **Ysgolion cryf a chynhwysol** yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant |
| 5 | **Cefnogi system sy'n hunan wella -** cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson |
| 6 | **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian. |

## BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL 2022 - 2023


Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad ein blaenoriaethau isod yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau gweithredol manwl y gwasanaeth, sy'n amlinellu sut a phryd y bydd yr agweddau ar bob blaenoriaeth yn cael eu cyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

# EIN BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL AM 2022-2023




**Cydweithredu**

**Sefydliad sy'n Dysgu**

**Cyfoethogi Ansawdd**

**Datblygu arweinyddiaeth a chefnogi llesiant y gweithlu**

GwE

## BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL 2022-2023

### AMCAN 1: CWRICWLWM AC ASESU

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**1.1 Cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru**

- Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni pob agwedd ar y Daith Ddiwygio a gweithredu'r cwricwlwm newydd.
- Cefnogi pob aelod staff a llywodraethwr i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru drwy sicrhau bod pob ysgol yn barod ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf a bodloni gofynion gorfodol ar gyfer Medi 2022.
- Darparu cymorth i ysgolion a lleoliadau uwchradd baratoi at y cwricwlwm newydd ym Mlynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023 drwy:
  - Ddarparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm;
  - Cefnogi ysgolion i sicrhau y caiff dysgwyr gyfle i ddefnyddio, cymhwyso ac ymestyn y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a hynny mewn ystod o gyd-destunau gwreiddiol;
  - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
  - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant i ymateb yn effeithiol i'r arweiniad a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru a chynllunio'n effeithiol ar gyfer Dysgu Proffesiynol;
  - Sicrhau bod pob lleoliad yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi crynodeb i randdeiliaid allweddol;
  - Parhau i annog ysgolion i ddatblygu a mireinio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu fel rhan o arfarnu parhaus.
- Annog ysgolion i ddatblygu dulliau o gofnodi ac arfarnu cynnydd a llwyddiannau pob dysgwr yn holistaidd, a hynny tuag at berwyl cytûn sy'n cwmpasu'r Pedwar Diben o fewn cymuned eu hysgol.

**1.2 Asesu ac Atebolrwydd**

- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i helpu i ddatblygu sail resymegol effeithiol ar gyfer asesu, sy'n rhoi sylw i'r rhesymau pam a'r hyn a asesir, ac sy'n adnabod anghenion gwahanol randdeiliaid o ran gwybodaeth asesu berthnasol.
- Cefnogi egwyddorion ac arferion Cwricwlwm i Gymru, a chreu'r newid sylweddol mewn system a diwylliant sydd yn angenrheidiol er mwyn i'r Cwricwlwm lwyddo.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i hwyluso sgwrs broffesiynol effeithiol o fewn a rhwng ysgolion er mwyn datblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd ar draws y cwricwlwm, a bod yn fodd i ymarferwyr adnabod, cofnodi a myfyrio ar gynnydd

dysgwyr dros amser.

- Cefnogi ysgolion i adrodd yn effeithiol am gynnydd dysgwyr i rieni/gofalwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu dangosyddion perfformiad meintiol ac ansoddol, sy'n cofnodi'n effeithiol gynnydd ysgolion a lleoliadau yn erbyn pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i fabwysiadu model atebolrwydd newydd, a fydd yn cynnwys prosesau grymus i sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar bob lefel ar gyfer gwelliannau ysgol rhanbarthol.

## AMCAN 2: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

**Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion**

**2.1 Gwella Addysgu**

- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.
- Sicrhau bod egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol yn cael eu gweithredu'n effeithiol a chyson ar draws ac o fewn ysgolion.
- Sicrhau cysondeb negeseuon yng nghynnig Dysgu Proffesiynol GwE a'r cymorth i ysgolion o ran y 4 diben ac addysgeg, gan gynnwys y 12 egwyddor addysgegol.
- Cefnogi ysgolion i weithredu egwyddorion allweddol y canllawiau asesu.
- Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr

**2.2 Y Gymraeg**

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:

- Cefnogi ysgolion i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg
- Cefnogi ac ysgogi datblygiad twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg
- Datblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg er mwyn paratoi at y Cwricwlwm i Gymru (3-16) a chryfhau cydweithredu / pontio o'r sector cynradd i'r uwchradd
- Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi at y Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr
- Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'
- Datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn ymestyn y gyfran sydd yn gallu addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

| | | |
|---|---|---|
| **AMCAN 3: ARWEINYDDIAETH** | | |
| **Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol** | | |
| **3.1** | **Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau uchel ac uchelgais i bawb** | » Parhau i gefnogi cydweithredu ar bob lefel o arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei botensial. Yn benodol:<br>• Gofalu bod clystyrau a chynghreiriau yn cyfrannu'n effeithiol i waith datblygiadol o fewn ac ar draws sectorau.<br>• Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid ym mhob clwstwr a chynghrair er mwyn sicrhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus a thrylwyr.<br>• Cefnogi arweinwyr mewn clystyrau a chynghreiriau gyda phrosesau Cyfoethogi Ansawdd sydd yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion wrth i ni symud i'r cwricwlwm newydd.<br>• Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.<br><br>» Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol. |
| **AMCAN 4: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL** | | |
| **Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant** | | |
| **4.1** | **Cymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu ar gyfer llesiant ac ADY** | » Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth llesiant i ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.<br>» Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i blant sy'n fregus i ddysgu, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.<br>» Datblygu dull llesiant ysgol gyfan, gan hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus yng Nghymru'.<br>» Cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno Trawsnewid ADY trwy ddarparu Dysgu Proffesiynol i wella'r dysgu a'r addysgu. |
| **4.2** | **Cefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a gosod safon uchel i bawb** | » Cefnogi ysgolion i gyflwyno'r rhaglen diwygio addysg tymor hir, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau yn codi.<br>» Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | | y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghyfartal arnynt. Cymorth hefyd i adnabod a chefnogi'r dysgwyr hyn.<br>» Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth. |
| 4.3 | **Strategaeth i gefnogi ymwneud rhieni a'r gymuned** | » Datblygu strategaeth i gefnogi rhieni a'r gymuned, i helpu rhieni a gofalwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu. Annog ysgolion i wrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.<br>» Cefnogi ysgolion i wreiddio dull ysgol gyfan o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.<br>» Annog ysgolion i ddatblygu partneriaethau cymunedol a gwaith amlasiantaethol er mwyn cryfhau ymgysylltiad teuluoedd, gwella safonau a chael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu i'r dysgwyr hynny o gefndiroedd tlotach.<br>» Cefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol i fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol er mwyn sicrhau ymgysylltu fwy cadarn â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. |

## AMCAN 5: CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | **Cryfhau dulliau amlasiantaethol o weithio gydag ysgolion sy'n destun pryder** | » Mewn partneriaeth efo'r Awdurdodau Lleol, cryfhau ymhellach a datblygu'r prosesau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder.<br>» Gofalu bod gan bob ysgol sydd mewn categori statudol, neu a adnabuwyd yn lleol fel ysgol sy'n destun pryder, fynediad i gynllun cymorth cynhwysfawr y cytunwyd arno i'w helpu ar ei llwybr gwella.<br>» Sicrhau y cyflwynir y pecyn cymorth yn effeithiol ac yn amserol, a'i fod yn cael ei fonitro yn rymus er mwyn sicrhau effaith ar safonau a darpariaeth. |
| 5.2 | **Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid yn aeddfedu** | Cryfhau ein cyd-ymdrech i wella ysgolion drwy:<br>» Barhau i weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau er mwyn dyfnhau'r gwaith cymheiriaid sydd eisoes ar waith i gynllunio, datblygu ac arfarnu blaenoriaethau a rhannu dysgu proffesiynol.<br>» Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu adolygiad gan gymheiriaid ymhellach.<br>» Parhau i ddatblygu ein gwaith mewn clystyrau, cynghreiriau a phontio rhwng sectorau i wella ansawdd a datblygu agenda Cwricwlwm i Gymru.<br>» Parhau i weithredu ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu ymhellach ein harferion yn seiliedig ar dystiolaeth.<br>» Parhau i weithio ar y cyd â Rhanbarthau eraill i geisio cyflwyno dull fwy cyson o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. |


# AMCAN 6: BUSNES

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.1** | **Busnes** | » | Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy’n rhoi gwerth am arian. |

# 5. LLYWODRAETHU: MONITRO AC ARFARNU

**Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE.**

## HUNAN ARFARNU AC ATEBOLRWYDD GwE




Mae’r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni’r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

Yn ein cynlluniau busnes manwl adroddir am gynnydd yn chwarterol, sy’n rhoi adroddiad cynnydd ar:

- Effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau (gan gynnwys meini prawf meintiol ac ansoddol)
- Materion neu risgiau newydd gafodd eu hadnabod ar gyfer y cyfnod adrodd
- Data rhanbarthol

- Data Awdurdod Lleol
- Proffil gwariant

Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y cynllun busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu, fel y nodir uchod. Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

# 6. COFRESTR RISG

Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-Bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Adnabuwyd amryw o risgiau all fod yn rhwystrau i weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn llwyddiannus. Dyma nhw:

- Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.
- Ansicrwydd ynglŷn â thoriadau grant a threfniadau cyllid gan LC sy'n amharu ar gynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol wrth gadarnhau lefelau cyllid yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.
- Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd.
- Mae effaith pandemig Covid-19 wedi ei gwneud hi'n anoddach i ysgolion fwrw ymlaen efo'u paratoadau gwreiddiol at y Cwricwlwm i Gymru.
- Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg.
- Cyflymder datrys materion mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori statudol Estyn.
- Cysondeb ac ystod y Daith Ddiwygio a'i effaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LlC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LC i ysgolion.

# 7. CYLLID

Fel pawb arall, rydym yn byw mewn hinsawdd ariannol anodd iawn a rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Prif Weithredwyr y Rhanbarth, ac am gyngor a chefnogaeth Aelodau Etholedig y Cyd-Bwyllgor wrth wneud y penderfyniadau gorau i gefnogi ein dysgwyr a'n hysgolion.

Ar gyfer 2022-2023 mae ein cyllideb graidd yn £3,924,269. Mae ein cyllideb graidd bellach oddeutu 25% yn llai na'r cyfnod cyn sefydlu GwE. Bydd ein Grant Gwella Addysg yn £29,309,224 ar gyfer eleni (yn cynnwys cyllid cyfatebol). Mae hyn yn doriad o £7.5 miliwn ar gyllideb 2015. Ar yr un pryd, bu cynnydd o 22% mewn costau o ganlyniad i gyflwyno isafswm cyflog, cyflog byw a chyfraniadau pensiwn. Wrth reoli'r heriau ariannol hyn, rydym wedi parhau i gynyddu ein cyfraddau dirprwyo i ysgolion. Mae GwE yn cadw oddeutu 3% o'r GGA i ddarparu cefnogaeth i ysgolion.

| | | | Grant a chyfateb | Grant a chyfateb |
|---|---|---|---|---|
| | | Grant a chyfateb | Toriad (£) | Toriad (%) |
| **11 Grant Unigol** | 14/15 | £37,021,296 | | |
| **GGA** | 15/16 | £33,549,764 | -£3,471,532 | -9.38% |
| **GGA** | 16/17 | £31,902,703 | -£1,647,061 | -4.91% |
| **GGA** | 17/18 | £31,672,444 | -£230,259 | -0.72% |
| **GGA** | 18/19 | £29,124,247 | -£2,548,197 | -8.05% |
| **GGA** | 19/20 | £29,064,551 | -£59,696 | -0.20% |
| **GGA** | 20/21 | £28,776,349 | -£288,202 | -0.99% |
| **GGA** | 21/22 | £29,397,227 | £620,878 | 2.16% |
| **GGA** | 22/23 | £29,309,224 | -£88,003 | -0.30% |
| | | **Cronnus** | -£7,712,072 | -22.39% |

# 8. DOGFENNAU ATEGOL YCHWANEGOL

- Cynlluniau Busnes Manwl 2022-2023
- Cofrestr Risg GwE
- Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol
- Blaenoriaethau Strategol Awdurdodau Lleol 2022-2023
- Papurau Procio ar y Daith Ddiwygio

GwE

Cydweithio • Dysgu • Llwyddo


0300 500 8087

post@gwegogledd.cymru

www.GwEGogledd.Cymru

@GwEGogleddCymru

This page is intentionally left blank

W

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**Templed Adroddiad Sgriwtini**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **7 Chwefror, 2023** |
| **Pwnc:** | Panel Sgriwtini Addysg |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Sgriwtini Addysg |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Ieuan Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>07971167198<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi'r cynnydd cychwynnol hyd yma gyda gwaith y Panel Sgriwtini Addysg

**A2** Gefnogi'r bwriad i ddatblygu model craffu diwygiedig ar faterion Addysg fel sail i waith y Panel Sgriwtini Addysg a'r ddau riant Bwyllgor Sgriwtini fel y manylir yn Rhan 5, paragraff 2.7 isod.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor:

- Uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lled yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn."
- Yn nodi'r blaenoriaeth Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae gwaith y Panel yn cyfrannu at y nod yma.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:
1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â chyfeiriad cychwynnol gwaith y Panel?
2. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
3. Pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

Bydd Aelodau'n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod yr Weinyddiaeth ddiwethaf drwy waith 3 phanel sgriwtini. Mae'r Weinyddiaeth newydd bellach[1] wedi cadarnhau strwythur y panelau sgriwtini ar gyfer y Cyngor presennol fel a ganlyn:

- Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Rhiantu Corfforaethol
- Panel Sgriwtini Cyllid
- **Panel Sgriwtini Addysg.**

**Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini[2] yn cadarnhau cylch gorchwyl y Panel mewn ffordd sy'n creu'r amodau ar gyfer cwmpas ehangach i'w waith gyda'r manteision allweddol canlynol:

i. Datblygu model o graffu mewn Addysg sy'n canolbwyntio ar grŵp llai o Aelodau yn cydweithio ar themâu penodol er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
ii. Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd eu gwybodaeth gyffredinol a'u dealltwriaeth parthed data perfformiad ysgolion
iii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2022

[2] Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21 Mehefin, 2022

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[3] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Hefyd, rhoddwyd trefniadau mewn lle i adrodd gynnydd yn chwarterol i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel.

Dyma aelodaeth y Panel:

| Aelod | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym O Jones (Cadeirydd y Panel) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts (Is-gadeirydd y Panel) | |
| Non Dafydd | |
| Derek Owen | |
| | |
| Arfon Wyn | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Dyfed Wyn Jones | |
| Alwen Watkin | |
| Keith Roberts | |

O ran cyd-destun lleol, noder bod 2/3 o aelodaeth y Panel Sgriwtini Addysg yn Aelodau a etholwyd am y tro cyntaf ym mis Mai y llynedd[4]. Mae angen felly i'r Cyngor barhau gyda'r gwaith o greu'r amodau i'r holl Aelodau gymryd rhan llawn yng ngwaith craffu'r Panel ee sgiliau sgriwtini effeithiol, cwestiynu pwrpasol, dealltwriaeth o'r maes addysg, codi ymwybyddiaeth am raglenni gwaith addysg ar lefel genedlaethol ayyb. Bwriedir gwneud defnydd llawn felly o'r blaen raglen waith i sicrhau mewnbynnau addas ac amserol i gefnogi aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg.

## 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG

Dyma ail adroddiad cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg sy'n cwmpasu cyfnod chwarter 2 y flwyddyn weinyddol bresennol.

Cynhaliwyd 5 cyfarfod o'r Panel[5] yn ystod y cyfnod hwn a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol:

### 2.1 Adroddiad Arolwg Estyn Cyngor Sir Ynys Môn

Ystyriwyd casgliadau'r arolwg gan ganolbwyntio ar yr agweddau canlynol – prif gasgliadau, argymhellion a'r cynllun gweithredu ôl-arolwg.

Nodwyd - trosolwg cyffredinol yr arolwg:

- Ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu'n cyfrannu'n effeithiol iawn at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel
- Ethos a meddylfryd "Tîm Môn" wedi'i ddatblygu – cydweithio a chyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ddefnyddio er budd plant a phobl ifanc yr Ynys.

---

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017
[4] Etholiadau Llywodraeth Leol Mai, 2022
[5] Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 22/09/22, 20/10/22, 24/11/22, 22/12/22 a 24/01/23

Dau argymhelliad – yn gyntaf, cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu. Yn ail, datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol.

Bu i'r Panel edrych mewn manylder ar y gwestiynau a oedd yn sail i'r arolwg:

i. Pa mor dda mae'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth?
ii. Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr Awdurdod Lleol i gefnogi dysgwyr bregus sydd mewn perygl o ymddieithrio?
iii. Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer hybu lles yr holl blant a phobl ifanc?
iv. Pa mor effeithiol yw ymagwedd yr Awdurdod Lleol tuag at foderneiddio ysgolion gan gynnwys cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

Yn sgil y craffu, bu i'r Panel gytuno'r pwyntiau gweithredu a ganlyn:

- Derbyn y cynllun gweithredu ôl-arolwg Estyn fel sail i ymateb y Cyngor i'r arolwg diweddar
- Cyflwyno gerbron y Panel y data cyfredol ynghylch plant a phobl ifanc a ddysgir adref nac ydynt yn ymgysylltu ag addysg
- Rhoi trefniadau ar waith i'r Panel gwblhau hunan werthusiad o'i gyfraniad at graffu Addysg (Chwefror 2023).

**Allbwn:**

Gwell ddealltwriaeth gan y Panel o brif gasgliadau ac argymhellion arolwg Estyn fel sail i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ôl-arolwg dros y cyfnod nesaf.

**2.2 Cwricwlwm i Gymru**

Yng nghyfarfod mis Hydref y Panel[6] bu i'r Panel dderbyn cyflwyniad gan GwE ar agweddau canlynol y Cwricwlwm i Gymru:

i. Beth sy'n newid a pham fod pethau'n newid
ii. Y ddyletswydd cyfreithiol ar ysgolion a beth fydd hyn oll yn ei olygu'n ymarferol
iii. Cynnydd hyd yma ar y gweithredu lleol
iv. Blaenoriaethau allweddol dros y cyfnod nesaf.

**Allbwn:**

Dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru fel sylfaen i waith sgriwtini y Panel – fel ffrind beirniadol a monitro cynnydd yn ysgolion Ynys Môn.

**2.3 Cysgodi GwE**

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg ar 24 Tachwedd, 2022 ar y cyfleon i gysodi swyddogion GwE. Nodwyd y canlynol gan y Panel**:**

[6] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 20 Hydref, 2022

i. Cyfleon lluosog i aelodau'r Panel arsylwi – cefnogaeth mewn ysgolion, arferion da, heriau yn wynebu ysgolion, meysydd sy'n cael eu datblygu, safonau gwaith, swyddogion wrth eu gwaith, staff ysgol yn eu gwaith ac ati
ii. Cyfle drwy arsylwi i gasglu gwybodaeth, gofyn cwestiynau, rhannu'r hyn a welwyd ymhlith aelodau'r Panel, bod yn rhan o'r trafodaethau
iii. Ffurflen gofnodi mewn lle er defnydd aelodau'r Panel wrth adrodd yn ôl I'r Panel Sgriwtini Addysg llawn. Fframwaith tebyg i Ymweliadau yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol
iv. Hyn yn ddull arloesol i aelodau'r Panel edrych ar ystod eang o feysydd a hefyd yn fodd o uwch-sgilio. Allweddol gofyn cwestiynau fel ffordd o herio mewn modd cefnogol ac adeiladol
v. Anelu at sefydlu model o arfer dda sy'n canolbwyntio ar effaith a deilliannau

Yn sgil y drafodaeth, rhoddwyd trefniadau mewn lle i aelodau'r Panel gysgodi swyddogion GwE**.**

**2.4 Rôl a Disgwyliadau'r Fframwaith Rheoleiddio – Arweinyddiaeth Wleidyddol a Sgriwtini**

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr[7] y Panel, cafwyd cyflwyniad gan Estyn yn trafod rôl a disgwyliadau'r fframwaith rheoleiddio ynghylch arweinyddiaeth wleidyddol a sgriwtini. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig:

i. Sawl agwedd i rôl Estyn fel arolygiaeth:
   - Darpariaeth mewn ysgolion
   - Arolygu ysgolion unigol yn erbyn y fframwaith safonau
   - Arolygydd Cyswllt Awdurdod Lleol mewn lle i hyrwyddo cydweithio

ii. Nifer o swyddogaethau gan yr Arolygiaeth:
   - Ffrind beirniadol
   - Craffu
   - Cydweithredu
   - Sicrhau atebolrwydd drwy'r broses arolygu
   - Darparu adroddiad yn sgil pob arolwg sy'n cynnig darlun gonest, ar sail llif gwybodaeth ddwy ffordd.

iii. Mae perthynas gadarnhaol rhwng Estyn, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion unigol ar Ynys Môn
iv. Sawl elfen i'r fframwaith arolygu ysgolion gan Estyn → dysgu; lles; darpariaeth addysgu; arweinyddiaeth a rheolaeth
v. Arolwg cadarnhaol iawn o'r Awdurdod Addysg Lleol gan Estyn[8]. Ynys Môn mewn sefyllfa o gryfder oherwydd natur y berthynas rhwng yr Awdurdod Addysg a GwE. Roedd dau argymhelliad – un yn canolbwyntio ar yr angen i gryfhau ymhellach ar y craffu cyhoeddus o faterion addysg. Nodwyd bod cynnydd wedi'i dystioli
vi. Cyfeiriwyd at nodweddion craffu effeithiol o faterion addysg a hynny fel sail i ddatblygu ymhellach ar ein dulliau lleol.

[7] Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr, 2022
[8] Arolwg o Awdurdod Addysg Ynys Môn, Mehefin 2022

**Allbwn:**
Dealltwriaeth gan y Panel o ddisgwyliadau'r fframwaith rheoleiddio addysg gan Estyn ynghylch arweinyddiaeth wleidyddol a sgriwtini.

**2.5 Cylch Gorchwyl a Chyd-destun i Waith y Panel**
Gwelwyd y Panel hefyd yn adolygu'r cylch gorchwyl yn ei gyfarfod ar 22 Rhagfyr, 2022 (yn sgil 6 mis cyntaf y flwyddyn weinyddol). Nodwyd ei bod yn allweddol sicrhau nad yw'r Panel yn datblygu i fod yn haen ychwanegol o atebolrwydd ond yn hytrach yn ran o'n meddylfryd o gyd-atebolrwydd.

**Allbwn**: trefniadau llywodraethiant cadarn yn sail i waith sgriwtini y Panel Sgriwtini Addysg.

**2.6 Canllawiau Gwella Ysgolion → Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru)**
**Rôl Aelodau Etholedig, Llywodraethwyr Ysgol a'r drefn ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder**
Yng nghyfarfod mis Ionawr[9], rhoddwyd ystyriaeth i oblygiadau statudol y Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru). Rhai cyfrifoldebau penodol ar y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Panel Sgriwtini Addysg:

- Dwyn y Pwyllgor Gwaith i gyfrif am safon ac effaith gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi ysgolion
- Craffu ar waith y Cyngor i gefnogi ysgolion (yn hytrach na dwyn ysgolion i gyfrif)
- Craffu ar ba mor effeithiol ydy'r cydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a GwE
- Monitor a chraffu'r defnydd o bwerau statudol i gefnogi a gwella ysgolion sy'n achosi pryder
- Ystyried effaith penderfyniadau i ad-drefnu ysgolion ar wella ysgolion.

**Allbynnau:**
i. Gwell ddealltwriaeth o oblygiadau statudol y fframwaith atebolrwydd newydd a'r amserlen i weithredu
ii. Datblygu ymhellach ar y model craffu addysg yn lleol mewn ffordd sy'n cydymffurfio â deilliannau'r Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd
iii. Gweithgareddau cysgodi GwE gan Aelodau i barhau fel rhan integredig o weithgareddau'r Panel Sgriwtini Addysg.

**2.7 Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2021/22**
Ar 25 Ionawr, 2023, derbyniwyd Adroddiad Blynyddol GwE: 2021/22 a oedd yn ddatganiad hanesyddol. Roedd y ddogfen yn tystioli ac yn cydnabod natur y cydweithio a'r bartneriaeth rhwng GwE a'r Awdurdod Lleol. Nodwyd ei bod yn amserol bellach i ddechrau sgwrs ynghylch y trefniadau a'r amserlenni wrth graffu ar faterion Addysg i'r dyfodol gan roi sylw i'r agweddau canlynol:

[9] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2023

- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE llawer iawn yn gynt yn y calendr cyfarfodydd. **Amcan**: creu'r amodau ar gyfer craffu ar sail gwybodaeth gyfredol
- Ystyried y priodoldeb o wahodd GwE i gyflwyno cyfres o adroddiadau thematig sy'n alinio gyda phynciau ar flaen raglen waith y Panel. **Amcan**: aliniad gwybodaeth i gefnogi sgriwtini effeithiol
- Edrych ar natur y wybodaeth i'w chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i'r dyfodol ar ffurf compendiwm o adroddiadau cynnydd yn ystod y flwyddyn. **Amcan**: model craffu diwygiedig ar faterion Addysg fel sylfaen i waith y Panel a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini.

**2.8 Rhaglen waith y Panel Sgriwtini am y cyfnod Medi 2022 → Ebrill, 2023**

Cafwyd adolygiad o'r blaen raglen waith ymhob cyfarfod o'r Panel gyda'r amcan o sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethiant y Cyngor. Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Panel Sgriwtini[10] yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

i. Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru:
   - Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
   - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
   - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2021.

ii. Argymhellion Estyn 2022 – ail ymweld i graffu ar y cynnydd wrth wireddu'r cynllun gweithredu ôl-arolwg

iii. Blaen raglen waith – adolygiad.

## 6. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED

Dim mater i'w uwchgyfeirio gan y Panel.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ddim yn berthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ddim yn berthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ddim yn berthnasol |

[10] Panel Sgriwtini Addysg, 16 Chwefror, 2023

| |
|---|
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Sgriwtini Ysgolion**
**Dyddiad: 16/01/2023**
**(diwygiwyd 18/01/2023 a 26/01/2023)**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **7 Chwefror, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2022/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2022/23<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2022/23 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2022→ Ebrill, 2023**
**[Fersiwn dyddiedig 30/01/23]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2022 (31/05/22)** | **Mai, 2022 (31/05/22)** |
| Ethol Cadeirydd: 2022/23 | Ethol Cadeirydd: 2022/23 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 | Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 |
| | |
| **Mehefin, 2022 (20/06/22)** | **Mehefin, 2022 (21/06/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2021/22 |
| Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau | Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau |
| | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2021/22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Medi, 2022 (26/09/22) – Ch1** | **Medi, 2022 (26/09/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2022/23 | Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2021/22 |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Hydref, 2022 (19/10/22)** | **Hydref, 2022 (18/10/22)** |
| Tlodi a'r Heriau Costau Byw | Arolwg Estyn o'r Awdurdod Addysg Lleol |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | • Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg<br>• Adborth y Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2021/22 | Rhaglen Arfor |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Tachwedd, 2022 (22/11/22) - Ch2** | **Tachwedd, 2022 (23/11/22) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2021/22 |
| Data Poblogaeth: Cyfrifiad 2021 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2021/22 |
| Adroddiad Awdurdod Lleol Ynys Môn ar Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022: Chwaraeon Cymru | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2021/22<br>• Adroddiadau Cynnydd Ch1: 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ionawr, 2023 (19/01/23) – Cyllideb 2023/24 (bore)** | **Ionawr, 2023 (17/01/23)** |
| Sefydlu Cyllideb 2023/24 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/28 – ymgynghorai statudol |
| Cynllun Drafft y Cyngor: 2023-2028 ac adroddiad ar yr ymgysylltu ac ymgynghori | Adroddiadau Cynnydd Ch2: 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ionawr, 2023 (19/01/23) (prynhawn)** | |
| Arolwg AGC: Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Gwerthuso Perfformiad (Hydref, 2022) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | |
| | |
| **Chwefror, 2023 (28/02/23) – Cyllideb 2023/24** | **Chwefror, 2023 (07/02/23) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2023/24 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2021/22 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Cynllun y Cyngor 2023/2028 | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Mawrth, 2023 (14/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2023 (15/03/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2021/22 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2023/24 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant (i'w chadarnhau) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn (eitem i'w chadarnhau) |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ebrill, 2023 (19/04/23)** | **Ebrill, 2023 (19/04/2023)** |
| Cynllun Rheoli: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant (i'w chadarnhau) |
| | Strategaeth Gwella Trefi Ynys Môn |
| | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Polisi Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Strategaeth Gwasanaethau Clinigol |
| Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol 2021/26 | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cyfrifiad 2021 | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2022/23 (Mehefin, 2023) |

This page is intentionally left blank